Hydref 2016

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Diogelwch Cymunedol yng Nghymru

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rheolwr Prosiect tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru oedd Nick Selwyn ac roedd y tîm yn cynnwys Steve Frank, Gareth Jones, Andy Bruce, Martin Gibson a Duncan Mackenzie dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2032 0500, e-bost: post@archwilio.cymru neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2016

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru

# Cynnwys


Adroddiad manwl 6

Cefndir 6

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 9

Prif gasgliadau ac Argymhellion 10

1 Mae gan gyrff cyhoeddus gyfrifoldebau am ddiogelwch cymunedol sy'n gorgyffwrdd, sy'n creu rhwystrau wrth gyflenwni'n effeithiol 14

Mae'r cyfrifoldebau cymhleth ar gyfer diogelwch cymunedol yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus roi arweiniad a chyfeiriad clir a chyson 15

Mae rhai cyrff cyhoeddus yn credu bod atal Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan wedi llesteirio cydweithio a lleihau cyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio 18

Mae'r trefniadau i gyflenwi diogelwch cymunedol yn gymhleth. Maent wedi newid dros amser ac nid ydynt bob amser yn gydgysylltiedig, ac mae hyn wedi creu anawsterau wrth geisio gweithio mewn partneriaeth 20

Gallai'r dulliau sy'n cael eu datblygu o fynd ati i weithio'n rhanbarthol fynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol, ond araf yw'r cynnydd ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd yn addas i'r diben 22

Nid yw'r dinasyddion hynny a ymatebodd i'n harolwg yn glir o ran pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru 27

2 Mae blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn amrywio'n fawr ac nid ydynt wedi'u halinio. Gallai hyn achosi dryswch a chamau gweithredu anhrefnus. Ychydig iawn o dystiolaeth a welir o ddefnyddio cyswllt â'r cyhoedd fel sylfaen i lunio'r cynlluniau 29

Mae cadernid cynlluniau diogelwch cymunedol yn amrywio'n fawr ac mae'r diffyg alinio rhwng blaenoriaethau'r DU, Cymru, blaenoriaethau rhanbarthol a rhai dinasyddion yn tanseilio gwaith gyda phartneriaid a chyfleoedd i wella 30

Yn gyffredinol, mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i bennu eu camau gweithredu blaenoriaethol, ond mae'r dull gweithio a ddefnyddir yn amrywio ac nid yw bob amser yn gadarn 35

Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol, ond nid yw'r rhain wedi'u cyflwyno'n glir bob amser 36

Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a chymunedau lleol a defnyddio'r cyswllt hwn fel sylfaen i bennu blaenoriaethau 41

3 Er bod grantiau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'n sylweddol, mae cymhlethdod a natur tymor byr y cyllid a'r gostyngiadau termau real yng nghyllidebau rheoli diogelwch cymunedol yr heddlu a'r awdurdod lleol yn effeithio ar ymdrechion i weithio mewn partneriaeth a chyflawni gwerth am arian 44

Mae'r grantiau sydd ar gael i ariannu gweithgareddau diogelwch cymunedol a'r defnydd a wneir ohonynt yn gymhleth ac yn newidiol, ond nid yw bob amser yn amlwg pa fuddion neu effaith gadarnhaol a gyflwynir gan y grantiau 45

Mae'r gwariant termau real ar blismona wedi lleihau ac mae tri y cant o ostyngiad yn nifer yr heddlu rheng flaen 53

Mae gwariant termau real yr awdurdod lleol ar reoli diogelwch cymunedol wedi syrthio 32.7 y cant yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf ac mae'r gallu llai yn llesteirio gweithgareddau a gwelliannau 54

4 Oherwydd anawsterau o ran diffinio diogelwch cymunedol a gwendidau yn y data a'r gwaith craffu a gwerthuso, mae'n anodd i gyrff cyhoeddus ddangos effaith eu gweithgareddau 58

Awgryma cofnodion yr heddlu a chanfyddiadau arolwg fod trosedd wedi gostwng yn sylweddol yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond mae pryderon wedi codi ynghylch cywirdeb y data mewn adolygiadau diweddar, sy'n ei gwneud hi'n anodd mesur diogelwch cymunedol 59

Mae barn dinasyddion yn amrywio ynghylch ansawdd eu bywydau a pha mor ddiogel y maen nhw'n teimlo 63

Mae'n anodd beirniadu'r perfformiad a'r effaith wrth gyflwyno cynlluniau oherwydd yr amrywiadau eang yn ansawdd ac amrywiaeth y mesurau, y targedau a'r camau gweithredu y mae cyrff cyhoeddus yn eu defnyddio 66

Atodiadau

Atodiad 1 – Y sylfaen statudol dros reoli diogelwch yng Nghymru a Lloegr 73

Atodiad 2 – Cyfrifoldebau dros ddiogelwch cymunedol yng Nghymru 74

Atodiad 3 – Methodoleg astudio 77

Atodiad 4 – Astudiaethau achos o arfer da 79

# Adroddiad manwl

## Cefndir

1 Mae diogelwch cymunedol yn ymwneud ag ymdeimlad pobl o ddiogelwch personol a pha mor ddiogel y maent yn ei deimlo mewn cysylltiad â'r lle y maent yn byw, yn gweithio ac yn treulio eu hamser rhydd ynddo. Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar sut y mae pobl yn gwerthfawrogi eu cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl, a hyn yn aml sy'n pennu pa un a yw pobl eisiau byw ac aros yn eu cymdogaeth ai peidio.

2 Gan fod diogelwch cymunedol yn ymwneud â chymaint o wahanol agweddau ar fywyd, nid cheir unrhyw ddiffiniad cytunedig o'r hyn yw diogelwch cymunedol na'r gwasanaethau a'r gweithgareddau sy'n cyfrannu at ei sicrhau. Mae sylwebyddion wedi cynnig nifer o nodweddion sy'n awgrymu ei fod yn ymwneud â'r gweithgareddau hynny sy'n atal, yn dileu neu o leiaf yn rheoli troseddu, yn ogystal â'r pethau sy'n tarfu ar ansawdd bywyd a lles pobl. Yn ei ystyr ehangaf, felly, gall diogelwch cymunedol gynnwys unrhyw beth sy'n effeithio'n niweidiol ar fywydau pobl, megis strydoedd heb ddigon o oleuni, graffiti neu lendid ardal, a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar droseddau, dioddefwyr troseddau neu'r rheini sy'n byw gan ofni troseddau. Gall diogelwch cymunedol hefyd fod yn oddrychol, gyda barn dinasyddion ar ddiogelwch cymunedol wedi'i dylanwadu'n aml gan eu hamgylchiadau personol. Er enghraifft, gall heriau diogelwch cymunedol fod yn dra wahanol mewn amgylchedd trefol neu ddinesig â phoblogaeth ddwys o'u cymharu â'r heriau mewn cymunedau gwledig lle y mae'r boblogaeth ar wasgar.

3 Aethpwyd ati i hyrwyddo ymdrechion i gynnwys y llywodraeth leol wrth fynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn gyntaf trwy gyd-gylchlythyr llywodraeth ganolog a gyhoeddwyd ym 1984[1]. Wedi hyn, argymhellodd **Adroddiad Morgan 1991**[2] y dylai cyfrifoldeb statudol clir gael ei roi ar lywodraeth leol i ddatblygu ac annog gweithgareddau diogelwch cymunedol. Adeiladwyd ar Adroddiad Morgan gan **Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998** ('Deddf 1998'), a greodd bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol statudol. Diffiniodd Deddf 1998 y grŵp craidd o asiantaethau a fyddai'n rhan o'r partneriaethau hyn – awdurdodau lleol, yr Heddlu, yr awdurdodau Tân ac Achub a byrddau iechyd – yn ogystal â'u swyddogaethau a'u rolau ar lefel leol. Gosododd darpariaethau Deddf 1998 ddyletswydd ar asiantaethau lleol i weithio gyda'i gilydd i gyflawni eu nodau, gan amlygu bod awdurdodau lleol, yr heddlu ac awdurdodau iechyd yn gyfrifol ar y cyd am gyflawni diogelwch cymunedol. Yn ystod 2007[3] cyflwynodd Llywodraeth y DU Offeryn Statudol a gryfhaodd y trefniadau ymhellach. Mae'r offeryn hwn yn gofyn i'r awdurdodau rhagnodedig a nodwyd yn Neddf 1998 weithio gyda'i gilydd i ddatblygu asesiad strategol. Dylai'r asesiad ategu strategaethau a gweithgareddau lleol ac, os caiff ei wneud yn dda, bydd yn caniatáu i bartneriaid alinio eu gwaith er mwyn cyflawni'r effaith fwyaf.

1 Y Swyddfa Gartref, Adran Addysg a Gwyddoniaeth, Adran yr Amgylchedd, Adran Iechyd a Nawdd Cymdeithasol a'r Swyddfa Gymreig, **Crime Prevention (Home Office Circular 8/1984), y Swyddfa Gartref**, 1984.
2 Y Swyddfa Gartref, **Safer Communities: The Local Delivery of Crime Prevention through the Partnership Approach, y Swyddfa Gartref**, 1991 ('Adroddiad Morgan').
3 Y Swyddfa Gartref, **Offeryn Statudol Rhif 1831: Rheoliadau Troseddau ac Anhrefn (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007, y Swyddfa Gartref**, Mehefin 2007.

4 Y newid deddfwriaethol mawr diweddaraf i’r dirwedd diogelwch cymunedol yng Nghymru a Lloegr yw **Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** (‘Deddf 2011’). Trosglwyddodd Deddf 2011 y gwaith o reoli’r heddlu o awdurdodau’r heddlu i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu etholedig, a chynhaliwyd etholiadau cyntaf y comisiynydd heddlu ym mis Tachwedd 2012 a’r ail etholiadau ym mis Mai 2016[4]. Un o ddyletswyddau allweddol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw cynhyrchu’r Cynllun Heddlu a Throseddu. Er nad yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn aelodau penodol o bartneriaethau diogelwch cymunedol, y mae ganddynt bwerau a dyletswyddau sy’n ymwneud â diogelwch cymunedol - gan gynnwys dyletswydd gyfatebol i gydweithredu â phartneriaethau diogelwch cymunedol - ac mae ganddynt hefyd bwerau i fynd ati’n uniongyrchol i gomisiynu gwaith sy’n mynd i’r afael â diogelwch cymunedol.


5 Caiff y cyfrifoldeb am ddatblygu polisi sy’n cyfrannu at y gwaith o fynd i’r afael â diogelwch cymunedol yng Nghymru ei rannu rhwng llawer o wahanol asiantaethau ac mae’n gymhleth. Trwy’r Swyddfa Gartref, mae Llywodraeth y DU yn deddfu ac yn darparu cyfeiriad i’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac yn gosod polisïau sy’n ymwneud â swyddogaethau ‘diogelwch cymunedol’ llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Caiff cyfrifoldebau am ddiogelwch cymunedol hefyd eu dylanwadu gan Lywodraeth Cymru, sy’n gyfrifol am osod y polisi ar gyfer asiantaethau cyhoeddus allweddol megis byrddau iechyd a’r Awdurdodau Tân ac Achub ac ar gyfer prif feysydd gweithredu awdurdodau lleol Cymru. Yn ogystal, er bod amrywiaeth eang o asiantaethau yn cyfrannu at y gwaith o fynd i’r afael â diogelwch cymunedol, Llywodraeth Cymru sy’n bennaf gyfrifol am osod blaenoriaethau polisi sy’n cyfrannu at y gwaith o fynd i’r afael â diogelwch cymunedol yng Nghymru yn genedlaethol; y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar lefel ranbarthol; a’r awdurdodau lleol ar lefel leol. Mae Atodiadau 1 a 2 yn nodi’r sylfaen ddeddfwriaethol a’r trefniadau sefydliadol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru yn fwy manwl.

6 Mae Ffigur 1 yn crynhoi llwybrau atebolrwydd y prif gyrff cyhoeddus ac yn dangos bod penderfyniadau polisi ac ariannu yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, bo’r Heddlu, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, cyrff iechyd ac awdurdodau lleol, ymhlith eraill yn gyfrifol am gyflenwi’r gwasanaethau sy’n effeithio ar ddiogelwch cymunedol ar lefel ranbarthol a lleol. Mae gan Lywodraethau Cymru a’r DU ddulliau tra wahanol o fynd i’r afael â diogelwch cymunedol. Mae gan y ddwy Lywodraeth wahanol flaenoriaethau ar gyfer gweithredu sy’n dylanwadu ar sut y mae cyrff cyhoeddus rhanbarthol a lleol yn gweithredu ac yn gweithio o ran materion sydd wedi’u datganoli a materion sydd heb eu datganoli. Gall y trefniadau hefyd newid a gall hyn gynnig cyfleoedd i wella sut y mae partneriaid yn gweithio gyda’i gilydd i gyflenwi gwasanaethau, ond gall hefyd greu mwy o gymhlethdodau. Wrth fynd ymlaen, cred Llywodraeth Cymru y bydd cyflwyno Byrddau’r Gwasanaethau Cyhoeddus[5] yn chwarae rhan allweddol ar lefel leol o ran cael cyrff cyhoeddus i ganolbwyntio ar y blaenoriaethau a gytunwyd ar gyfer maes, gan gynnwys diogelwch cymunedol.

4 Cynhaliwyd etholiadau mewn 40 o feysydd heddlu yng Nghymru a Lloegr ar 5 Mai 2016 a newidiwyd tri o’r 4 Comisiynydd dros Gymru – Dyfed-Powys, Gwent a Gogledd Cymru. Cafodd ein gwaith maes gyda’r Heddlu a Chomisiynwyr ei gynnal yn ystod 2015-16, cyn etholiadau Mai 2016.

5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 yn sefydlu’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol. Diben y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw gwella’r lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd trwy gryfhau cydweithio ar draws holl wasanaethau cyhoeddus Cymru.

Ffigur 1 – Y cyrff cyhoeddus sy’n cyfrannu at y gwaith o fynd i’r afael â diogelwch cymunedol yng Nghymru



## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

7 Yn ystod 2015-16, aeth staff Swyddfa Archwilio Cymru ati, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, i archwilio pa un a yw Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i drechu trosedd a materion diogelwch cymunedol eraill sy'n cael effaith negyddol ar les pobl. Nodir ein dulliau astudio yn Atodiad 3. Roedd y rhain yn cynnwys arolwg ar-lein i ddinasyddion leisio'u barn ar ddiogelwch cymunedol a pha mor dda y mae sefydliadau yn gweithio i ddiwallu eu hanghenion, a gwaith maes archwilio yn y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a saith o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd ein methodoleg hefyd yn cynnwys dadansoddiad o ddata ar droseddau a gofnodwyd, cyllidebau ac adolygiad o gynlluniau a strategaethau allweddol. Mae ein hadroddiad hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arferion da wrth sicrhau diogelwch cymunedol yng Nghymru ac rydym hefyd wedi cyhoeddi adroddiadau penodol sy'n crynhoi'r perfformiad o ran diogelwch cymunedol gan bob Heddlu a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu.

8 At ddibenion ein hadolygiad, rydym wedi beirniadu'r effeithiolrwydd wrth gyflenwi diogelwch cymunedol yn erbyn y meini prawf canlynol – arweinyddiaeth grymus ac effeithiol; prosesau busnes a arweinir gan wybodaeth; cymunedau sydd wedi'u hymgysylltu; partneriaethau sydd â strwythurau cyflenwi ymatebol ac effeithiol; atebolrwydd gweladwy ac adeiladol; a sgiliau a gwybodaeth briodol. Gan ddefnyddio'r meini prawf hyn, rydym yn credu bod dull effeithiol o weithredu diogelwch cymunedol yn un lle y mae partneriaid wedi cytuno ar y camau sy'n atal ac yn lleihau troseddu, a lle y mae cyrff cyhoeddus cyfrifol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, a chyda dinasyddion, i gefnogi lles a diogelwch mewn cymunedau lleol. Dylai'r ymagwedd hon tuag at ddiogelwch cymunedol gael ei hategu gan arweinyddiaeth weladwy effeithiol a phartneriaid yn cyflawni'r camau gweithredu cytunedig o fewn strategaethau clir, priodol wedi'u halinio sy'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac sy'n canolbwyntio ar y pethau pwysig.

## Prif gasgliadau

9 Ar sail canfyddiadau'r archwiliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad bod **cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydgysylltu ffordd strategol o fynd ati i gyflawni diogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i aros yn ddiogel**.

10 Mae'r cyfrifoldebau polisi ar draws yr ystod o weithgareddau diogelwch cymunedol wedi eu rhannu rhwng Llywodraeth y DU – sy'n gyfrifol am faterion plismona, cyfiawnder ieuenctid a gwrth eithafiaeth ymysg meysydd polisi eraill – a Llywodraeth Cymru, sy'n atebol am y rhan fwyaf o'r gwasanaethau awdurdod lleol yng Nghymru, yn ogystal â'r Awdurdodau Tân ac Achub a'r Byrddau Iechyd. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddatganoli mae ymagwedd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU at elfennau amrywiol o ddiogelwch cymunedol yn datblygu mewn gwahanol ffyrdd a gallent felly ymwahanu yn ymarferol ac o ran ymagwedd.

11 Nid yw plismona lleol yng Nghymru wedi ei ddatganoli a chaiff ei gyflawni gan bedwar heddlu a phedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu. Maent yn dilyn arweiniad y Swyddfa Gartref. I fod yn gwbl effeithiol, mae angen i'r Heddlu weithio gydag awdurdodau lleol oherwydd mai llywodraeth leol sy'n gyfrifol am reoli'r partneriaethau diogelwch cymunedol lleol. Fodd bynnag, mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn gweithredu ar lefel awdurdod lleol ac nid ar lefel heddlu. Cynhyrchir y canllawiau ar gyfer y partneriaethau gan y Swyddfa Gartref ac maent yn atebol iddi. Er hyn, mae'r rhan fwyaf o'r cyllid cyhoeddus i awdurdodau lleol yn dod oddi wrth Lywodraeth Cymru.

12 Mae cymhlethdodau'r llinellau atebolrwydd yn golygu nad yw'r un corff unigol yn arwain nac yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae rhai dulliau gweithio mewn partneriaeth ranbarthol newydd yn cael eu sefydlu, ond newydd ddechrau cael eu datblygu y mae'r rhain. Cred rhai partneriaid bod atal Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan a lleihau swyddogaethau Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO) yn lleihau'r cyfleoedd i gydweithio ar ddiogelwch cymunedol. Gwelir cymhlethdodau'r trefniadau cyflenwi ac atebolrwydd yng nghanfyddiadau ein harolwg dinasyddion, gyda llawer o ymatebwyr yn ansicr ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

13 Nid oes gan Lywodraeth Cymru strategaeth unigol ar gyfer diogelwch cymunedol ac mae wedi canolbwyntio ei gweithgareddau ar gyflenwi'r **Rhaglen Lywodraethu**[6]. Er bod gan bob awdurdod lleol a'r pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu gynlluniau, nid ydynt wedi'u halinio'n gyson i sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a'r effaith fwyaf bosibl, ac nid yw'r flaenoriaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol yr un peth mewn unrhyw faes. Mae cynllunio datgymalog a chydgysylltu gwael yn esgor ar y perygl y bydd sefydliadau naill ai'n dyblygu gweithgarwch, neu'r perygl na fydd yr un ohonynt yn canolbwyntio ar y materion pwysicaf.

6 **Y Rhaglen Lywodraethu** yw cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru sy'n nodi'r blaenoriaethau allweddol i'w cyflawni yn ystod Tymor 2011-2016 y Cynulliad Cenedlaethol.

14 Mae rhai cynlluniau diogelwch cymunedol nad ydynt wedi'u hategu gan wybodaeth o ansawdd da ac nad ydynt wedi'u diweddaru i ddangos y patrymau a'r tueddiadau newidiol o ran diogelwch cymunedol, ac mae cynlluniau eraill yn parhau i fod yn rhy uchelgeisiol ac yn amhosibl i'w cyflawni. Dim ond 23 y cant o'r dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg cyhoeddus a nododd eu bod yn gwybod ymhle i gael gafael ar gynlluniau ar gyfer diogelwch cymunedol yn eu hardal a dim ond 18 y cant a deimlai bod y cynlluniau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion diogelwch cymunedol pwysicaf yn eu hardal.

15 Mae'r broses o ariannu diogelwch cymunedol wedi newid yn sylweddol yn ystod y chwe blynedd diwethaf. Arferai awdurdodau gael grantiau gan y Swyddfa Gartref, ond mae'r rhain bellach yn rhan o Brif Grant yr Heddlu. Er bod y cyllid ar gyfer y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r heddlu yng Nghymru wedi aros yn sefydlog, mae eu gwariant ar blismona a diogelwch cymunedol wedi gostwng mewn termau real. Mae penderfyniadau ar ba weithgarwch partneriaeth diogelwch cymunedol i'w ariannu wedi dilyn patrymau buddsoddi hanesyddol gan fwyaf ac nid ydynt wedi'u herio'n gyson i sicrhau bod grantiau'n cael eu defnyddio i fynd i'r afael â'r materion pwysicaf. Mae swm yr arian grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn cynyddu. Mae cymhlethdodau'r drefn ariannu gyffredinol ar gyfer diogelwch cymunedol, a'i natur tymor byr, yn lleihau cyfleoedd i gael mwy o werth am arian. Mae gwasgaru'r arian yn eang yn lleihau'r buddion y gellir eu gwireddu trwy gyfuno a thargedu'r arian.

16 Mae toriadau i gyllidebau'r awdurdodau lleol wedi arwain at 32.7 y cant llai o gyllid mewn termau real i reoli a chydgysylltu diogelwch cymunedol. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn sylweddoli bod angen iddynt ddod o hyd i ffynonellau ariannu sicr eraill er mwyn parhau i fodoli, ond hyd yma, ychydig iawn o waith sydd wedi'i wneud i gael gafael ar ffrydiau ariannu newydd. Gyda'r adnoddau'n parhau i leihau, mae'n amheus a yw'r strwythurau cyfredol ar gyfer diogelwch cymunedol yn gynaliadwy ac yn gallu cyflawni'r hyn sydd ei angen.

17 Mae beirniadu sut y mae sefydliadau'n gwella diogelwch cymunedol yn anodd. Nid cheir unrhyw ddangosyddion na mesurau statudol ar gyfer diogelwch cymunedol ac nid oes gan un asiantaeth unigol gyfrifoldeb cyffredinol amdano. Caiff perfformiad ei seilio'n bennaf ar gofnodion yr Heddlu a chanfyddiadau arolygon. Er bod y rhain yn awgrymu bod troseddau ar gynnydd bellach ar ôl cyfnod hir o adrodd bod troseddau'n lleihau, nid yw'r data ar droseddu wedi bod yn ddibynadwy yn hanesyddol. Mae'r dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg yn teimlo'n llai diogel yn eu hardaloedd nag yr oeddent y flwyddyn ddiwethaf, a dim ond 10 y cant ohonynt sy'n ffyddiog bod y rheini sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yn gwneud gwaith da.

18 Nid yw’r prosesau ar gyfer goruchwylio a herio perfformiad wedi’u halinio ac mae amrywiaethau eang yn ansawdd a chwmpas y mesurau, y targedau a’r camau gweithredu yn ei gwneud hi’n anodd dangos yr effaith a gânt. Mae’r casgliadau hyn ar ba mor effeithiol yw’r trefniadau rheoli perfformiad yn gyson a chanfyddiadau ein hadolygiadau diweddaraf, ac maent yn amlygu’r anhawster parhaus y mae cyrff cyhoeddus yn ei wynebu wrth gasglu a gwerthuso data. Mae’n rhaid mynd i’r afael â gwella’r gwaith o ddadansoddi data os yw cyrff cyhoeddus yn mynd i allu gwneud y dewisiadau cywir o ran ble i fuddsoddi adnoddau prin a chanolbwyntio eu gweithgarwch er mwyn sicrhau’r effaith fwyaf.

## Argymhellion

| Argymhellion | | |
|---|---|---|
| A1 | Gwella cynlluniau strategol er mwyn cydgysylltu gweithgarwch diogelwch cymunedol yn well, trwy sefydlu strategaeth genedlaethol a gefnogir gan gynlluniau rhanbarthol a lleol sy’n canolbwyntio ar gyflawni’r blaenoriaethau diogelwch cymunedol a gytunwyd yn genedlaethol yn lle’r fframwaith cynllunio cyfredol. | Llywodraeth Cymru, Tîm Cymru Swyddfa Gartref Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A2 | Gwella gwaith strategol â phartneriaid drwy fynd ati’n ffurfiol i greu byrddau diogelwch cymunedol effeithiol yn lle’r strwythurau diogelwch cymunedol cyfredol, sy’n ffurfioli ac yn uno gwaith Llywodraeth Cymru, yr heddlu, yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, yr awdurdodau tân ac achub, WACSO a rhanddeiliaid allweddol eraill. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A3 | Gwella gwaith cynllunio trwy greu cynlluniau gweithredu cynhwysfawr sy’n cynnwys gwaith pob partner ac sy’n nodi’r cyfraniad rhanbarthol a lleol yn glir wrth gyflawni’r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer diogelwch cymunedol. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |
| A4 | Adolygu trefniadau arian grant cyfredol a symud i gyllidebau cyfunol sydd ag ymrwymiadau ariannu mwy hirdymor er mwyn cefnogi cyrff cyflawni i wella’r gwaith o gynllunio prosiectau a’r gweithlu, gan ganolbwyntio ar gyflawni blaenoriaethau’r strategaeth diogelwch cymunedol genedlaethol. | Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol |

<table>
<tr><th colspan="2">Argymhellion</th><th></th></tr>
<tr><td>A5</td><td>Sicrhau bod perfformiad diogelwch cymunedol yn cael ei reoli’n effeithiol trwy:<br>• osod mesurau priodol ar bob lefel er mwyn galluogi aelodau, swyddogion a’r cyhoedd i feirniadu’r cynnydd o ran cyflawni camau gweithredu ar gyfer gwasanaethau diogelwch cymunedol;<br>• sicrhau bod yr wybodaeth am berfformiad yn cynnwys gwaith yr holl asiantaethau perthnasol; a<br>• sefydlu mesurau i feirniadu’r mewnbynnau, yr allbynnau a’r effaith er mwyn gallu deall effaith penderfyniadau buddsoddi a chefnogi’r gwaith craffu a throsolwg.</td><td>Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol</td></tr>
<tr><td>A6</td><td>Adolygu’r systemau ar gyfer rheoli risgiau diogelwch cymunedol a chyflwyno trefniadau monitro ac adolygu sy’n canolbwyntio ar sicrhau’r cyhoedd bod yr arian a gaiff ei wario ar ddiogelwch cymunedol yn cyflawni canlyniadau gwell i bobl yng Nghymru.</td><td>Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac awdurdodau lleol</td></tr>
<tr><td>A7</td><td>Gwella’r gwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â dinasyddion trwy’r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus wrth:<br>• ddatblygu cynlluniau a blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol;<br>• cytuno ar flaenoriaethau ar gyfer gweithredu; ac<br>• adrodd ar berfformiad a gwerthuso’r effaith.</td><td>Aelodau Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus</td></tr>
</table>

# Rhan 1

## Mae cyfrifoldebau cyrff cyhoeddus am ddiogelwch cymunedol yn gorgyffwrdd, sy’n creu rhwystrau o ran cyflenwi’n effeithiol



1.1 Mae arweinyddiaeth dda a chlir yn hanfodol er mwyn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid. Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn ystyried gwahanol gyfrifoldebau a swyddogaethau'r partneriaid a pha mor effeithiol yw'r cyrff amrywiol wrth weithio gyda'i gilydd ar ddiogelwch cymunedol. Rydym hefyd yn archwilio arweinyddiaeth a chyfrifoldebau am gyflenwi. Yn olaf, rydym yn ystyried canfyddiadau ein harolwg dinasyddion er mwyn mesur eu hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o bwy sy'n atebol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, a pha mor dda y mae'r trefniadau cyfredol hyn yn gweithio yn eu barn nhw.

## Mae'r cyfrifoldebau cymhleth am ddiogelwch cymunedol yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus roi arweiniad a chyfeiriad clir a chyson

1.2 Mae deddfwriaeth a chanllawiau'n hyrwyddo mai gweithio mewn partneriaeth yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â phroblemau cymunedau anniogel. Mae gweithio mewn partneriaeth a chael arweinyddiaeth effeithiol yn cyflwyno buddion di-ri a gall partneriaethau fod yn offer pwerus ar gyfer trechu problemau polisi a phroblemau gweithredol y mae asiantaethau lleol yn eu hwynebu:

- mae partneriaethau'n well nag asiantaethau unigol wrth nodi a diffinio'r problemau sy'n peri'r pryder mwyaf i'r gymuned a gallant ddefnyddio gwybodaeth ehangach i flaenoriaethu'r pethau cywir i weithredu arnynt;
- gall partneriaethau ddatblygu camau gweithredu mwy dyfeisgar wedi'u targedu trwy ddod â grŵp amrywiol o asiantaethau ynghyd sydd â gwahanol gyfrifoldebau, sgiliau a dulliau gweithio;
- gall partneriaeth effeithiol ddarparu eglurder o ran arweinyddiaeth a diben er mwyn gweithredu a chyflenwi mewn modd cydgysylltiedig;
- fel arfer, mae gweithredu ar y cyd yn fwy effeithiol nag ymyrraeth gan un asiantaeth, a gallai gael mwy o effaith;
- mae partneriaethau'n caniatáu i adnoddau gael eu huno a'u halinio er mwyn canolbwyntio'n fwy effeithiol ar fynd i'r afael â phroblemau cyffredin; ac
- mae ymyriadau lluosog yn debygol o gael yr effaith fwyaf ar fater.

1.3 Mae gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau diogelwch cymunedol yn ddull sydd wedi'i hen sefydlu ac sydd wedi'i hyrwyddo mor bell yn ôl â Chylchlythyrau[7] gan y Swyddfa Gartref o'r 1960au ymlaen. Ers y 1990au, mae polisïau cenedlaethol olynol gan y llywodraeth wedi rhoi mwy a mwy o bwyslais ar gael asiantaethau i weithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â diogelwch cymunedol, gan gynnwys y canllawiau mwyaf diweddar ar droseddau difrifol a chyfundrefnol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013[8].

7 Y Swyddfa Gartref, **Report of the committee on the Prevention and Detection of crime (Pwyllgor Cernyw)**, 1965.
8 Y Swyddfa Gartref, **Serious and Organised Crime Strategy**, Hydref 2013.

1.4 Gan fod y cyfrifoldeb am ddiogelwch cymunedol wedi'i rannu gan amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus, a'i fframio gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar faterion wedi'u datganoli a blaenoriaethau Llywodraeth y DU ar faterion heb eu datganoli, gall sicrhau arweinyddiaeth o ran diogelwch cymunedol fod yn heriol. Gall arddull ac ymagwedd y ddwy Lywodraeth ddylanwadu ar sut y mae sefydliadau rhanbarthol a lleol yn gweithredu ac yn gweithio, yn arbennig o ran gweithgarwch wedi'i ddatganoli a heb ei ddatganoli, sy'n gallu ei gwneud gweithio mewn partneriaeth yn anodd i rai cyrff cyhoeddus.

1.5 Caiff hwn ei gymhlethu ymhellach gan y gwahanol flaenoriaethau sydd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar gyfer mynd i'r afael â diogelwch cymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar flaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y **Rhaglen Lywodraethu**, yn hytrach nag ar ddiogelwch cymunedol fel maes gweithgarwch ar wahân, sy'n caniatáu i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ganolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Er enghraifft, y gwaith diweddar sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru ar gam-drin domestig, sy'n cynnwys:

- cyflwyno deddfwriaeth newydd trwy Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ('Deddf 2015')[9];
- penodi cynghorwr cenedlaethol i weithio gyda chyrff cyhoeddus a dioddefwyr i hybu gwelliannau yn y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio, eu comisiynu a'u cyflenwi;
- creu fframwaith hyfforddi cenedlaethol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi Deddf 2015[10];
- creu Grŵp Cynghori sy'n denu aelodau o amrywiaeth o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol er mwyn cynghori a llywio gwaith Llywodraeth Cymru yn y maes hwn; a
- chyllid wedi'i neilltuo i gynorthwyo cyrff cyhoeddus i roi'r ddeddfwriaeth newydd ar waith.

1.6 Fodd bynnag, mae'r newid hwn mewn pwyslais yn golygu bod diogelwch cymunedol yn dod yn faes gweithgarwch llai perthnasol, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol. A chan bod y Swyddfa Gartref yn canolbwyntio'n bennaf ar gryfhau swyddogaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a gaiff eu hyrwyddo fel y rheini sy'n gyfrifol am gydgysylltu a goruchwylio'r gwaith o gyflenwi diogelwch cymunedol ar lefel yr heddlu, mae gwaith awdurdodau lleol o gydgysylltu trwy bartneriaethau diogelwch cymunedol yn lleihau.

1.7 Trwy ein harolygon, canfuwyd mai dim ond 59 y cant o'r aelodau hynny o'r partneriaethau diogelwch cymunedol a ymatebodd i'n harolwg sy'n credu bod Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth weladwy ac effeithiol ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae'r canlyniad yn is na'r ymatebion ar gyfer eu Comisiynydd Heddlu a Throseddu, lle yr oedd 66 y cant yn credu y ceir

9 Llywodraeth Cymru, **Tudalen we Trais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig**
10 Llywodraeth Cymru, **Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: Canllawiau statudol o dan adran 15 o Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 ac adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006**, Ionawr 2016.

arweinyddiaeth effeithiol, ac yn is o lawer na'r 94 y cant a oedd yn credu mai eu partneriaeth diogelwch cymunedol lleol oedd yn darparu'r arweinyddiaeth fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, roedd 27.5 y cant o'r rheini a ymatebodd i'r arolwg yn cydnabod nad oedd gan eu partneriaeth diogelwch cymunedol broffil uchel a bod angen gwneud mwy i hyrwyddo ei weithgarwch.

1.8 Un o'r rhwystrau mwyaf i gyflawni gwell diogelwch cymunedol yw'r cysylltiad cymhleth rhwng yr amryw asiantaethau, a natur ddatgymalog y cyfrifoldebau a'r arweinyddiaeth o ran diogelwch cymunedol, fel yr amlygwyd yn yr ymatebion i'n harolwg. Nododd un sylwebydd bod 'yr agenda ar gyfer diogelwch cymunedol yn cael ei osod gan yr awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu… mae'n gymhleth ac yn anodd ei reoli'n effeithiol.' Nododd eraill y bydd 'meysydd o ddyblygu'n parhau a gallai hyn achosi dryswch parthed atebolrwydd cynradd [mae] risg y bydd mwy o fwlch yn datblygu rhwng uchelgais a'r gallu i gyflenwi'; a nododd un arall fod 'yr arweinyddiaeth gan bob asiantaeth i gyflawni pethau yn dda, ond mae llawer o hyn o ganlyniad i'r unigolion sydd â chysylltiadau gwaith hirsefydlog. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn dod â'r holl beth ynghyd, ond rwy'n credu y byddai llawer ohono'n digwydd ta beth. Mae tensiwn yn bodoli rhwng y partneriaethau diogelwch cymunedol a swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac ni allaf gynnig unrhyw sylwadau ar ei pherthynas â Llywodraeth Cymru.'

1.9 Mae'r graddau y mae'r llywodraeth, awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni diogelwch cymunedol yn hanfodol i welliant ac nid yw'n amhosibl goresgyn unrhyw broblemau pan geir gweledigaeth a rennir a pharodrwydd clir i newid. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae cymhlethdodau'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd am ddiogelwch cymunedol yn golygu nad yw asiantaethau yng Nghymru'n rhannu 'perchnogaeth' o ddiogelwch cymunedol ac mae'r arweinyddiaeth yn aml yn dameidiog gan ei bod yn anodd ei halinio.

1.10 Mae meithrin ffydd rhwng partneriaid yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant a gall arweinyddiaeth wael fod yn rhwystr i wella. Gan fod cymaint o asiantaethau yn gallu bod yn rhan o weithgarwch, mae risg hefyd y bydd yn aneglur pwy sy'n gyfrifol am arwain a blaenoriaethu camau gweithredu. Er mwyn gwneud yr ymyriadau cywir a gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau, mae'n rhaid i sefydliadau ymrwymo i weithio gyda'i gilydd a chael arweinyddiaeth glir ac effeithiol er mwyn goresgyn unrhyw anawsterau strwythurol.

1.11 Fodd bynnag, canfu ein gwaith maes nad yw trefniadau partneriaeth rhwng cyrff cyhoeddus yn gweithio'n effeithiol bob amser. Yn ogystal, amlygodd nifer o gydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol bryderon ynghylch y berthynas newidiol sy'n deillio o greu y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn ddiweddar a'r effaith y mae'r newidiadau strwythurol hyn yn ei chael ar bartneriaethau diogelwch cymunedol. Er enghraifft, mae'r pwyslais cynyddol ar ddatganoli cyfrifoldeb i'r rhanbarthau yn lleihau'r pwyslais ar faterion lleol. Mewn rhai achosion, roedd cyfleoedd i wella gwaith strategol yn cael eu colli, ac mae hyn, yn ei dro, yn lleihau'r cyfleoedd i wella gwasanaethau i'r cyhoedd.

## Mae rhai cyrff cyhoeddus o'r farn bod atal Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan wedi llesteirio cydweithio a lleihau cyfleoedd i hyrwyddo ffyrdd newydd o weithio

1.12 Ym mis Hydref 2012, sefydlodd Llywodraeth Cymru y Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ei hamcanion strategol. Y bwriad oedd i'r Bwrdd fod yr unig grŵp strategol Cymru Gyfan a'i ddiben oedd gweithio mewn partneriaeth i gefnogi'r gwaith o fodloni ymrwymiadau'r **Rhaglen Lywodraethu** mewn cysylltiad â diogelwch cymunedol.

1.13 Sefydlwyd y Bwrdd yn lle'r Fforwm Diogelwch Cymunedol Cymru Gyfan blaenorol. Roedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod angen symud canolbwynt y Fforwm i flaenoriaethau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Symudwyd cadeiryddiaeth ac ysgrifenyddiaeth y Bwrdd newydd i Lywodraeth Cymru a chynhyrchwyd drafft o'i gylch gorchwyl. Wrth adolygu'r trefniadau hyn, teimlai Llywodraeth Cymru y dylai'r Bwrdd chwarae rhan fwy strategol ac y dylai un o'i amcanion allweddol gynnwys gallu aelodau i ryddhau materion sy'n atal neu'n arafu'r gwaith cyflenwi, ac roedd yn awyddus i ganolbwyntio gweithgarwch ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

1.14 Yn benodol, roedd y **Cylch Gorchwyl**[11] ar gyfer y Bwrdd yn nodi'r blaenoriaethau canlynol:

- gweithio gyda'ch gilydd i gefnogi'r gwaith o fodloni'r ymrwymiadau a amlinellwyd yn **y Rhaglen Lywodraethu** a galluogi iddynt gael eu cyflawni'n effeithiol;
- cynnal trosolwg strategol gan sicrhau bod y gwaith cyflawni'n cael ei gydgysylltu'n effeithiol, gyda chydweithrediad rhanbarthol priodol a, thrwy wneud hynny, bydd y grŵp yn ceisio dod o hyd i gyfleoedd i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgarwch sy'n cael ei gyflwyno;
- chwarae rhan allweddol wrth nodi a dymchwel rhwystrau sy'n atal neu'n bygwth arafu'r gwaith cyflenwi;
- dylanwadu ar gyfeiriad polisi a gweithrediad cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a thynnu sylw at faterion sy'n peri gofid;
- darparu diweddariadau/gweithgareddau polisi allweddol i aelodau eraill o'r grŵp;
- ystyried a thrafod materion diogelwch cymunedol ar sail strategol a chenedlaethol;
- cynorthwyo cydweithrediad yng Nghymru; a
- lledaenu arfer da.

11 Llywodraeth Cymru, **Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan, Cylch Gorchwyl Drafft**

1.15 Ar ôl ei sefyldu, cyfarfu'r Bwrdd deirgwaith rhwng mis Hydref 2012 a mis Mehefin 2013. Credai aelodau'r Bwrdd fod y Bwrdd yn dyblygu rhywfaint o waith cyfarfodydd eraill, megis Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Ym mis Awst 2013, cafodd aelodau wybod trwy lythyr y byddai'r grŵp yn cynnal cyfarfodydd arbennig o hyn ymlaen ar gyfer materion penodol pe bai aelod yn gwneud cais am hynny, ond ni chafwyd unrhyw geisiadau[12]. Mynegwyd pryderon gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, awdurdodau lleol a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu bod difa'r Bwrdd wedi creu gwactod o ran arweinyddiaeth ar ddiogelwch cymunedol yng Nghymru a bod absenoldeb grŵp cenedlaethol sy'n cynrychioli pob parti â buddiant yn llesteirio cyfleoedd i wella.

1.16 Mae partneriaid yn sylweddoli bod gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae yng nghyd-destun arweinyddiaeth a pholisïau sy'n cefnogi diogelwch cymunedol yng Nghymru. Ac eto, nid oes llawer o'r farn bod Llywodraeth Cymru yn hwyluso gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, nododd un o ymatebwyr yr arolwg fod Llywodraeth Cymru yn arwain yn dda ar feysydd fel 'Camddefnyddio Sylweddau, Cydlyniant Cymunedol, ond nid yw rhannau pwysig eraill o'r agenda mor eglur, megis ei harweiniad ar Droseddu (gan dderbyn yr agwedd ddatganoledig), Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac Atal Eithafiaeth. Mae rhanbarthiaeth ac arwahanrwydd gwahanol rannau'r Agenda Diogelwch Cymunedol (cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau, chaethwasiaeth ac ati) yn arwain at wanhau amlwg o ran arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd.'

1.17 Cydnabu partneriaid fod Llywodraeth Cymru yn darparu arweinyddiaeth glir mewn rhai meysydd polisi ac wedi datblygu strategaethau cryno a phriodol, yn ogystal â darparu adnoddau i'w gweithredu. Mae hyn yn gydnabyddiaeth o'r agenda newidiol ar gyfer diogelwch cymunedol sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio gweithgarwch ar y themâu a'r blaenoriaethau craidd sydd yn **y Rhaglen Lywodraethu** - er enghraifft, y trefniadau newydd ar gyfer diogelu a grëwyd dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015[13] – yn hytrach na chanolbwyntio ar ddiogelwch cymunedol fel un cysyniad ar wahân. Fodd bynnag, mae rhai o'r rheini y siaradasom â nhw yn rhan o'n hadolygiad o'r farn bod difa'r Bwrdd Cynghori, a'r diffyg cyfeiriad ar weithgarwch y tu allan i'r **Rhaglen Lywodraethu**, yn wendid, yn arbennig oherwydd bod cyfrifoldebau am ddiogelwch cymunedol wedi'u rhannu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

12 Llywodraeth Cymru, **Cofnodion Bwrdd Cynghori ar Ddiogelwch Cymunedol Cymru Gyfan**, 30 Hydref 2012.
13 Llywodraeth Cymru, **Tudalen we Diogelu**

## Mae'r trefniadau i gyflenwi diogelwch cymunedol yn gymhleth, wedi newid dros amser ac nid ydynt bob amser yn gydgysylltiedig, ac mae hyn wedi creu anawsterau wrth geisio gweithio mewn partneriaeth

1.18 Canfu ein hadolygiad fod rhai rhwystrau strwythurol pwysig i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Rydym eisoes wedi nodi ar dudalen 5, paragraff 5 uchod y gall gwahanu cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref o ran penderfyniadau polisi a throsolwg o gyrff cyhoeddus rhanbarthol a lleol achosi rhywfaint o ddryswch. Mae'r diffyg alinio rhwng ffiniau gwasanaeth y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dwysáu'r broblem o ran y gwahaniad hwn yn y cyfrifoldebau.

1.19 Mae Ffigur 2 isod yn gosod y ffiniau ar gyfer y prif gyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am gyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol a'i wella, ac yn amlygu bod y ffiniau rhwng asiantaethau yn cael effaith sylweddol ar hwylustod neu gymhlethdod perthnasol gweithio mewn partneriaeth.

1.20 Gan nad yw cyrff cyhoeddus yn rhannu'r un ffiniau daearyddol bob amser, gall trefniadau partneriaeth fod yn gymhleth, a rhai sefydliadau'n gorfod dyblygu gweithgarwch trwy wasanaethu fforymau amrywiol o fewn gwahanol drefniadau llywodraethu a phenderfynu. Mae'r gwahaniaethau daearyddol hyn yn ychwanegu at ddarlun sydd eisoes yn gymhleth a gall roi pwysau ar adnoddau sydd eisoes yn brin wrth i staff orfod mynd i cyfarfodydd a phwyllgorau lluosog. Er enghraifft, er i 96 y cant o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg o aelodau partneriaethau diogelwch cymunedol nodi eu bod yn gweithio'n dda gyda'u hawdurdod tân ac achub lleol, dim ond 70.5 y cant a oedd o'r farn eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru a dim ond 76.5 a oedd o'r farn eu bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'r byrddau iechyd.

1.21 Gall y gwahanol aliniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth lesteirio cydweithio. Er enghraifft, mae'r cyrff partneriaeth ar gyfer diogelwch cymunedol ar gyfer Heddlu De Cymru yn cynnwys dau awdurdod tân ac achub, pedwar bwrdd iechyd a saith awdurdod lleol. Yn yr un modd, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys chwe phartneriaeth diogelwch cymunedol, tri bwrdd iechyd a dau heddlu. I'r gwrthwyneb, mae'r gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru yn gweithredu ar yr un ffin ddaearyddol â'r gwasanaethau heddlu, y gwasanaethau tân ac achub a'r gwasanaethau iechyd, sy'n rhannu'r un ffiniau â'r chwe awdurdod lleol sy'n rhan o ogledd Cymru. Mae gwahanol ffiniau daearyddol a diffyg cydamseru yn rhwystro atebolrwydd, y broses o wneud penderfyniadau a chyllidebu.

Ffigur 2 – Ffiniau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus allweddol a diogelwch cymunedol yng Nghymru

<table>
<tr><th colspan="3">Llywodraeth Cymru</th><th>Y Swyddfa Gartref</th><th>Cael eu cwmpasu gan Lywodraeth Cymru a’r Swyddfa Gartref</th></tr>
<tr><th>Cyrff GIG Cymru Gyfan</th><th>Cyrff GIG Rhanbarthol</th><th>Awdurdodau Tân ac Achub</th><th>Heddlu</th><th>Awdurdodau Lleol</th></tr>
<tr><td rowspan="8">Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru</td><td>Betsi Cadwaladr</td><td>Tân ac Achub Gogledd Cymru</td><td>Heddlu Gogledd Cymru</td><td>Conwy<br>Sir Ddinbych<br>Sir y Fflint<br>Gwynedd<br>Ynys Môn<br>Wrecsam</td></tr>
<tr><td>Aneurin Bevan</td><td rowspan="4">Tân ac Achub De Cymru</td><td>Heddlu Gwent</td><td>Blaenau Gwent<br>Caerffili<br>Sir Fynwy<br>Casnewydd<br>Torfaen</td></tr>
<tr><td>Prifysgol Caerdydd a’r Fro</td><td rowspan="4">Heddlu De Cymru</td><td>Caerdydd<br>Bro Morgannwg</td></tr>
<tr><td>Cwm Taf</td><td>Merthyr Tudful<br>Rhondda Cynon Taf</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Abertawe Bro Morgannwg</td><td>Pen-y-bont ar Ogwr</td></tr>
<tr><td rowspan="3">Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru</td><td>Castell-nedd Port Talbot<br>Abertawe</td></tr>
<tr><td>Hywel Dda</td><td rowspan="2">Dyfed Powys</td><td>Sir Gaerfyrddin<br>Ceredigion<br>Sir Benfro</td></tr>
<tr><td>Addysgu Powys</td><td>Powys</td></tr>
</table>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.22 Codwyd pryderon penodol gan rai o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ynghylch cysondeb presenoldeb yn y partneriaethau, sy'n golygu mai'r cyngor a'r heddlu sy'n ymwneud yn bennaf â rhai partneriaethau ar lefel strategol. Mae partneriaethau sy'n gweithredu â chanolbwynt mor gyfyngedig mewn perygl o ganolbwyntio gormod ar feysydd gweithgarwch cul, a nododd un o'r rhai y cyfwelwyd â hwy fod 'partneriaethau diogelwch cymunedol wedi gwajnhau ac nid oes unrhyw un wedi mynd ati o ddifrif i atal hyn rhag digwydd'. Os na fydd digon o bartneriaid yn ymwneud â fforymau lleol, yna gallai'r partneriaid ganolbwyntio ar y materion gwasanaeth brys a chael darlun llai cyflawn o bwy sy'n defnyddio gwasanaethau a safbwyntiau cymunedau lleol. Ar ben arall y sbectrwm, mae gan rai partneriaethau gynrychiolwyr o amrywiaeth eang o sefydliadau, ond mae cyfyngiadau ariannol yn dechrau lleihau gallu rhai partneriaethau i gynnal seilwaith mawr.

## Gallai'r dulliau sy'n cael eu datblygu o fynd ati i weithio'n rhanbarthol fynd i'r afael â'r gwendidau cyfredol, ond araf yw'r cynnydd ac mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod y trefniadau atebolrwydd yn addas at eu diben

1.23 Pan fydd partneriaethau'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â phroblemau cyffredin ac wedi'u halinio'n effeithiol, gallant wneud gwahaniaeth cadarnhaol. Er enghraifft, mae Uned Lleihau Niwed Wrecsam yn gynllun peilot gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae'r Uned yn cynnwys staff o Heddlu Gogledd Cymru a gwasanaethau amrywiol yr awdurdod lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd o dan yr un to i fynd i'r afael â materion o fewn cymunedau a chymdogaethau. Mae calendr o ddigwyddiadau a rennir yn helpu i gydgysylltu gweithgareddau'r partneriaid, ac mae rhannu TGCh ar-lein yn helpu i storio gwybodaeth fel y gall pob partner gael gafael ar wybodaeth, ychwanegu at yr wybodaeth honno a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol. Mae'r fenter wedi meithrin dulliau mwy rhagweithiol o weithio yn lle ymateb i faterion, sef yr hyn a oedd yn digwydd o dan y trefniadau blaenorol. Y gwir fantais yw cael tîm amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd o dan yr un to, sy'n arbed amser ac sy'n ei gwneud yn haws i wneud penderfyniadau cyflymach.

1.24 Yn yr un modd, menter yw Prosiect 20 Uchaf Sir Ddinbych sy'n nodi'r bobl y byddai gweithio mewn partneriaeth gwell yn eu helpu i fod mor annibynnol a chydnerth â phosibl ac felly'n lleihau mynediad heb ei gynllunio at wasanaethau. Tarddodd y fenter o **Gynllun Llesiant**[14] Cyngor Sir Dinbych a menter datrys problemau yw hon lle y mae partneriaid, megis yr Heddlu, yr awdurdod lleol, tân ac achub, y gwasanaeth iechyd a'r gwasanaeth ambiwlans, yn cwrdd i drafod a rhannu gwybodaeth am nifer o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus yn gyson ac yn aml. Mae'n bosibl nad oes gan y defnyddwyr gwasanaethau cyson hyn unrhyw broblemau difrifol na materion sy'n peri gofid, ond maent yn mynnu gwasanaethau neu'n tynnu sylw at eu hunain yn rheolaidd, boed hynny mewn cysylltiad â throseddu neu faterion eraill. Mae bod â gwahanol bartneriaid yn bresennol yn caniatáu i wahanol syniadau a datrysiadau gael eu cyflwyno ac mae'r fenter wedi llwyddo i sicrhau canlyniadau cadarnhaol gyda rhai unigolion.

14 Bwrdd Gwasanaeth Lleol Conwy a Sir Ddinbych, **Cefnogi Annibyniaeth a Gwydnwch: Cynllun Lles Sir Ddinbych 2014-2018.**

1.25 Yn Ffigur 3 rydym wedi amlygu Pwynt Cymorth Abertawe, sy'n cael effaith gadarnhaol yng nghanol y ddinas ac yn darparu gwerth am arian. Mae mentrau tebyg wedi'u darparu gan Ganolfan Driniaeth Alcohol Caerdydd yng Nghaerdydd, a'r Ganolfan Triniaeth a Lles Alcohol yn Wrecsam. Nodir manylion y dulliau gweithio hyn, sy'n arddel arferion da, yn Atodiad 4.

**Ffigur 3 – Pwynt Cymorth Abertawe**

Mae pobl Abertawe yn fwy diogel o ganlyniad i'r gwaith amlasiantaeth effeithiol yn y Pwynt Cymorth yng nghanol y ddinas. Canolfan cymorth cyntaf symudol arbenigol yw Pwynt Cymorth Abertawe sydd wedi'i sefydlu yng nghanol y ddinas i helpu i leihau'r pwysau ar Wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys yn ystod adegau prysur. Caiff y Pwynt Cymorth ei staffio gan Ambiwlans Sant Ioan, Heddlu De Cymru, myfyrwyr gwirfoddol o'r brifysgol a gweinidogion y stryd. Mae hefyd yn lloches ac yn ganolfan wybodaeth.

Yn ystod 2014-15, llwyddodd y prosiect i helpu i leihau'r baich ar wasanaethau prysur yn ystod adegau prysur a chafodd 582 o gleifion eu trin - sef 55 o bobl yr ymosodwyd arnynt, 238 o unigolion wedi'u hanafu a 287 o unigolion a oedd yn agored i niwed. Dim ond 98 ohonynt yr oedd angen iddynt gael triniaeth bellach mewn Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys a chludwyd 37 i'r ysbyty gan Ambiwlans Sant Ioan. Amcangyfrifodd gwerthusiad yn 2014 y byddai 80 y cant (465) o bob derbyniad i'r Pwynt Cymorth wedi mynd ar unwaith i Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys pe na bai'r gwasanaeth yn bodoli.

Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn rhoi cyngor ar iechyd ac yn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n agored i niwed yn cychwyn am adref yn ddiogel. Mae hwn yn fater pwysig oherwydd mae diogelwch yng nghanol dinasoedd fin nos yn parhau i fod yn broblem yn genedlaethol, ac mae'n flaenoriaeth allweddol yng nghynlluniau Abertawe Mwy Diogel sy'n ffurfio rhan o Gynllun Cyflawni Sengl Abertawe. Yn ogystal â hyn, mae'r Cyngor yn buddsoddi er mwyn adfywio canol y dref. Mae sicrhau bod pobl yn ddiogel fin nos yn denu mwy o fusnesau i mewn i ganol y ddinas.

1.26 Edrychir hefyd ar gyfleoedd i gydweithio ar raddfa fwy o faint ledled Cymru. Caiff cydweithio ei drafod yn rheolaidd gan Grŵp Plismona Cymru Gyfan ac mae'r pedwar heddlu yng Nghymru wrthi'n ystyried meysydd lle y gallent gydweithio'n effeithiol. Mae asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar lefel ranbarthol (yn hytrach na lleol) wedi gwneud rhywfaint o ymdrech i oresgyn y rhwystrau hyn. Yn benodol, canfuwyd bod enw da'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer darparu arweinyddiaeth ar ranbartholi diogelwch cymunedol yn tyfu, ond ymddengys bod eu safle'n cael eu llywio i raddau gan eu gallu i ddefnyddio'u cyllid i ddylanwadu ar yr agenda leol.

1.27 Mae Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru yn gorff galluogi sy'n cynorthwyo â gwaith partneriaethau diogelwch cymunedol unigol y rhanbarth ledled Gogledd Cymru. Diben y Bwrdd, a sefydlwyd yn 2012, yw datblygu dull cyson o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol ledled y rhanbarth. Mae'r Bwrdd yn cynnwys y sefydliadau cyhoeddus hynny sy'n gorfod gweithio gyda'i gilydd yn ôl y gyfraith i fynd i'r afael â throseddu ac anhrefn, ac mae'r rhain yn cynnwys y chwe awdurdod lleol, Heddlu Gogledd Cymru, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Bwrdd Iechyd, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Prawf, y Sector Gwirfoddol, y Cwmni Adsefydlu Cymunedol a Llywodraeth Cymru. Nod Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru yw darparu cyfeiriad strategol ar gyfer cyflawni swyddogaethau Diogelwch Cymunedol a Chyfiawnder Ieuenctid ledled y rhanbarth. O ganlyniad, mae Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru wedi sicrhau bod llai o ddyblygu rhwng trefniadau rhanbarthol a lleol ar feysydd blaenoriaethol allweddol.

1.28 Yn yr un modd, ar ddechrau 2015, sefydlodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent grŵp Gwent mwy Diogel. Prif ddiben grŵp Gwent Mwy Diogel yw cydgysylltu gwaith â phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol yn rhanbarthol er mwyn darparu cyfeiriad strategol a dull gweithio strwythuredig ar draws pum ardal awdurdod lleol Gwent. Daw'r aelodau o'r pum awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, y sector gwirfoddol, gwasanaethau troseddau ieuenctid a'r gwasanaethau prawf ac adsefydlu. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn galluogi gwybodaeth i gael ei rhannu er mwyn:

- hwyluso gweithio mewn partneriaeth gwell;
- dylanwadu ar gyfleoedd ariannu presennol i gefnogi blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddu y Comisiynydd;
- mapio'r gwasanaethau diogelwch cymunedol presennol er mwyn nodi ymhle y ceir dyblygu a bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir; a
- darparu gwybodaeth i gefnogi'r gwaith o gomisiynu gwasanaethau diogelwch cymunedol.

1.29 Un o'r prif fanteision o gael partneriaid i weithio'n rhanbarthol yw y gellir alinio sefydliadau'n well, er mwyn iddynt allu bod yn fwy ymatebol i anghenion dinasyddion na'u partneriaid cyfansoddol. Fodd bynnag, yn nhermau cyfreithiol, gwleidyddol ac ariannol, os na chaiff endidau rhanbarthol eu creu a'u rheoli'n effeithiol, gall hyn hefyd arwain at fwy o heriau:

- Er bod cyrff rhanbarthol yn gallu denu aelodau o bartneriaethau diogelwch cymunedol yr awdurdod lleol, ni allant gyflawni swyddogaeth statudol y partneriaethau, gan gynnwys eu hatebolrwydd a'u gwaith adrodd, sydd wedi'i sefydlu o fewn fframwaith llywodraethu sefydledig yr awdurdod lleol. Gallai'r swyddogaeth gael ei hailgreu gan nodau ac amcanion unrhyw grŵp rhanbarthol, ond byddai'n rhaid ei rheoli'n ofalus er mwyn osgoi dyblygu gweithgarwch.

- Mae'r gofyniad i gynnal partneriaethau lleol statudol ac i wasanaethu endidau rhanbarthol mwy o faint yn gallu ymestyn adnoddau sydd eisoes yn brin ymhellach a rhaid cwestiynu a yw'r modd hwn o weithio yn gynaliadwy.
- Mae rhanbartholi trefniadau yn codi pryderon eraill posibl, megis cyfarfodydd cyhoeddus ac adrodd cyhoeddus. Mae'n bosibl nad yw cyrff rhanbarthol mor dryloyw â fframweithiau gweithredol a chraffu yr awdurdodau lleol ac, yn aml, nid yw eu hatebolrwydd mor glir ag atebolrwydd eu haelodau unigol, sy'n codi cwestiynau pwysig ynghylch llywodraethu ac atebolrwydd y partneriaethau hyn.
- Ar lefel ymarferol, mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn swyddogaethau cymharol newydd. Mae'n rhaid iddynt ymsefydlu a sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu yn gweithio'n effeithiol a bod eu cyfrifoldebau yn cael eu deall yn glir. Gallai fod yn ormod, felly, i ddisgwyl i Gomisiynwyr greu eu seilwaith llywodraethu eu hunain ac ymrwymo amser ac adnoddau i ddatblygu modelau rhanbarthol eraill yn ogystal â hyn.
- Gall newid trefniadau'n barhaus darfu ar y berthnasoedd, yn enwedig pan fod diffyg strwythur ffurfiol, llinellau atebolrwydd clir a swyddogaethau y cytunwyd arnynt. Gall newid strwythurol fod yn wrthdyniad digroeso a gall danseilio cynnydd.

1.30 Mynegwyd pryder hefyd gan rai aelodau o bartneriaethau diogelwch cymunedol a gwblhaodd ein harolwg ynghylch dylanwad y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Nododd un bod 'y berthynas rhwng y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn gallu bod yn anodd, ac rwy'n credu mai'r rheswm dros hyn yw'r newidiadau i'r trefniadau cyllido pan ddaeth y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i fodolaeth a sut mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi cyfleu'r negeseuon hynny i bartneriaid y partneriaethau diogelwch cymunedol ……. Rwy'n credu bod rhai aelodau o'r partneriaethau diogelwch cymunedol wedi ei chael hi'n anodd derbyn y newidiadau hyn a chyda newidiadau eraill i ddod yn y dyfodol, maent wedi gweld y rhain fel bygythiadau'. Amlinellodd unigolyn arall bryder bod 'ein partneriaeth diogelwch cymunedol leol wedi wynebu llawer o aflonyddwch ers i'r bartneriaeth diogelwch cymunedol ranbarthol gael ei sefydlu' a dywedodd un arall 'nid y bartneriaeth ddiogelwch cymunedol yw'r broblem, ond y diffyg llwyr o ymgysylltiad â'r partneriaid a'r cyhoedd... gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu.'

1.31 Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyswllt rhwng Cymru a San Steffan ar bob un o feysydd cyfrifoldeb y Swyddfa Gartref drwy ei thîm Swyddfa Gartref yng Nghymru. Nid yw tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru wedi rhoi sylwadau ffurfiol ar y cam i ddiddymu partneriaethau diogelwch cymunedol mewn rhai ardaloedd a symud y cyfrifoldeb dros ddiogelwch cymunedol i fyrddau gwasanaethau lleol (Byrddau'r Gwasanaethau Cyhoeddus bellach) na'r cam i gyflwyno trefniadau rhanbarthol. Mae tîm y Swyddfa Gartref yng Nghymru o'r farn bod strwythurau wedi datblygu i fformatau newydd sy'n fwy priodol ac addas, ond, oherwydd eu gallu cyfyngedig, nid ydynt yn ymgysylltu â phartneriaid diogelwch cymunedol unigol yn uniongyrchol ac felly nid ydynt yn gallu rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd y newidiadau hyn.

1.32 Mynegwyd pryderon gan nifer o’r cyfweleion am effeithiolrwydd Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO[15]), y corff cenedlaethol ar gyfer swyddogion diogelwch cymunedol awdurdodau lleol. Teimlai partneriaid gan fwyaf nad yw WACSO yn effeithiol o ran hybu newid a chefnogi gwelliant a gwnaeth nifer gwestiynu gwerth WACSO ar ei ffurf gyfredol, yn enwedig o ystyried y twf mewn gweithio rhanbarthol ac effaith llai o adnoddau. Caiff swyddogaeth WACSO, a diogelwch cymunedol fel un o feysydd gweithgarwch awdurdodu lleol, ei dylanwadu hefyd gan y newidiadau strwythurol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a’r gwahanol ddulliau sydd wedi’u datblygu ar gyfer gosod blaenoriaethau a darparu adnoddau ar eu cyfer. O ganlyniad, caiff diogelwch cymunedol ei ystyried yn llai perthnasol bellach fel maes gweithgarwch craidd ac mae’n cael ei ddisodli gan drefniadau newydd yng Nghymru sy’n canolbwyntio ar faterion â blaenoriaethau unigol - er enghraifft, camddefnyddio sylweddau. Mae’r newid pwyslais hwn yn golygu bod cyrff cyhoeddus yn canolbwyntio ar weithio ar y blaenoriaethau unigol hyn a’u gwella yn hytrach na dull blaenorol y partneriaethau diogelwch cymunedol o gydgysylltu a goruchwylio’r gweithgarwch mewn meysydd amrywiol.

1.33 Fodd bynnag, cydnabu llawer o’r rheiny y siaradasom â nhw bod corff cenedlaethol sy’n dod â’r holl chwaraewyr allweddol ynghyd – awdurdodau lleol, comisiynwyr heddlu a throseddu, heddluoedd, awdurdodau tân ac achub, cyrff iechyd a Llywodraeth Cymru – yn hanfodol, a bod gan WACSO y potensial i chwarae rhan bwysig o fewn fframwaith cenedlaethol. Fodd bynnag, yn absenoldeb corff cenedlaethol o’r fath a’r tueddiad cynyddol i weithio’n rhanbarthol, mae dylanwad WACSO yn lleihau.

15 Mae WACSO yn cynnwys y prif swyddogion diogelwch cymunedol ar draws 20 o bartneriaethau diogelwch cymunedol yng Nghymru.

## Nid yw'r dinasyddion hynny a ymatebodd i'n harolwg yn sicr pwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

1.34 Nid yw'r mwyafrif o'r dinasyddion a ymatebodd i'n harolwg yn sicr pwy sy'n atebol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru[16]. Dim ond 41 y cant o'r dinasyddion a gwblhaodd ein harolwg cyhoeddus a oedd yn cytuno bod cyfrifoldebau dros arwain y gwaith o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn eu hardal yn cael eu rhannu rhwng Llywodraeth Cymru, y Prif Gwnstabl, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol. Credai bron i 20 y cant ohonynt mai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn unig oedd yn gyfrifol am arwain y gwaith o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol yn eu hardal. Credai 14 y cant arall mai eu partneriaeth diogelwch cymunedol leol oedd yn gyfrifol a chredai 11 y cant mai eu hawdurdod lleol oedd yn gyfrifol. Dim ond 3.6 y cant a oedd yn credu mai Llywodraeth Cymru yn unig sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru. Canfuwyd hefyd o'r ymatebion a gafwyd i'n harolwg cyhoeddus mai ychydig iawn o ymwybyddiaeth oedd gan ddinasyddion o bwy sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru.

1.35 O ran effeithiolrwydd cyrff unigol, ystyrir mai'r heddlu, a'r prif gwnstabl yn benodol, yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth arwain ar ddiogelwch cymunedol yn eu hardal. Nododd ein harolwg cyhoeddus bod 43.8 y cant o ddinasyddion yn cytuno mai eu heddlu lleol oedd yn darparu arweinyddiaeth glir ac effeithiol ar ddiogelwch cymunedol yn eu hardal, yn wahanol i'r 19.1 y cant a'r 23.8 y cant o ddinasyddion a oedd yn credu bod Llywodraeth Cymru a'u Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn y drefn honno yn darparu arweinyddiaeth glir ac effeithiol. Mae canfyddiadau ein harolwg dinasyddion yn amlygu cymhlethdodau'r trefniadau a'r atebolrwydd ar gyfer y gwaith ar ddiogelwch cymunedol. Gan fod y cyfrifoldebau wedi'u rhannu, ac nad oes gan yr un corff unigol gyfrifoldeb cyffredinol, gall fod yn anodd i ddinasyddion weld yn glir pwy sy'n arwain ar faterion diogelwch cymunedol penodol a phwy sy'n ymdrin â'r rhain yn eu hardaloedd.

16 Cafodd yr arolwg ei gyflwyno ar-lein a'i hyrwyddo trwy ein tîm cyfathrebiadau. Nid yw'r dull a ddefnyddiwyd yn sicrhau ymateb cynrychioliadol o reidrwydd. Er enghraifft, cafwyd mwy o ymatebion gan Ogledd Cymru nag ardaloedd eraill ac ni chafwyd yr un ymateb gan rai ardaloedd awdurdod lleol. Gan ystyried y cyfyngiadau hyn, rydym wedi defnyddio'r arolwg at ddibenion enghreifftiol yn unig ac i adrodd safbwyntiau ar lefel Gymru gyfan.

Sylwadau dinasyddion ar eu hymwybyddiaeth o bwy sy’n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol

Nid wyf yn clywed am unrhyw syniadau diogelwch cymunedol/beth sydd ar y gweill ac ati.

Pwy sy’n gyfrifol?

Rwy’n sylweddoli bod adroddiadau a chynlluniau a chyrff diogelwch yn bodoli nad oeddwn hyd yn oed yn gwybod amdanynt, felly mae’r gwaith o gyfathrebu â’r cyhoedd yn ddiffygiol dros ben ac yn amlwg yn wael. Rwy’n gweithio i Awdurdod Lleol ac nid oeddwn yn gwybod bod y seilwaith hwn yn bodoli…..

Y cwbl rwy’n ei ddweud yw bod angen i’r cyhoedd wybod mwy am y gwaith hwn a sut i gymryd rhan.

Nid oes llawer o ymwybyddiaeth am yr ymgynghori a’r ymgysylltu sy’n cael ei wneud gan bartïon diogelwch cymunedol i gyflenwi cynlluniau a strategaethau ar gyfer diogelwch cymunedol. Os nad yw’r cyhoedd yn ymwybodol o’r polisïau hyn, yna ni allwn gynnig unrhyw sylwadau.

Mae’n bosibl iawn bod gweithgareddau diogelwch yn cael eu cynnal yn ein hardal, ond nid wyf yn credu bod y cyhoedd yn cael gwybod amdanynt.

Ychydig iawn yr wyf i’n ei wybod am Ddiogelwch Cymunedol yn fy ardal i. Efallai y byddai cyhoeddusrwydd mwy eang yn fuddiol.

Mae’n rhaid bod pwy bynnag sy’n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol yn anweladwy oherwydd nid wyf i wedi’i weld nac wedi clywed ganddo.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg cyhoeddus i ddinasyddion, mis Tachwedd 2015.

Rhan 2

Mae blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn amrywio'n fawr ac nid ydynt wedi'u halinio. Ychydig iawn o dystiolaeth a welir o ymgysylltu â'r cyhoedd fel sylfaen i lunio'r cynlluniau



2.1 Yn y rhan gyntaf o'r adroddiad hwn, amlygwyd rhai o'r anawsterau wrth weithio mewn partneriaeth y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus cenedlaethol, rhanbarthol a lleol eu goresgyn. Er mwyn i bartneriaethau fod yn effeithiol, mae'n bwysig bod strategaethau a chynlluniau ar gyfer diogelwch cymunedol yn canolbwyntio ar y pethau cywir ac yn cael eu halinio i gefnogi'r gwaith cyflenwi. Mae angen i bartneriaid wybod yn union beth y maent yn gobeithio ei gyflawni a pham fod y cyraeddiadau hyn yn bwysig i bobl leol. Yn y rhan hon o'r adroddiad, trafodir y strategaethau a chynlluniau diogelwch cymunedol amrywiol sydd ar waith. Darperir beirniadaeth o'r fframwaith cyfredol a pha mor dda y mae'r gweithgarwch wedi'i alinio.

## Mae cadernid cynlluniau diogelwch cymunedol yn amrywio'n fawr ac mae'r diffyg alinio rhwng blaenoriaethau Cymru, blaenoriaethau'r DU, blaenoriaethau rhanbarthol a blaenoriaethau dinasyddion yn tanseilio'r cyfleoedd i wella a gweithio mewn partneriaeth

2.2 Mae nifer o wahanol sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn effeithio ar y canlyniadau diogelwch cymunedol cyffredinol ar lefel y boblogaeth. Mae'r gwahanol ddulliau a chyfrifoldebau ar gyfer diogelwch cymunedol a nodwyd yn Rhan 1 hefyd yn cael eu hadlewyrchu yng nghymhlethdodau'r fframwaith cynllunio, wtrh i wahanol gyrff cyhoeddus ddefnyddio gwahanol ddulliau gweithio. Mae Ffigur 4 yn crynhoi'r asiantaethau a'r amrywiaeth gyfredol o gynlluniau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru.

2.3 Ar hyn o bryd, **Strategaeth Troseddau Difrifol a Chtyfundrefnol** mis Hydref 2013 a **Strategaeth Atal Troseddu Fodern 2016** sy'n nodi sut bydd y Swyddfa Gartref yn atal pobl rhag bod yn rhan o droseddau difrifol a chyfundrefnol a sut y bydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynd i'r afael â throseddau yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Strategaethau yn cynnig nifer o gynigion o ran gweithio mewn partneriaeth; yn arbennig, maent yn rhoi gofyniad ar yr Heddlu a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu unigol i gael eu henwi yn brif gyrff sy'n gyfrifol am droseddau a diogelwch mewn ardal, gan nodi y bydd 'dull soffistigedig a modern yn gofyn am gamau gweithredu cydgysylltiedig ar sawl lefel'[17] er mwyn mynd i'r afael â throseddu.

2.4 Fodd bynnag, nid yw'r strategaethau yn ystyried y materion datganoli penodol ac nid ydynt yn cydnabod mai Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lawer o feysydd gweithgarwch sy'n hanfodol i fynd i'r afael â throseddu a gwella diogelwch cymunedol. A, chan nad yw'r strategaethau yn ystyried materion sy'n benodol i Gymru a'u bod yn cael eu datblygu'n aml heb fod Llywodraeth y DU yn ymgysylltu ryw lawer â Llywodraeth Cymru, nid yw'r strategaethau a gynhyrchir gan y Swyddfa Gartref yn cydnabod, yn alinio nac yn ceisio dylanwadu ar waith Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn hynod berthnasol pan ystyrir bod **y Rhaglen Lywodraethu** wedi'i chyflwyno cyn i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gael eu hethol a chyn i'r strategaethau a nodir uchod gael eu cyflwyno gan y Swyddfa Gartref.

17 Y Swyddfa Gartref, **A Modern Crime Prevention Strategy**, Mawrth 2016, Tudalen 7.

Ffigur 4 – Y cyrff cyfrifol a'r cynlluniau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru




2.5 Cafodd y **Rhaglen Lywodraethu** ei chyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn 2011 ac mae'n ymwneud â thymor Cynulliad Cenedlaethol Cymru hyd at fis Mai 2016. Mae gan y Rhaglen 12 thema bolisi sy'n flaenoriaeth, a Thema 7 yw 'Cymunedau mwy diogel i bawb'. Nod Llywodraeth Cymru dan Thema 7 yw gwneud ein cymunedau yn fwy diogel trwy leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu (gan gynnwys ofn troseddau), camddefnyddio sylweddau ac achosion ac effaith tanau yn ogystal â chydgysylltu argyfyngau yn effeithiol.

2.6 Er bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r camau a nodir i gyflawni'r **Rhaglen Lywodraethu** yn flaenoriaethau ar gyfer gwella diogelwch cymunedol, nid yw'r camau gyfystyr â strategaeth Cymru Gyfan i fynd i'r afael â materion diogelwch cymunedol gan nad yw llawer o'r maes polisi wedi'i ddatganoli. Mae'r **Rhaglen Lywodraethu** yn canolbwyntio'n bennaf ar waith Llywodraeth Cymru, yr ymrwymiadau ariannu a gyflwynwyd yn ei maniffesto etholiadol a'r syniadau deddfwriaethol a gynlluniwyd ar gyfer tymor y Cynulliad Cenedlaethol yn y meysydd cyfrifoldeb sydd wedi'u datganoli.

2.7 Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod bod diogelwch cymunedol yn faes polisi cymhleth, wrth i nifer o wahanol sefydliadau weithio gyda'i gilydd i effeithio ar ganlyniadau cyffredinol y boblogaeth, ac mae ei lwyddiant yn dibynnu'n fawr ar benderfyniadau polisi Llywodraeth y DU ar gyfiawnder troseddol a phlismona. Er mwyn bod yn llwyddiannus felly, mae angen i lunwyr polisïau gydweithio'n effeithiol er mwyn darparu gwasanaethau wedi'u datganoli a heb eu datganoli[18].

2.8 Gan fod cyfrifoldebau ar gyfer diogelwch cymunedol wedi'u rhannu rhwng llawer o wahanol gyrff cyhoeddus, canfuwyd nad yw cynlluniau wedi'u halinio yn aml ac mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithredu'n annibynnol ar ei gilydd o ran cynllunio. Er enghraifft, nid yw'r **Rhaglen Lywodraethu** yn adlewyrchu penderfyniad Llywodraeth y DU i greu Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn 2011. Yn yr un modd, nid yw'r Swyddfa Gartref yn ystyried gofynion penodol Cymru na gwaith Llywodraeth Cymru ar feysydd wedi'u datganoli wrth ddatblygu ei chynlluniau a'i strategaethau.

2.9 Er bod y **Rhaglen Lywodraethu** yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru yn glir, nid yw'n darparu map ar gyfer gwella diogelwch cymunedol gan nodi gwaith a chyfraniad awdurdodau lleol, partneriaethau diogelwch cymunedol neu gyrff cyhoeddus eraill. Yn ogystal, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu unrhyw ganllawiau sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch cymunedol i'w meysydd cyfrifoldeb – awdurdodau tân ac achub, awdurdodau lleol a byrddau iechyd – y tu allan i'w **Rhaglen Lywodraethu** na strategaethau penodol mewn meysydd gweithgarwch penodol, gan gynnwys Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar y cyd, Strategaeth Lleihau Aildroseddu Cymru a'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) a ddaeth i rym yn 2015.

2.10 Nid oes unrhyw gytundeb rhwng y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru ar y blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru ar hyn o bryd. Heb weledigaeth gytunedig ar gyfer diogelwch cymunedol, gall gweithgareddau a thargedau amrywio'n fawr ac nid ydynt wedi'u hintegreiddio. Mae gweithgarwch heb ei gydgysylltu hefyd yn golygu bod blaenoriaethau yn cael eu rheoli gan safbwyntiau gwasanaethau, yn hytrach nau bod yn seiliedig ar ganlyniadau y mae dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau am eu gweld. Gyda'i gilydd, mae'r rhain wedi arwain at ddiffyg cytundeb ac, wedi hyn, ddiffyg ymrwymiad gan bartneriaid ar beth sydd angen digwydd ac maent yn rhwystr i gyflawni gwelliannau.

2.11 Aethom ati i adolygu'r dogfennau strategol cyfredol ar gyfer diogelwch cymunedol[19] ar gyfer Llywodraeth Cymru, y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r 20 partneriaeth diogelwch cymunedol[20]. Er bod amrywiaeth eang o asiantaethau'n cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol, Llywodraeth Cymru sy'n bennaf gyfrifol am osod blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru ar lefel genedlaethol; y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar lefel ranbarthol, a'r awdurdodau lleol ar lefel leol. Cafodd eu blaenoriaethau eu grwpio yn ôl y themâu mwyaf cyffredin yn eu cynlluniau. Dyma'r themâu:

18 Cafodd Thema 7 y Rhaglen Lywodraethu: Cymunedau mwy diogel i bawb ei chyhoeddi dan Lywodraeth Cymru 2011-2016.
19 Er bod amrywiaeth eang o gyrff cyhoeddus yn gallu cyfrannu at wella diogelwch cymunedol, Llywodraeth Cymru, y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am asesu anghenion strategol, cynllunio a gosod blaenoriaethau i wella diogelwch cymunedol yng Nghymru.
20 Mae'r 20 o bartneriaethau diogelwch cymunedol yn cynnwys pob awdurdod lleol, ac eithrio'r trefniadau ar y cyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn a Chonwy a Sir Ddinbych.

- Troseddu ac anhrefn, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol, dioddefwyr troseddau
- Lleihau troseddau/ofn troseddau, gan gynnwys troseddau meddiangar
- Camddefnyddio sylweddau
- Trais/cam-drin domestig
- Cymunedau cydlynus, gan gynnwys mynd i'r afael â therfysgaeth
- Diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion
- Diogelwch mewn cymunedau (tanau, ffyrdd)
- Mynd i'r afael ag aildroseddu
- Troseddau ieuenctid
- Cydnerthedd cymunedol (cynllunio at argyfwng)

2.12 Mae gan bob un o'r cyrff y pŵer i osod ei flaenoriaethau ei hun, ond nid oeddem yn gallu nodi'r un maes blaenoriaeth yr oedd pob asiantaeth wedi'i gynnwys yn eu blaenoriaethau. Rydym yn cydnabod bod canolbwyntio ar anghenion lleol allweddol yn ymateb priodol i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael â'r materion sy'n bwysig i'r gymuned leol. Yn ogystal, ni fydd rhai awdurdodau yn cynnwys blaenoriaethau penodol oherwydd eu hamgylchiadau daearyddol (ni fydd awdurdodau yn cynnwys gwaith ar erydu arfordirol os nad oes ganddynt arfordir morol). Serch hynny, mae Ffigur 5 yn crynhoi ein gwerthusiad o'r aliniad rhwng cynlluniau a gwelir nad oes yr un maes lle y mae pob cynllun diogelwch cymunedol wedi ymrwymo i'r un blaenoriaethau. Er enghraifft, nid yw dau o'r partneriaethau diogelwch cymunedol sy'n cynnwys pedwar awdurdod yn cynnwys trais domestig fel maes blaenoriaeth, er gwaethaf ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru a'r adnoddau y mae wedi'u rhoi i asiantaethau i fynd i'r afael â thrais domestig. Yn yr un modd, nid oes gan chwe phartneriaeth diogelwch cymunedol bwyslais blaenoriaethol ar gamddefnyddio sylweddau.

2.13 Er bod penderfyniad lleol yn hanfodol i allu ymateb i anghenion penodol o fewn cymunedau lleol, mae'r diffyg alinio ac absenoldeb fframwaith cenedlaethol, gyda phob corff yn tynnu i'r un cyfeiriad wedi creu perygl o gamau gweithredu heb eu cydgysylltu ac, mewn rhai achosion, dim camau gweithredu o gwbl gan bartneriaid allweddol. Mae'r diffyg alinio rhwng cynlluniau a blaenoriaethau'n golygu bod perygl y bydd y gwaith o gyflawni canlyniadau poblogaeth cyffredinol Llywodraeth Cymru yn cael ei danseilio gan nad yw partneriaethau diogelwch cymunedol yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth cenedlaethol hyn.

Ffigur 5 – Mae'r aliniad rhwng blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, y comisiynwyr heddlu a throseddu a'r awdurdodau lleol ar gyfer diogelwch cymunedol yn amrywio'n fawr

| Maes blaenoriaeth | Maes blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru[21] | Nifer y comisiynwyr heddlu a throseddu sydd â'r maes blaenoriaeth | Nifer yr awdurdodau lleol sydd â'r maes blaenoriaeth |
|---|---|---|---|
| Lleihau troseddu/ ofn troseddau (gan gynnwys troseddau meddiangar) | Ydy | Pedwar allan o bedwar | 18 allan o 22 |
| Troseddu ac anhrefn, gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a dioddefwyr troseddwyr | Ydy | Pedwar allan o bedwar | 17 allan o 22 |
| Trais/cam-drin domestig | Ydy | Pedwar allan o bedwar | 18 allan o 22 |
| Camddefnyddio sylweddau | Ydy | Un allan o bedwar | 14 allan o 22 |
| Mynd i'r afael ag aildroseddu | Ydy | Pedwar allan o bedwar | Naw allan o 22 |
| Diogelwch mewn cymunedau (tanau, ffyrdd ac ati) | Ydy | Dau allan o bedwar | Wyth allan o 22 |
| Cymunedau cydlynus, gan gynnwys troseddau casineb a mynd i'r afael â therfysgaeth | Ydy | Dim un | Wyth allan o 22 |
| Diogelu ac amddiffyn plant ac oedolion | Ydy | Tri allan o bedwar | Pump allan o 22 |
| Troseddau ieuenctid | Ydy | Pedwar allan o bedwar | Tri allan o 22 |
| Cydnerthedd cymunedol (cynllunio at argyfwng ac ati) | Ydy | Un allan o bedwar | Dim un |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Adolygiad o'r blaenoriaethau sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Lywodraethu; mewn Cynlluniau Heddlu a Throseddu; ac mewn Cynlluniau Integredig Sengl.

21 Rydym wedi adolygu'r blaenoriaethau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu 2011-2016 dan Thema 7: Cymunedau mwy diogel i bawb. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar droseddau casineb yn cael ei gynnwys dan Thema 8: Cydraddoldeb. Nid yw hwn yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at fynd i'r afael â therfysgaeth. Caiff Diogelu ei gynnwys dan Thema 5: Cefnogi Cymunedau.

## Yn gyffredinol, mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i bennu eu blaenoriaethau o ran gweithredu, ond mae'r dull o weithio a ddefnyddir yn amrywio ac nid yw bob amser yn gadarn

2.14 Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cyhoeddi Cynlluniau Heddlu a Throseddu ar gyfer eu hardaloedd[22]. Mae tri o'r pedwar Comisiynydd wedi cyhoeddi diwygiadau blynyddol o'u cynlluniau gwreiddiol. Mae'r cynlluniau diwygiedig hynny wedi nodi blaenoriaethau newydd ac yn rhoi pwyslais clir ar y camau gweithredu yn yr ardaloedd heddlu. Canfu ein hadolygiad o'r cynlluniau bod y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata'r heddlu a chudd-wybodaeth am y materion sy'n effeithio ar faterion diogelwch cymunedol wrth lunio'u cynlluniau. Nododd yr holl Gomisiynwyr eu bod yn ymateb i farn y cyhoedd wrth bennu eu blaenoriaethau, a phwysleisiodd Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys mai ei flaenoriaethau ef oedd y rhai y cafodd ei ethol arnynt, ac nad ydynt wedi'u llywio gan ddata yn unig. Mae'r tri Chomisiynydd Heddlu a Throseddu sydd wedi diweddaru eu cynlluniau hefyd wedi ymgynghori â'r cyhoedd, yn ogystal â'u paneli heddlu a throseddu, ar y diwygiadau hynny.

2.15 Mae ansawdd a chynnwys y cynlluniau'n amrywio'n fawr. Mae gan ddau o'r pedwar comisiynydd (De Cymru a Dyfed Powys) gynlluniau eang iawn sy'n cynnwys meysydd blaenoriaeth eang iawn. Mae gan Gomisiynydd De Cymru gynllun cyflenwi hefyd sy'n nodi sut y bydd y blaenoriaethau'n cael eu cyflawni. Mae'r camau gweithredu o fewn cynlluniau a strategaethau'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi'u cysylltu'n dda ag anghenion lleol a'r cyd-destun lleol, ond gallai'r manylion ar sut y byddant yn eu gweithredu, ynghyd â sut y byddant yn mesur llwyddiant pob cam gweithredu, fod yn fwy eglur. Er enghraifft, mae gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys flaenoriaeth o'r enw 'gwell mynediad at wasanaethau'r heddlu', ond ar wahân i nodi'r angen am fynediad gwell at ddata, nid yw'n eglur beth y mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n gobeithio ei ennill o'r camau gweithredu. Pan na fydd gan flaenoriaethau ddangosyddion cadarn a sefydledig i'w cefnogi a bod problem datblygu data yn bodoli, yna dylai'r cynlluniau nodi sut y bydd y gwendidau hyn yn cael eu datrys. Mae angen i Gynllun Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys nodi'r effaith gadarnhaol ar ddinasyddion er mwyn helpu pobl i ddeall beth y gallant ei ddisgwyl a sut y gallant gadw'n ddiogel.

2.16 Mae cynlluniau a rhaglenni gwaith blynyddol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn darparu cyfeiriad cyffredinol ar gyfer eu gwaith a'u heddluoedd. Fodd bynnag, er yr ymddengys bod cryn bwyslais ar y cysyniad o weithio mewn partneriaeth, ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o ymgysylltu effeithiol â phartneriaid ehangach, er enghraifft, awdurdodau lleol, i helpu i gyflawni blaenoriaethau diogelwch cymunedol. Mae llawer o'r cynlluniau diogelwch cymunedol nad ydynt wedi'u hintegreiddio i gynlluniau lleihau troseddau o fewn ardaloedd heddlu, ac mae hyn yn arwain at ddarlun dryslyd o flaenoriaethau gyda'r perygl

22 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011

o ddyblygu gweithgarwch neu gael gweithgarwch sy'n gorgyffwrdd, fel y gwelir yng nghanfyddiadau ein harolygon gyda chydgysylltwyr diogelwch cymunedol ac aelodau o gyrff partneriaeth. Nododd un ymatebwr fod 'strategaethau'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn cael eu gosod gan un unigolyn sy'n rhoi mewnbwn gwleidyddol yn hytrach na mewnbwn proffesiynol yn unig. Mae'r strategaethau Diogelwch Cymunedol yn ymateb i anghenion lleol gan ystyried disgwyliadau Llywodraeth Cymru, ac yn aml iawn, gall y materion hyn gyd-fynd â rhai y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, er y gallai eu hymatebion allweddol fod yn wahanol.'

## Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi mabwysiadu blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol, ond nid yw'r rhain wedi'u cyflwyno'n glir bob amser

2.17 Yn 2012, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Cydamcanu – Cydymdrechu**, sef canllawiau statudol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ar integreiddio partneriaethau a chynlluniau[23]. Nododd y canllawiau hynny y dylai awdurdodau lleol ddatblygu Cynlluniau Integredig Sengl yn lle'r nifer fawr o gynlluniau ar wahân, er enghraifft, y cynllun Plant a Phobl Ifanc a'r Cynllun Diogelwch Cymunedol. O ganlyniad i'r penderfyniad hwn, mae pob un o'r 22 awdurdod lleol ond un yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol yn eu cynlluniau integredig sengl.

2.18 Nododd deunaw o'r 20 o gydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol a ymatebodd i'n harolwg fod eu strategaethau'n cynnwys blaenoriaethau priodol. Nododd un nad oedd ei gynllun yn gwneud hyn ac nid atebodd cydgysylltydd arall. Canfu ein hadolygiad o gynlluniau awdurdodau bod 18 o awdurdodau lleol yn cynnwys blaenoriaethau clir, a bod 12 o'r 16 o awdurdodau lleol a ddarparodd dystiolaeth yn dangos sut yr oeddent yn pennu blaenoriaethau yn defnyddio amrywiaeth dda o ddata perthnasol i nodi'r blaenoriaethau hyn a chytuno arnynt.

2.19 Fodd bynnag, nododd ein hadolygiad fod ansawdd a chynnwys y mesurau a osodir yn amrywio'n fawr o ran ansawdd. Nid yw nifer bychan o awdurdodau yn nodi'n glir sut y byddant yn cyflawni eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol, nid yw'r targedau yn rai CAMPUS[24] ac nid yw'r rheini sy'n gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu wedi eu nodi'n glir. Yn ogystal, mae gan ormod o bartneriaethau diogelwch cymunedol nifer uchel o flaenoriaethau, ac mae gormod o'r blaenoriaethau hyn nad ydynt yn alinio'n dda â rhai y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a chyrff diogelwch cymunedol eraill. Er enghraifft, mae gan Geredigion mwy Diogel saith blaenoriaeth, er bod y rhain wedi'u lleihau o naw. Nid yw'r partneriaethau diogelwch cymunedol yn blaenoriaethu'n effeithiol ac mae angen i'r blaenoriaethau fod yn fwy clir. Pan na fydd gan gynlluniau fesurau llwyddo clir, mae'n anodd cyflawni gwelliannau ac arfarnu'r canlyniadau. Caiff y gwendidau hyn eu gwneud yn waeth gan gapasiti cyfyngedig a chyllid tymor byr.

23 Gwefan Llywodraeth Cymru, **Cydamcanu – Cydymdrechu**
24 Targedau cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflenwi neu gyflawni blaenoriaethau.

2.20 Gall fod yn heriol cyflawni amrywiaeth eang o flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried bod capasiti timau diogelwch cymunedol awdurdodau lleol wedi lleihau. Mae nifer bychan o bartneriaethau diogelwch cymunedol wedi gostwng nifer y blaenoriaethau sydd ganddynt er mwyn ystyried y gostyngiad yn y gyllideb, er enghraifft, mae Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru wedi nodi ei bedair blaenoriaeth ranbarthol ac mae'n disgwyl y bydd partneriaethau diogelwch cymunedol hefyd yn mynd i'r afael â'r rhain yn ogystal â gosod eu blaenoriaethau eu hunain.

2.21 Yn yr un modd, mae Abertawe mwy Diogel wedi mabwysiadu blaenoriaethau mwy clir, ac mae mesurau llwyddiant bellach ar waith, fel y gwelir yn y diweddariad o Gynllun **Un Abertawe**[25] yn 2015. Er bod yr 14 blaenoriaeth wreiddiol a oedd gan bartneriaeth diogelwch cymunedol Abertawe yn ystod 2011 yn parhau i fod yn bwysig, maent wedi cael pwyslais newydd a bellach yn cynnwys 'economi mwy diogel yn ystod y nos' a 'cham-drin domestig'. Mae'r rhain yn rhoi mwy o sylw i broblemau sy'n anodd mynd i'r afael â nhw, ac maent yn adlewyrchu pwyslais Byrddau Gwasanaethau Lleol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bellach) ar ddatblygu economaidd a chreu swyddi. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn sylweddoli bod angen iddi wneud mwy i sicrhau bod ei chynlluniau gwaith a'i gwariant yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau hyn, ond mae cynllun o ansawdd gwell yn hanfodol i gyfeirio adnoddau cyfyngedig i'r meysydd hynny sy'n anos eu datrys ac sy'n achosi'r pryder mwyaf i'r cyhoedd.

2.22 Ar y llaw arall, fodd bynnag, roedd rhai o'r cyfweleion yn credu bod cynnwys y cynllun diogelwch cymunedol yn y Cynlluniau Integredig Sengl yn gwanhau'r pwyslais ar ddiogelwch cymunedol ar lefel yr awdurdod lleol a'i fod wedi arwain at golli gweithgarwch allweddol. Mewn rhai ardaloedd, megis Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae peidio â gorfod cynhyrchu cynllun diogelwch cymunedol ar wahân wedi rhyddhau adnoddau i gefnogi'r bartneriaeth, sydd wedi'u hailgyfeirio er mwyn gweithredu a rheoli camau gweithredu diogelwch cymunedol. Yn ogystal, pan mae gan bartneriaethau diogelwch cymunedol arweinyddiaeth gref ac aelodau ymgysylltiedig, mae'r bartneriaeth wedi gallu cynnal proffil uchel, canfod materion diogelwch cymunedol a gweithio arnynt ac wedi dylanwadu ar waith ei Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r cynllun integredig sengl.

25 Dinas a Sir Abertawe, **Cynllun Un Abertawe**, 2015.

## Mae'r mwyafrif o awdurdodau lleol yn gweithredu dull a arweinir gan wybodaeth o fynd i'r afael â diogelwch cymunedol ac wedi defnyddio data perthnasol i nodi blaenoriaethau lleol, ond nid yw hanner y partneriaethau diogelwch cymunedol yn diweddaru eu hasesiadau strategol yn rheolaidd, sy'n groes i ganllawiau'r Swyddfa Gartref

2.23 Nodwyd bod nifer o bartneriaethau diogelwch cymunedol lleol wedi diweddaru eu cynlluniau i adlewyrchu'r newidiadau mewn deddfwriaeth, er enghraifft, y sbardunau cymunedol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol dan **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**[26] yn ogystal â chyflwyno'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Er bod 18 o gydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol lleol wedi nodi bod y blaenoriaethau diogelwch cymunedol yn eu cynlluniau yn seiliedig ar dystiolaeth dda, daeth ein hadolygiad o gynlluniau i'r casgliad mai dim ond naw o'r 20 o bartneriaethau a ddarparodd dystiolaeth eu bod yn diweddaru eu hasesiadau strategol yn rheolaidd ac ni wnaeth 11 ohonynt wneud hynny. O'r naw a ddarparodd dystiolaeth, canfuwyd bod chwech ohonynt wedi seilio eu hasesiadau ar amrywiaeth eang o ddata priodol ac wedi defnyddio'r wybodaeth i nodi a chanolbwyntio ar flaenoriaethau sy'n adlewyrchu amgylchiadau lleol.

2.24 Ar yr ochr gadarnhaol, roedd y mwyafrif o awdurdodau lleol yn defnyddio data o'r heddluoedd lleol gyda nifer llai yn defnyddio'r setiau data sydd ar gael gan wasanaethau awdurdod lleol perthnasol, er enghraifft, y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Gwnaeth rhai awdurdodau lleol hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan wasanaethau yn y sector gwirfoddol a chan bartneriaid eraill i sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried. Er enghraifft, llwyddodd proses flaenoriaethu Abertawe mwy Diogel i osgoi dyblygu adolygiadau eraill trwy uno ag Asesiad Anghenion Strategol blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae Abertawe mwy Diogel yn defnyddio amrywiaeth o wybodaeth, gan gynnwys data mwy lleol ar lefel y gymdogaeth, a gwybodaeth gan fusnesau, ysgolion, elusennau a'r brifysgol. Mae Cynllun diweddaraf **Un Abertawe** yn rhestru cyfres o 'heriau posibl yn y dyfodol' a gaiff eu hasesu o ran risg a'u hadlewyrchu yn y broses flaenoriaethu.

2.25 Mae partneriaeth diogelwch cymunedol Ceredigion yn gwneud defnydd da o ddata ar droseddu yn ei hasesiad a'i hadolygiad strategol blynyddol er mwyn cynllunio gwaith y bartneriaeth yn y dyfodol. Mae gan y bartneriaeth diogelwch cymunedol brotocolau rhannu data cadarn ar waith ac mae wedi adolygu a diweddaru ei pholisïau a'i gweithdrefnau rhannu gwybodaeth yn ddiweddar. Mae'n gweithio'n agos â dadansoddwyr data'r heddlu ac yn croeswirio pethau megis meini prawf adrodd a chofnodi. Fodd bynnag, gallai gwaith partneriaeth diogelwch cymunedol Ceredigion gael ei gryfhau trwy brosesau gwerthuso gwell o fewn y bartneriaeth neu drwy ddefnyddio canfyddiadau rhaglenni cenedlaethol megis menter y Faner Borffor[27]. Serch hyn, rydym wedi amlygu bod y dull asesu strategol blynyddol yn enghraifft o  arfer da – Ffigur 6.

26 gov.uk, **Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014**
27 Sefydlwyd cynllun y Faner Borffor er mwyn gosod safonau cenedlaethol a chodi delwedd canol trefi Prydain fin nos. Cynllun achredu yw'r Faner Borffor sy'n cydnabod rhagoriaeth mewn rheoli canol trefi a dinasoedd fin nos. Ei nod yw codi safonau a gwella ansawdd trefi a dinasoedd trwy gynnwys pob agwedd ar reoli'r economi gyda'r hwyr a min nos mewn fframwaith cynhwysfawr i bartneriaethau lleol ymdrechu i'w ddilyn. Caiff y Faner Borffor ei chefnogi gan y Swyddfa Gartref, Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu a Chydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol.

**Ffigur 6 – Mae partneriaeth diogelwch cymunedol Ceredigion yn cynnal asesiad o anghenion cynhwysfawr bob blwyddyn**

Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ceredigion yn cynnal gwerthusiad ac asesiad blynyddol o anghenion effeithiol fel modd o dargedu adnoddau sy'n lleihau yn effeithiol ac i ddeall effaith ymdrechion ar y cyd yn llwyr.

Mae'r asesiad strategol blynyddol yn cynnwys adolygiad manwl iawn o ddata perfformiad, ystadegau troseddu, ymgynghoriadau ac adborth cymunedol, cudd-wybodaeth ad-hoc, gwybodaeth ariannol, ac adolygiad o unrhyw fygythiadau a thueddiadau newydd a materion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn casglu ac yn gwerthuso data yn gyson ac nid yw'n ei ystyried yn rhywbeth sy'n digwydd unwaith y flwyddyn yn unig. Caiff gwybodaeth briodol ei rhannu rhwng partneriaid yn unol â'i phrotocolau rhannu gwybodaeth. Mae'r canlyniadau'n cael eu casglu, eu hadolygu a'u hadrodd ac mae hyn yn arwain at gynllun diogelwch cymunedol lefel uchel newydd a gaiff ei integreiddio i brosesau cynllunio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Integredig Sengl y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a Chyhoeddus. O ganlyniad, ceir mwy o werthfawrogiad o'r anghenion mewn meysydd eraill megis tai, plant a phobl ifanc ac iechyd.

Ceir trosolwg o weithgareddau diweddaraf y bartneriaeth diogelwch cymunedol a'r cynnydd y mae wedi'i gyflawni ar-lein. Ynghyd â chofnodion cyfarfodydd y bartneriaeth diogelwch cymunedol, mae'n hawdd gweld sut y mae cynlluniau gweithredu wedi'u datblygu a'r hyn sy'n cael ei ddysgu. Er enghraifft, mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn ymgysylltu â grŵp ehangach o bartneriaid sy'n canolbwyntio ar yr economi fin nos yn Aberystwyth lle y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn bryder mawr i'r cyhoedd. Trwy weithio gyda'r brifysgol a busnesau lleol, cafwyd gostynguiad o 12 y cant mewn troseddau treisgar a throseddau sy'n ymwneud ag alcohol yn ystod 2014-15, ac mae'r myfyrwyr a'r cyhoedd yn teimlo'n fwy diogel gyda'r nos.

2.26 Fodd bynnag, mae nifer o gydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol yn nodi bod rhai anawsterau'n bodoli o ran cael gafael ar wybodaeth a thystiolaeth gan bartneriaid, a dod â'r wybodaeth honno ynghyd, i gefnogi gwaith cynllunio a blaenoriaethu. Er enghraifft, nododd un ymatebwr 'ei bod hi'n anodd cael mesurau perfformiad da ar gyfer rhai meysydd'. Er gwaethaf yr anawsterau hyn, mae 17 o'r 20 o gydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol yn credu bod aelodau o'u Partneriaethau'n darparu gwybodaeth sy'n cefnogi'r gwaith cynllunio. Yn ogystal, nododd 16 o'r 20 o gydgysylltwyr fod aelodau eu Partneriaethau'n cynorthwyo'r broses o gynhyrchu cynlluniau/strategaethau ar gyfer diogelwch cymunedol yn eu hardal.

2.27 Mewn nifer bychan o awdurdodau, canfuwyd hefyd bod y data a gyflwynir mewn dogfennau asesiadau o anghenion yn adlewyrchu'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yn y pen draw yn unig. Cafodd y mwyafrif o'r data a gafodd ei gynnwys yn yr asesiadau gwreiddiol o anghenion ei gyflwyno ar lefel awdurdod lleol llawn a defnyddiodd nifer bychan o awdurdodau lleol ddata lefel ward i nodi eu blaenoriaethau, er enghraifft, dadansoddodd Caerdydd rai dangosyddion ar lefel ward er mwyn nodi 'mannau sy'n broblemau' yn lleol.

2.28 Nododd llawer o gydgysylltwyr wrth ateb bod adnoddau yn brin o fewn y bartneriaeth (e.e. swyddogion o'r awdurdod lleol yn cefnogi'r bartneriaeth) a bod hyn yn effeithio ar ansawdd, amlder a lefel y dadansoddi mewn asesiadau o anghenion a diweddariadau strategol. Roedd llawer o bartneriaethau diogelwch cymunedol yn credu bod gwaith dadansoddwr yr heddlu yn hanfodol, ac mewn rhai ardaloedd mae'r heddlu yn darparu asesiadau strategol rhanbarthol a chyrff rhanbarthol eraill. Er enghraifft, mae Bwrdd Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru, bellach yn arwain y gweithgarwch, yn bennaf oherwydd y lleihad yng ngallu awdurdodau lleol i wneud y gwaith. Ymatebodd dau gydgysylltydd i'r arolwg gan nodi bod y cysylltiad â'u dadansoddwyr heddlu yn wael ac yn effeithio ar eu gallu i gael gafael ar ddata gan yr heddlu ar gyfer eu gwaith. Nododd un eu bod wedi 'cael cryn drafferth yn ddiweddar gyda diffyg data gan ddadansoddwyr yr heddlu ar ffurf yr asesiad cymunedol blynyddol'.

2.29 Mewn ardaloedd eraill lle y mae'r cysylltiadau'n dda, a lle y mae partneriaid eraill hefyd yn cyfrannu at y broses o gael gafael ar ddata a'i ddarparu, mae gwaith arloesol ar y gweill o ran rhannu a datblygu setiau data newydd. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, mae uwch-arolygydd o Heddlu De Cymru yn cadeirio grŵp o ymarferwyr a dadansoddwyr (sy'n ymestyn y tu hwnt i aelodaeth y bartneriaeth diogelwch cymunedol) i gysylltu'r data rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus bellach) a'r bartneriaeth diogelwch cymunedol. Gall y grŵp adnabod ac ymateb i batrymau newidiol mewn troseddau a thramgwyddau, ac mae'n edrych ar yr effeithiau sy'n eu achosi yn hytrach na symptomau yn unig. Mae hefyd yn datblygu setiau data newydd i lenwi'r bylchau a diwallu'r anghenion a ganfyddir mewn meysydd penodol, megis unigolyn coll - er enghraifft, gwnaeth rhannu data mewnol yr heddlu â data'r awdurdod lleol ganiatáu i'r grŵp adnabod a thargedu'r unigolion hynny a oedd mewn perygl mwyaf o fynd ar goll, ac mae hyn yn caniatáu i asiantaethau reoli'r perygl yn well - ac adnabod mannau sy'n adnabyddus am ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy rannu data tai cymdeithasol ar nifer y tenantiaid sy'n gorfod symud oherwydd problemau trais.

## Ychydig iawn o dystiolaeth a welwyd o ymgysylltu'n effeithiol â dinasyddion a chymunedau lleol fel sylfaen i bennu blaenoriaethau

2.30 Mae polisi Llywodraeth Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, a chaiff ei ystyried yn eang yn agwedd hanfodol ar sicrhau bod pob un o sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn datblygu dull gweithio sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion wrth fynd ati i lunio a darparu eu polisïau, eu rhaglenni a'u gwasanaethau. Fodd bynnag, mae ymgynghori â phobl leol ar eu pryderon yn gallu bod yn anodd ac, yn aml, nid yw asiantaethau'n llwyr werthfawrogi natur yr her.

2.31 Dywedodd nifer o gydgysylltwyr ac aelodau o bartneriaethau diogelwch cymunedol fod y gost yn ffactor sy'n cyfyngu ar eu cynlluniau ymgynghori. Nododd un cydgysylltydd fod tyr holl weithgarwch ymgysylltu wedi'i atal yn ei ardal oherwydd y gost. Nododd ymatebwyr eraill i'r arolygon hyn broblemau o ran cynllunio gweithgarwch ymgynghori a oedd yn ymgysylltu'n effeithiol â grwpiau anodd eu cyrraedd neu weithgarwch a oedd yn sicrhau dosbarthiad teg o ymatebion a oedd yn cynnwys proffil cymdeithasol-economaidd ehangach ardal. Yn yr un modd, nid yw'n cael ei gyfleu yn glir sut y mae'r camau gweithredu'n cael eu llywio gan ymgynghoriadau, a sut y maent wedi'u hysbysu gan ddealltwriaeth well o anghenion cymunedol.

2.32 Nid yw ymgynghori â phobl leol wedi bod yn rhan nodweddiadol o'r broses o nodi blaenoriaethau diogelwch cymunedol. Trwy adolygu cynlluniau allweddol, daethom i'r casgliad mai dim ond chwech o'r 20 o bartneriaethau diogelwch cymunedol sydd â dulliau effeithiol o ymgynghori â'r cyhoedd ar ddiogelwch cymunedol. Roedd wyth awdurdod arall yn cynnal gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori, ond roedd ganddynt rai bylchau yn eu trefniadau. Roedd gan y chwe phartneriaeth arall wendidau yn y modd yr oeddent yn ymgysylltu â dinasyddion a'r modd yr oedd gwybodaeth a ddarparwyd gan ddinasyddion yn cael ei defnyddio - er enghraifft, peidio â gwneud unrhyw gyfeiriad at unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus yn rhan o'r asesiad o anghenion neu'r broses o osod blaenoriaethau neu ddibynnu ar ddata o hen arolygon i lywio'r gwaith o bennu blaenoriaethau - neu ni wnaethant ddarparu unrhyw dystiolaeth o'u gweithgarwch ymgynghori.

2.33 Mae partneriaethau diogelwch cymunedol megis Ceredigion mwy Diogel yn ymgysylltu'n eang â chymunedau, er bod problemau capasiti yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio ymlaen llaw ac elwa i'r eithaf ar bob cyfle. Nod Ceredigion mwy Diogel yw lleihau dyblygu a manteisio i'r eithaf ar ddigwyddiadau trwy gydgynllunio digwyddiadau a rhannu canlyniadau. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn cydweithio'n agos ag Uned Diogelwch Cymunedol ac Argyfyngau Sifil yr awdurdod lleol, Age Cymru Ceredigion, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, a Heddlu Dyfed-Powys. O ganlyniad, ceir gwell dealltwriaeth o anghenion lleol ar lefel y gymdogaeth, sy'n bwysig pan fydd adnoddau'n brin a bod angen eu targedu at y pethau pwysicaf.

2.34 Er gwaethaf gweithgarwch o'r fath, ychydig iawn o ymwybyddiaeth sydd gan ddinasyddion o hyd o'r blaenoriaethau lleol ar gyfer diogelwch cymunedol. Trwy ein harolwg cyhoeddus, canfuwyd bod 91 y cant o'r dinasyddion a ymatebodd i'r arolwg wedi nodi nad oeddent yn ymwybodol o sut yr oedd eu partneriaethau diogelwch cymunedol yn ymgynghori neu'n ymgysylltu â hwy wrth ddatblygu eu blaenoriaethau ar gyfer diogelwch cymunedol. Dim ond 23 y cant o'r rheini a ymatebodd i'n harolwg cyhoeddus a oedd yn gwybod sut a lle i fynd i gael gafael ar gynllun yr awdurdod lleol ar gyfer diogelwch cymunedol eu hardal a dim ond 18 y cant a oedd yn credu bod y cynllun yn adlewyrchu'r materion diogelwch cymunedol pwysicaf yn eu barn hwy. Dywedodd y mwyafrif helaeth o'r ymatebwyr – 83 y cant – nad oeddent yn ymwybodol o'r gweithgareddau ymgynghori/ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr ardal. Dim ond 18 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg a oedd yn cytuno bod eu partneriaeth diogelwch cymunedol yn rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni targedau a chamau gweithredu'r cynllun a nododd mwy na thraean nad oeddent yn gwybod. Mae'r rhain yn lefelau isel iawn o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth drwyddi draw sy'n amlygu bod ymgynghori ac ymgysylltu yn feysydd y mae angen gwneud mwy o waith arnynt.

2.35 Yn ogystal, nid yw cyrff cyhoeddus yn gweithio'n ddoeth ac yn defnyddio'u hadnoddau gwybodaeth cyfredol i ymgysylltu'n well â dinasyddion. Er enghraifft, mae gormod o wefannau partneriaethau diogelwch cymunedol nad ydynt yn adnoddau cymunedol rhyngweithiol. Ychydig iawn o wybodaeth sydd ar dudalennau Ceredigion mwy Diogel am ddiogelwch, neu gyfleusterau hunangymorth, nid oes unrhyw wybodaeth am berfformiad, ac nid oes unrhyw fath o adran lle y rhoddir cyfle i ddinasyddion 'Ddweud eich Barn'. Yn ogystal, nid oes unrhyw elfennau Twitter na ffrwd newyddion. O ganlyniad, mae'n anodd gweld sut y gall y cyhoedd gymryd cyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain, ac nid yw'n eglur sut y mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn perfformio, sy'n gyfle coll i ymgysylltu â phobl iau sy'n grŵp targed i lawer o bartneriaethau diogelwch cymunedol.

2.36 Canfuwyd enghreifftiau o arfer da wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ar ddiogelwch cymunedol yn ein hadolygiad, ac roedd y rhain yn cynnwys defnyddio arolygon mawr (paneli dinasyddion ac ati) i gasglu data am farn y cyhoedd ar ddiogelwch cymunedol a'u blaenoriaethau. Mewn rhai achosion, mae data ar gael ar lefel is, er enghraifft yng Nghaerdydd, lle y cynhelir gweithgarwch ymgynghori ar lefel y gymdogaeth. Mae gan Fwrdd Partneriaeth Caerdydd drefniant hefyd lle y mae pob partner yn rhannu data ymgynghori, a chaiff ymgynghoriadau eu cynllunio a'u cydgysylltu rhwng partneriaid er mwyn cael yr effaith a'r cynhyrchiant mwyaf posibl. Mae rhai ardaloedd yn defnyddio'u cyfarfodydd PACT[28] i ymgynghori â thrigolion.

28 Mae cyfarfodydd Heddlu a Chymunedau gyda'i Gilydd (PACT) yn agored i bawb ac yn rhoi'r cyfle i drigolion ddylanwadu ar beth sy'n digwydd o ran plismona a diogelwch cymunedol yn eu cymdogaethau.

2.37 Yn yr un modd, mae Wrecsam wedi datblygu canolbwynt ymgysylltu, sy'n llyfrgell ganolog â mynediad ar y tu blaen i'r cyhoedd a defnyddwyr cofrestredig, a rhyngwyneb ar gyfer aelodau o'r bwrdd gwasanaethau lleol a phartneriaid awdurdodedig. Gellir pori drwyddi i ddod o hyd i ymgynghoriadau a data, er mwyn helpu i osgoi dyblygu gwaith ac i ddarparu ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid. Mae ymgynghori hefyd yn gweithio'n dda pan fydd pwyslais ar farn pobl a pha mor ddiogel y maent yn ei deimlo, yn hytrach na chanolbwyntio ar gyfraddau troseddu yn unig i adnabod blaenoriaethau gwaith.

Rhan 3

## Er bod grantiau Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'n sylweddol, mae natur cymhleth a thymor byr y cyllid a'r gostyngiadau yng nghyllidebau rheoli diogelwch cymunedol yr heddlu a'r awdurdod lleol yn nhermau real yn effeithio ar ymdrechion i weithio mewn partneriaeth a sicrhau gwerth am arian



3.1 Yn y rhan hon o'r adroddiad, rydym yn archwilio'r newidiadau yn y cyllidebau ar gyfer gweithgarwch diogelwch cymunedol yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Rydym hefyd yn ystyried cymhlethdodau'r gwahanol drefniadau grant ac effaith y newidiadau o ran dyrannu a dyfarnu grantiau ar gyflenwi. Yn olaf, rydym yn crynhoi'r newidiadau diweddar yng nghyllidebau rheoli diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol a'r heddlu a sut y mae'r newidiadau hyn yn effeithio ar gynllunio a darparu gwasanaethau diogelwch cymunedol ar lawr gwlad.

## Mae'r grantiau sydd ar gael i ariannu gweithgareddau diogelwch cymunedol a'r defnydd a wneir ohonynt yn gymhleth ac yn newidiol, ond nid yw bob amser yn amlwg pa fuddion neu effaith gadarnhaol y mae'r grantiau yn eu cael

3.2 Daw'r cyllid ar gyfer gweithgareddau diogelwch cymunedol, yn enwedig ar lefel awdurdod lleol, o nifer o wahanol ffynonellau, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, gan adlewyrchu'r gwahanol swyddogaethau y mae pob corff yn gyfrifol amdanynt. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, gwelwyd newid sylweddol yn y ffordd y caiff gweithgarwch diogelwch cymunedol ei ariannu, gan bwy, ar gyfer beth a faint gaiff ei fuddsoddi. Nid yw'r cyllid bob amser yn gydgysylltiedig nac wedi'i alinio ac mae adnoddau'n cael eu hymestyn yn eang, sy'n effeithio ar allu asiantaethau i gadw pobl yn ddiogel, ac yn lleihau'r buddion a allai fod yn bosibl pe bai'r cyllid wedi ei dargedu'n well.

### Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi'r gorau i ariannu partneriaethau diogelwch cymunedol ac erbyn hyn mae'n darparu adnoddau yn uniongyrchol i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, ond mae'r darlun o ran pa mor effeithiol yw'r arian grant yn un cymysg

3.3 Ym mis Chwefror 2011, ysgrifennodd y Swyddfa Gartref i Lywodraeth Cymru, Prif Gwnstabliaid ac awdurdodau lleol i'w hysbysu o'r cyllid a oedd yn cael ei ddyrannu iddynt ar gyfer gwaith diogelwch cymunedol a'r newidiadau yr oedd yn bwriadu ei wneud i'r fformiwla cyllido yn y blynyddoedd i ddod. Yn 2011-12, cyflwynodd y Swyddfa Gartref gyfanswm o £2.5 miliwn i Gymru, a chafodd yr arian ei dalu'n uniongyrchol i awdurdodau unigol trwy fformiwla dosbarthu. Gwnaeth y Swyddfa Gartref hefyd ddarparu dyraniadau dangosol ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond nodwyd y byddai'r adnoddau hyn yn gostwng 60 y cant i £1.2 miliwn yn ystod 2012-13 ac, yn 2013-14, y byddai'r cyllid yn cael ei gyfuno â nifer o raglenni grant eraill yng Nghronfa Diogelwch Cymunedol y Swyddfa Gartref[29] (y Gronfa).

29 Roedd y rhaglenni a ddisodlwyd gan y Gronfa Ddiogelwch Cymunedol yn cynnwys £123 miliwn o wariant yn ystod 2012-13 ac roeddent yn cynnwys y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau; Cyllid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol; Gweithgareddau Atal Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau; Dyfodol Positif; Cymunedau yn erbyn Gangiau, Gynnau a Chyllyll; Rhaglen Terfynu Gangiau a Thrais Ieuenctid; Gweithredu yn erbyn Troseddau yn y Gymuned; Cronfa Arloesedd; a Chymunedau mwy Diogel.

3.4 Ers 2013-14, mae'r Gronfa newydd wedi'i darparu'n uniongyrchol i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu. Nid yw'r Gronfa wedi'i chlustnodi a gall Comisiynwyr ddefnyddio'r arian i gontractio gwasanaethau sy'n gallu, er enghraifft, mynd i'r afael â chyffuriau a throseddau, lleihau aildroseddu a gwella diogelwch cymunedol yn eu hardal heddlu. Gall Comisiynwyr hefyd ddefnyddio'r arian hwn i fuddsoddi mewn rhaglenni gwaith cyfredol, ond gallant hefyd gyfuno'r arian â phartneriaid lleol er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf bosibl. Y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu unigol sy'n penderfynu'n lleol sut y caiff y Gronfa hon ei defnyddio.

3.5 Fodd bynnag, mae penderfyniad y Swyddfa Gartref i gyfuno'r grantiau hyn yn arian craidd a rhoi'r rhyddid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu benderfynu sut y maent am ddefnyddio'r arian wedi ei gwneud hi'n anodd gweld faint sy'n cael ei wario ar ddiogelwch cymunedol, neu pa feysydd gweithgaredd penodol sy'n cael eu hariannu ar y pryd. Er bod y cyfraniadau hyn yn cael mwy o ddylanwad - er enghraifft, wrth ymyrryd i wella llywodraethu a pherfformiad Timau Troseddau Ieuenctid - nid yw'n eglur pa effaith y mae'r rhain yn ei chael ar droseddu ac anhrefn cyffredinol. Nid yw Comisiynwyr Heddlu a Throseddu bob amser yn gofyn am werthusiad o effaith eu grantiau ac, hyd yn oed pe baent yn gwneud hynny, mae cydgysylltwyr diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol yn nodi nad ydynt yn credu bod ganddynt y gallu i gynnal asesiad o'r fath mewn ffordd briodol.

3.6 Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, fel eraill, yn darparu'r cyllid hwn ar sail cyfraniad i'r bartneriaeth gyffredinol yn hytrach nag i fentrau penodol. Trwy eu cyfraniad ariannol, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn ceisio sicrhau bod amcanion y bartneriaeth yn cyd-fynd â Chynllun yr Heddlu a Gostwng Troseddu a bod gan y bartneriaeth fecanweithiau i fonitro effeithiolrwydd holl gyllid y bartneriaeth. Yn yr un modd, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn mynd ati i edrych ar ffyrdd o feithrin gallu a gwella gwerth am arian, ac yn Ffigur 7, rydym yn amlygu'r dull hwn o gomisiynu gwasanaethau fel arfer da.

3.7 Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent hefyd yn hyrwyddo cyfleoedd cyllido i gynorthwyo elusennau, sefydliadau gwirfoddoli a grwpiau cymunedol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael effaith gadarnhaol ar y cymunedau yng Ngwent, a chyfrannu ar yr un pryd tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd. Mae cyllid yn cynnwys arian sy'n cael ei adennill o'r **Ddeddf Enillion Troseddau 2002**[30] a **Rheoliadau Deddf Eiddo'r Heddlu 1997**[31] (a lle bo angen, cyllid ategol gan gyllideb gyffredinol y Comisiynydd). Caiff proses gais ffurfiol ei gweinyddu gan swyddfa'r Comisiynydd, a bydd panel yn cynnwys cynrychiolwyr o swyddfa'r Comisiynydd a phartneriaid yn craffu ar geisiadau ac yn eu hargymell. Mae'r Comisiynydd yn monitro ac yn gwerthuso mentrau a ariennir, ac mae rhai derbynwyr yn derbyn ymweliadau dilynol er mwyn asesu eu heffaith a'u llwyddiant.

30 Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer atafaelu neu adferiad sifil yr elw o droseddu ac mae'n cynnwys y brif ddefwriaeth yn ymwneud â gwyngalchu arian yn y DU.

31 Crëir Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu o elw gwerthu nwyddau a adferwyd gan yr heddlu na ellir eu dychwelyd at eu perchennog gwreiddiol. Yn unol â Rheoliadau 1997 mae'n rhaid i bob dyfarniad o'r gronfa fod ar gyfer dibenion elusennol.

**Ffigur 7 – Comisiynu gwasanaethau gan Heddlu Dyfed-Powys**

Mae tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn comisiynu gwasanaethau i gefnogi'r cynllun gostwng troseddu ar gyfer 2013-2018. Mae gan y tîm fframwaith comisiynu clir ac wrth weithio maent yn glynu wrth egwyddorion gwerth am arian. Er enghraifft, dyfarnwyd contract i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys er mwyn sefydlu cynllun gwirfoddoli oedolion priodol. Mae'r Comisiynydd hefyd yn bwriadu meithrin gallu cymunedol a helpu pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu diogelwch eu hunain drwy feithrin gallu, diogelu gwasanaethau rheng flaen, a defnyddio sgiliau ac arbenigedd lleol mewn meysydd y mae'r heddlu yn ei chael yn anodd darparu adnoddau ar eu cyfer yn effeithiol. Er enghraifft, defnyddio arbenigedd penodol iawn megis cynlluniau cymorth tai, cyswllt â theuluoedd, ac osgoi alcohol i gyflawni tasgau a gyflawnwyd yn flaenorol gan aelodau staff yr heddlu mewn lifrai.

Yn ogystal, mae'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn defnyddio grantiau i gyflenwi gwasanaethau arloesol i sicrhau diogelwch yn y gymuned. Hyd yn hyn, mae cyfanswm o £1.5 miliwn wedi'i ddyrannu ar ffurf cyllid grant yn ystod 2015-16. Targedwyd y rhan fwyaf o'r arian a wariwyd ar atal a mynd i'r afael â throseddu ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Caiff ffynonellau cyllid eraill eu hystyried megis comisiynu ar y cyd, ffioedd a thaliadau, partneriaethau sector preifat ar gyfer rhai swyddogaethau cymorth, a chyllid cenedlaethol arall. O ganlyniad, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn amlwg yn gweithio tuag at gyflawni ei flaenoriaeth o 'wario'n ddoeth'. Mae'n comisiynu cwmnïau lleol lle bo hynny'n bosibl. Mae hyder busnesau yn bwysig i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, felly bydd cydweithio er mwyn mynd i'r afael â throseddu digidol a seiberdroseddu yn parhau i fod yn ganolbwynt clir.

3.8 Fodd bynnag, canfuwyd hefyd nad yw cyllid ar gyfer prosiectau diogelwch cymunedol bob amser yn cael ei gyfeirio at y lle y mae'r angen mwyaf amdano. Mae swyddi a thwf economaidd yn flaenoriaethau uchel ar gyfer cyrff cenedlaethol a lleol ond nid yw cyllid cyfredol ar gyfer diogelwch yn y gymuned bob amser yn cyd-fynd â'r ystyriaethau economaidd pwysig hyn. Mae twf busnes yn uwch mewn ardaloedd megis Caerdydd ac Abertawe ac eto mae'r partneriaethau diogelwch cymunedol hyn yn derbyn cyllid tebyg i'r ardaloedd hynny a chanddynt risg economaidd is. Ar y llaw arall, nid yw ardaloedd lle mae llawer o droseddau yn ymwneud â busnes, yn cael sylw neilltuol. Er enghraifft, mae cyfradd lawer uwch na'r cyffredin o fwrgleriaeth annomestig yng Nghaerffili, ac eto ni roddir ystyriaeth arbennig i effaith dwyn neu fwrgleriaeth ar dwf busnesau lleol o ran grantiau yn ymwneud â diogelwch yn y gymuned. Mae seiberdroseddu a thwyll ar-lein yn risgiau economaidd cenedlaethol cynyddol ac eto nid yw cyrff diogelwch cymunedol lleol a chenedlaethol yn gwneud digon i helpu busnesau i gadw'n ddiogel. O ganlyniad, mae twf economaidd lleol yn agored i risg ddiangen.

3.9 Cyllid cynaliadwy yw'r mater o bryder a'r risg gweithredol pennaf ar gyfer llawer o bartneriaethau diogelwch cymunedol. Mae grantiau a ddyrennir i bartneriaethau diogelwch cymunedol fel arfer yn grantiau untro neu flynyddol, sy'n ei gwneud yn anodd i bartneriaethau diogelwch cymunedol i gynllunio a chynnal gallu. Yn ogystal, nid yw lefel y grant a ddarperir i bartneriaethau diogelwch cymunedol gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn seiliedig ar unrhyw feini prawf angen neu berfformiad diffiniedig na'r hyn sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniad a fwriedir, sy'n adlewyrchiad o ansicrwydd a gostyngiadau parhaus yng nghyllid y Swyddfa Gartref yn bennaf. Er enghraifft, mae cyfraniadau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu at bartneriaethau diogelwch cymunedol yn seiliedig i'r raddau helaeth ar lefelau blaenorol o Grant y Swyddfa Gartref ond wrth i'r Swyddfa Gartref leihau'r grant y mae'n ei ddarparu, mae'n anodd i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu barhau i gynnal y lefelau blaenorol o gyllid partneriaeth.

3.10 Er enghraifft, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru yn ymdrin â saith partneriaeth diogelwch cymunedol ac mae'n ariannu pum partneriaeth diogelwch cymunedol yn uniongyrchol, yn ogystal â phob un o'r saith bwrdd troseddau ieuenctid. Caiff Byrddau Gwasanaethau Lleol y ddau awdurdod lleol arall o fewn ardal Heddlu De Cymru, eu hariannu'n uniongyrchol. Nododd cydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol a ymatebodd i'n harolwg, fod gostyngiadau/dileu cyllid grant dros y blynyddoedd, wedi cyflwyno pwysau newydd. Nodwyd hefyd fod newidiadau mewn cyllid grant wedi arwain at ddiffyg adnoddau ar gyfer gwasanaethau lleol ac mae'r ffaith bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar lwyfannau rhanbarthol yn golygu na fanteisir ar gyfleoedd ar gyfer prosiectau posibl.

## Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi adnoddau i gyflenwi blaenoriaethau'r Rhaglen Lywodraethu ac mae wedi cynyddu faint o grant y mae'n rhoi ar gael ar gyfer gwaith sy'n cyfrannu at wella diogelwch cymunedol

3.11 Mae gan Lywodraeth Cymru adnoddau ar gyfer cyflenwi ei hymrwymiadau o ran blaenoriaethau Thema 7 y **Rhaglen Lywodraethu**, sef Cymunedau Mwy Diogel i Bawb. Un o brif ymrwymiadau polisi y Rhaglen oedd recriwtio 500 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo cyfanswm o £58 miliwn ers i'r fenter gychwyn. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn buddsoddi arian sylweddol i gefnogi meysydd penodol o weithgarwch drwy ei rhaglen grant. Mae'r amgylchiadau ar gyfer dyfarnu grantiau a'r amcanion y maent yn eu bodloni yn amrywio'n sylweddol ar draws y gwahanol raglenni. Heb os nac oni bai, mae grantiau Llywodraeth Cymru yn ddefnyddiol wrth annog partneriaethau drwy dargedu cyllid er mwyn cyflenwi blaenoriaethau. Mae cyllid grant hefyd yn galluogi Llywodraeth Cymru i gefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau yn ymwneud â pholisi heb orfod eu rheoli yn uniongyrchol o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, gall rhoi gormod o bwyslais ar ddatrysiadau ar lefel genedlaethol annog partneriaethau diogelwch cymunedol i fynd ar ôl yr arian yn hytrach na chanolbwyntio ar broblemau lleol y mae angen mynd i'r afael â nhw.

3.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu ei buddsoddiad mewn diogelwch cymunedol yn sylweddol. Mae Fffigur 8 yn crynhoi grantiau penodol Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at ddiogelwch cymunedol. Mae'r tabl yn dangos bod y denfydd o'r grantiau hyn i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch diogelwch cymunedol  wedi cynyddu rhwng 2011-12 a 2015-16, gan godi yn nhermau arian o £9.9 miliwn yn 2011-12 i £63.6 miliwn yn 2015-16. O ran cyfran gwariant grantiau Llywodraeth Cymru, mae lefel y buddsoddiad ar gyfer gweithgarwch diogelwch cymunedol wedi codi 0.5 y cant yn 2011-12 ac erbyn hyn yn cyfrif am oddeutu pump y cant o gyfanswm cyllideb y rhaglen yn 2015-16[32].

32 Mae'r wybodaeth a ddangosir yn Ffigur 8 yn rhoi manylion am werth y grantiau a gymeradwywyd yn y flwyddyn ariannol a daw'r wybodaeth gan y Setliad Llywodraeth Leol blynyddol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r grantiau hyn wedi'u dosbarthu'n ffurfiol fel gwario ar weithgarwch diogelwch yn y gymuned gan Lywodraeth Cymru (gan nad yw'r fath ddosbarthiad yn bodoli neu'n cael ei ddefnyddio). O ganlyniad i'r cyfyngiadau hyn, rydym wedi seilio ein asesiad ar y rhaglenni gwaith ehangach sy'n cyfrannu at ddiogelwch cymunedol ac a gymerir gan **Setliad Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, 4 Chwefror 2015**.
Nid ydym wedi cynnwys rhaglenni eraill megis Cefnogi Pobl lle na ellir amcangyfrif ag unrhyw sicrwydd lefel y cyfraniad ariannol. Yn ychwanegol at hyn, mae ein dadansoddi yn seiliedig ar ffrydiau penodol o gyllid grant ac ni fwriedir i gyrychioli dadansoddiad cyflawn o gyfanswm y gwariant cyhoeddus posibl ar weithgarwch diogelwch yn y gymuned. Mae ein dadansoddiad hefyd yn ystyried cyfanswm y grant arian a ddyranwyd ac nid yw'n ystyried gwariant mewn termau real oherwydd y twf dros amser yn nifer y grantiau, sy'n golygu bod eu cymharu'n uniongyrchol yn llai ystyrlon.

Ffigur 8 – Cyllid Grant Llywodraeth Cymru rhwng 2011-12 a 2015-16

| Rhaglen Grant Llywodraeth Cymru | 2011-12 £'000 | 2012-13 £'000 | 2013-14 £'000 | 2014-15 £'000 | 2015-16 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Llifogydd Awdurdodau Lleol | 0 | 0 | | 1,577 | 0 |
| Grant Diogelwch ar y Ffyrdd | 0 | 0 | 2,000 | 2,000 | 2,000 |
| Cronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau | 0 | 0 | 0 | 22,663 | 22,663 |
| Grant Cydlynu Cymunedol | 1,700 | 500 | 500 | 372 | 360 |
| Diogelwch Tân Cymunedol | 2,400 | 2,400 | 2,250 | 2,138 | 1,030 |
| Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig | 0 | 0 | 0 | 1,236 | 1,244 |
| Cronfa Atal Troseddau Ieuenctid (cyn hynny, Cronfa Cymunedau Diogelach – ailenwyd yn 2013) | 4,535 | 4,535 | 4,898 | 4,900 | 4,900 |
| Swyddogion Cymorth Cymunedol | 1,287 | 9,787 | 15,287 | 15,787 | 16,787 |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid | 0 | 0 | 162 | 296 | 300 |
| Llifogydd ac Erydu Arfordirol | 0 | 0 | 0 | 12,155 | 12,155 |
| Grant y Prif Awdurdod Llifogydd Lleol | 0 | 2,200 | 2,200 | 2,200 | 2,200 |
| **Cyfanswm** | **9,922** | **19,422** | **27,297** | **65,324** | **63,639** |

Ffynhonnell: Setliad Llywodraeth Leol Cymru, Rhestr a symiau amcangyfrifedig y grantiau ar gyfer Cymru gyfan, 2011-12 i 2015-16.

## Mae gwahanu cyllid, ei natur tymor byr a'i ganolbwynt yn ychwanegu cymlethododau o ran sicrhau diogelwch yn y gymuned ac nid yw'n cefnogi cynllunio tymor canolig i dymor hir na gwerth am arian

3.13 Mae'r newidiadau diweddar yn y gwaith o gomisiynu gweithgarwch diogelwch cymunedol wedi creu anawsterau a rhwystrau sylweddol. Mae llawer o'r rhai hynny a gymerodd ran yn yr arolwg yn amheus o'r newidiadau hyn. Yn arbennig, maent yn codi pryderon ynglŷn â faint o waith sydd ei angen er mwyn gwneud cais am grantiau; yr angen i wneud cais bob blwyddyn ar gyfer cyllid rheolaidd; diffyg cysondeb ar draws raglenni; a'r cydgysylltu cyfyngedig a geir rhwng asiantaethau. Mae'r cymhlethdodau cyllido hefyd yn sgil-gynnyrch y gwahanol gyfrifoldebau ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru. Rydym yn mynd i'r afael â hyn yn fwy uniongyrchol isod.

3.14 Mae gwneud ceisiadau am grantiau yn cymryd amser ac mae gan lawer o grantiau amodau ynghlwm wrthynt sy'n gofyn am reolaeth ofalus. Mae gan bob gyllidwr ei feini prawf, ei flaenoriaethau a'i brosesau ei hun, sy'n golygu bod rhaid teilwra bob cais. Mae rheoli'r gofynion ychwanegol hyn o fewn partneriaethau diogelwch cymunedol sydd eisoes dan bwysau, yn lleihau gallu hyd yn oed yn fwy. Manylodd un ymatebydd i'r arolwg ar brofiad ei bartneriaeth, gan nodi bod gwneud cais am arian yn 'gofyn am lawer o waith gweinyddu ac amser i'w gwblhau er mwyn cyfiawnhau gwariant cyhoeddus, a cheir risg y caiff y cais ei wrthwynebu. Ni roddir yr un blaenoriaeth ar gyfer materion lleol pan fo llithriant yn cronni, ac yn gallu cael ei golli mewn cyd-destun rhanbarthol. Ymddengys bod gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am reoli'r arian, lais wrth ddyrannu llithriant a phennu pa geisiadau sy'n llwyddiannus – a byddant hefyd yn gofyn am ragor o wybodaeth ar gyfer cyfiawnhad. Dywedodd un arall fod y diffyg cyllid ac adnoddau i gael gafael ar gyllid a swyddogaeth diogelwch cymunedol wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf ac yn bennaf i lawr i un unigolyn.

3.15 Mae llawer o'r rhaglenni grant hefyd o natur tymor byr a gallant godi camaint o broblemau ymarferol ag y gallai'r arian gynorthwyo i fynd i'r afael â nhw. Nododd un aelod partneriaeth diogelwch cymunedol a ymatebodd i'n harolwg, fod dibynnu ar arian allanol yn hyrwyddo trosiant uchel o aelodau staff, a nododd un arall fod cyllid grant yn dameidiog iawn – gan effeithio ar recriwtio ac ansawdd yr ymgeiswyr. Yn gwbl anghynaliadwy. Gall penderfyniadau ynghylch dyfarniadau hefyd gymryd amser maith, a gall swm y cyllid a ddarperir gael ei leihau heb fawr o rybudd. Er enghraifft, nododd un ymatebydd i'r arolwg ei bod wedi bod yn hynod heriol pan gynigiodd Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Troseddau Ieuenctid weithredu gostyngiadau yn ystod y flwyddyn mewn cyllid grant pan fo cynlluniau busnes eisoes ar waith i gefnogi rhaglenni gwaith. Ategir yr un farn gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys, sy'n nodi nad yw cyllid blynyddol yn helpu gyda chynllunio hirdymor. Yn ôl tîm Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys cyfuno cyllidebau yw'r ffordd orau ymlaen, ond nodwyd ganddo hefyd na cheir cymhelliant ar draws y cyrff cyhoeddus i gyd i annog dull gweithredu o'r fath. O ganlyniad, ceir risg y gall partneriaid dynnu mewn cyfeiriadau gwahanol ac ni fanteisir i'r eithaf ar gyfleoedd.

3.16 Yn ychwanegol at hyn, mae gan gyllidwyr flaenoriaethau penodol ar gyfer y mathau o weithgarwch maent eisiau eu hariannu, ond nid yw'r rhai hyn bob amser yn cyd-fynd â blaenoriaethau partneriaethau diogelwch cymunedol neu'r hyn a fydd yn rhoi'r budd mwyaf i'r gymuned. Er enghraifft, nododd un cydgysylltydd diogelwch cymunedol fod gallu'r bartneriaeth diogelwch cymunedol i ymateb i faterion wedi lleihau'n sylweddol ers i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu gychwyn yn ei swydd. Roedd y rhan fwyaf o'r cyllid a ddyrannwyd yn flaenorol i'r bartneriaeth diogelwch cymunedol, yn cael ei ddosbarthu'n deg i brosiectau yr oeddem ni i gyd yn eu hystyried yn bwysig, caniataodd hyn i'r bartneriaeth diogelwch cymunedol gael effeith gadarnhaol iawn yn ein cymunedau. Ers i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu gychwyn ar eu gwaith, nid oes gan y bartneriaeth diogelwch cymunedol lawer o gyllid i gefnogi prosiectau lleol pwysig ac effeithiol, a chan fod strategaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a strategaeth y bartneriaeth diogelwch cymunedol ychydig yn wahanol, yn amlach na pheidio ni chaiff y prosiectau hynny eu ariannu gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu neu cânt eu hariannu i gyflenwi gwasanaethau gwahanol iawn, ambell waith yn wasanaethau a allai fod yn llai o gymorth o ran diogelwch yn y gymuned.

3.17 Yn olaf, mae trosglwyddo cyllid o'r Swyddfa Gartref i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ac i ffwrdd o'r awdurdodau lleol, yn effeithio ar ddichonoldeb ac effeithiolrwydd partneriaethau lleol. Ailaliniodd y Swyddfa Gartref ei chyllid grant blaenorol i Brif Grant yr Heddlu, sy'n cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu. Mae cyfuno ffrydiau cyllido ar wahân i Brif Grant yr Heddlu yn rhoi mwy o bŵer i'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ddyrannu eu cyllid lle maent yn ystyried yn briodol, ond gall cyfuno grantiau hefyd arwain at leihad mewn gwariant ar ddiogelwch yn y gymuned. Nododd un aelod partneriaeth diogelwch cymunedol fod y bartneriaeth diogelwch cymunedol yn derbyn o'r blaen gyllid pwrpasol gan Lywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref. Mae darfyddiad y ffrydiau cyllid hyn wedi effeithio ar allu'r bartneriaeth diogelwch cymunedol i gyflenwi ymyraethau lleol.

3.18 Mae rhoi gwerth am arian yn hanfodol ar gyfer cyrff a ariennir gan arian cyhoeddus, ac ar hyn o bryd rhoddir mwy o bwyslais arno o ganlyniad i'r gofyn i gwtogi cyllidebau a symleiddio prosesau i gyflawni effeithlonrwydd heb danseilio effeithiolrwydd. Mae'n ddadleuol a yw'r trefniadau presennol yn rhoi gwerth am arian gan fod partneriaethau diogelwch cymunedol yn derbyn amryfal grantiau yn aml gan fwy nag un asiantaeth. Nid yw'r amser na'r adnoddau a neilltuir i adrodd arnynt, yn enwedig pan fo cymorth gweinyddol mewn partneriaethau wedi'i gwtogi, yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Mae diffyg cydgysylltu rhwng y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu hefyd yn rhoi partneriaethau diogelwch cymunedol dan anfantais. Mae'n ychwanegu at gostau gweinyddol ac yn cynyddu'r perygl o dargedu a defnydd gwael o gyllid cyhoeddus. Yn ychwanegol at hyn, mae amryfal ffrydiau cyllid yn ei gwneud hi'n anodd deall lle y cyflawnir y buddiannau o'r grantiau buddsoddi a pha un a yw'r costau a manteision, ar y cyfan, yn cynrychioli gwerth am arian.

3.19 Ar ôl amlygu'r problemau hyn o ran y trefniadau presennol, daeth un cydgysylltydd diogelwch cymunedol i'r casgliad bod yr adnoddau ariannol ar gyfer Diogelwch yn y Gymund yn gymhleth iawn. Rydym yn derbyn cyllid gan nifer o wahanol ffynonellau, cyllideb graidd y sector cyhoeddus, grantiau Llywodraeth Cymru, grantiau'r Swyddfa Gartref, grantiau Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf, grantiau'r trydydd sector. Mae rhywfaint o'r cyllid hyn yn holltedig, rhywfaint yn flynyddol, ac eraill yn un tro anghylchol. Caiff rhai grantiau eu canoli'n rhanbarthol, eraill eu rhith gronni, rhai eu clustnodi, eraill yn grantiau lleol. Efallai nad yw rhywfaint o'r cyllid a sicrhawyd ar yr arwyneb yn berthnasol i Ddiogelwch yn y Gymuned, ond mae gwaith deiliad y swydd yn anuniongyrchol yn gwneud cyfranniad sylweddol at y cyflenwi strategol a gweithredol.

## Mae gwariant mewn termau real ar blismona wedi gostwng ac mae gostyngiad o dri y cant wedi bod yn niferoedd yr heddlu yn y rheng flaen

3.20 Gweithlu corff cyhoeddus yw un o'i asedau gorau ac mae cyfran sylweddol o wariant ar staffio. Ar adeg o bwysau ariannol, cyflawnir cyllidebau cytbwys yn aml drwy leihau niferoedd aelodau staff gan fod aelodau staff yn gadael eu swyddi'n gynnar yn wirfoddol a thrwy reoli swyddi gwag, lle na cheir aelodau staff newydd i gymryd lle'r rhai sydd wedi gadael. Dengys Ffigur 9 fod gwariant ar blismona, mewn termau arian, wedi codi rhwng 2010-11 a 2014-15 o oddeutu £35 miliwn. Fodd bynnag, dengys gwariant mewn termau real – y newid mewn gwariant ar ôl cywiro ar gyfer effaith chwyddiant – fod cyllid ar gyfer plismona wedi gostwng o oddeutu £13 miliwn. Cyfetyb y gostyngiad mewn cyllidebau ar gyfer plismona â gostyngiad o dri y cant rhwng 2012-13 a 2014-15 mewn niferoedd o Heddweision[33].

3.21 Yn dilyn ein harolwg cyhoeddus, canfuwyd bod 18.3 y cant o'r rhai hynny a ymatebodd wedi nodi bod swm y dreth gyngor a ddyrennir ar gyfer plismona yn rhy ychydig o'i gymharu â'r 18.8 o ddinasyddion sydd o'r farn bod cyfran y dreth gyngor y maent yn ei thalu a ddyrennir ar gyfer yr heddlu yn rhy uchel. Fodd bynnag, nododd 40.5 y cant arall y byddent yn barod i dalu mwy o dreth gyngor os byddai'r arian ychwanegol yn cael ei ddyrannu i ariannu rhagor o blismona yn eu hardal nhw.

33 www.gov.uk, **Police workforce England and Wales statistics**, 20 Gorffennaf 2016

Ffigur 9 – Gwariant alldro refeniw yn ôl heddlu rhwng 2009-10 a 2014-15

| Heddlu | 2010-11 £'000 | 2011-12 £'000 | 2012-13 £'000 | 2013-14 £'000 | 2014-15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heddlu Dyfed-Powys | 106,643 | 106,650 | 106,769 | 100,788 | 110,778 |
| Heddlu Gwent | 130,399 | 127,361 | 125,502 | 126,956 | 144,489 |
| Heddlu Gogledd Cymru | 154,454 | 148,088 | 151,819 | 156,057 | 154,416 |
| Heddlu De Cymru | 275,139 | 273,766 | 272,091 | 291,307 | 292,040 |
| **Cyfanswm Heddlu – gwariant mewn termau arian** | **666,635** | **655,866** | **656,181** | **675,108** | **701,723** |
| **Cyfanswm Heddlu – gwariant mewn termau real** | **714,507** | **679,724** | **680,051** | **685,319** | **701,723** |

Ffynhonnell: StatsCymru – LGFS0023, **Gwariant Alldro Refeniw, yn ôl awdurdod** a
Trysorlys ei Mawrhydi, Ystadegau Gwladol, **GDP deflators at market prices, and money GDP: March 2016 (Budget)**, 22 Mawrth 2016

## Mae gwariant awdurdodau lleol mewn termau real ar reoli diogelwch yn y gymuned wedi gostwng 32.7 y cant yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac mae llai o gapasiti yn rhwystro gweithgarwch a gwelliant

3.22 Nid yw cyllidebau ar gyfer rheoli diogelwch yn y gymuned yn cael eu hamddiffyn rhag toriadau ac mae gwariant awdurdodau lleol ar ddiogelwch yn y gymuned yn gostwng ar gyfraddau uwch na'r toriad cyffredinol i gyllidebau awdurdodau lleol. Canfuwyd bod Gwariant Refeniw Gros gan awdurdodau lleol yn uniongyrchol ar weithgareddau diogelwch cymunedol (a ddiffinnir fel gwariant ar deledu cylch cyfyng at ddibenion diogelwch yn y gymuned; gostwng troseddu o ran diogelwch yn y gymuned; a gwasanaethau diogelwch – diogelwch yn y gymuned) wedi gostwng £10.9 miliwn, o £39 miliwn yn 2010-11 i £28.2 miliwn yn 2014-15. Mewn termau real mae'r gostyngiad hyd yn oed yn fwy, sef gostyngiad i £13.7 miliwn.

3.23 Mae Ffigur 10 yn dangos bod 16 o'r 22 awdurdod lleol wedi gweld gostyngiad mewn cyllid, gyda'r toriadau mwyaf mewn termau real i'w gweld yn Ynys Môn (83.6 y cant), Abertawe (83.5 y cant), Casnewydd (77.8 y cant) a Sir Gaerfyrddin (77.4 y cant). Mae chwe awdurdod lleol wedi cynyddu gwariant ar 'reoli' gweithgareddau diogelwch yn y gymuned. Mae'r cynnydd mwyaf ym Merthyr Tudful lle cynyddodd y gyllideb 149 y cant mewn termau real rhwng 2010-11 a 2014-15, ac yn Wrecsam, sydd â chynnydd mewn termau real o 104.9 y cant.

Ffigur 10 – Gwariant Refeniw Gros ar reoli diogelwch yn y gymuned yn ôl awdurdod lleol rhwng 2010-11 a 2014-15

| Cyngor | Newidiadau i gyllidebau mewn termau arian 2010-11 £'000 | 2011-12 £'000 | 2012-13 £'000 | 2013-14 £'000 | 2014-15 £'000 | Newid mewn termau real rhwng 2010-11 a 2014-15 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Merthyr Tudful | 183 | 483 | 183 | 551 | 488 | 149.0% |
| Wrecsam | 2,598 | 2,277 | 2,040 | 2,306 | 5,704 | 104.9% |
| Caerffili | 982 | 3,226 | 2,963 | 2,756 | 1,524 | 44.8% |
| Sir y Fflint | 1,350 | 948 | 1,087 | 2,092 | 1,599 | 10.6% |
| Gwynedd | 969 | 961 | 845 | 1,068 | 1,081 | 4.1% |
| Caerdydd | 4,091 | 3,391 | 3,273 | 4,419 | 4,395 | 0.2% |
| Rhondda Cynon Taf | 4,669 | 4,233 | 4,658 | 4,740 | 4,256 | -14.9% |
| Conwy | 2,244 | 1,819 | 2,741 | 1,754 | 1,860 | -22.6% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1,029 | 813 | 682 | 706 | 695 | -37.0% |
| Torfaen | 812 | 518 | 509 | 176 | 479 | -44.9% |
| Sir Fynwy | 757 | 503 | 512 | 450 | 444 | -45.0% |
| Castell-nedd Port Talbot | 1,229 | 1,082 | 840 | 967 | 675 | -48.7% |
| Sir Benfro | 217 | 207 | 151 | 145 | 117 | -49.5% |
| Powys | 598 | 565 | 338 | 325 | 260 | -59.4% |
| Blaenau Gwent | 1,866 | 1,599 | 1,731 | 1,741 | 769 | -61.5% |
| Ceredigion | 331 | 277 | 233 | 222 | 135 | -61.8% |
| Sir Ddinbych | 1,664 | 1,653 | 1,525 | 1,409 | 610 | -65.8% |
| Bro Morgannwg | 1,594 | 1,258 | 1,004 | 482 | 504 | -70.5% |
| Sir Gaerfyrddin | 2,345 | 2,254 | 2,127 | 1,923 | 592 | -76.4% |
| Casnewydd | 4,796 | 2,890 | 2,771 | 1,172 | 1,139 | -77.8% |
| Abertawe | 3,568 | 3,187 | 2,810 | 628 | 628 | -83.5% |
| Ynys Môn | 1,138 | 1,224 | 979 | 149 | 199 | -83.6% |
| **Cymru gyfan – termau arian** | **39,030** | **35,368** | **34,002** | **30,181** | **28,153** | **-27.9%** |
| **Cymru gyfan – termau real** | **41,833** | **37,327** | **35,239** | **30,637** | **28,153** | **-32.7%** |

Ffynhonnell: Statscymru, LGFS0016 – **Crynodeb o wariant alldro refeniw, yn ôl gwasanaeth** a Trysorlys ei Mawrhydi, Ystadegau Gwladol, **GDP deflators at market prices, and money GDP: March 2016 (Budget)**, 22 Mawrth 2016

3.24 Gofynnwyd i holl gydgysylltwyr diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol sut y mae eu cyngor nhw yn eu cefnogi i sicrhau diogelwch yn y gymuned. Yn benodol, gofynnwyd am eu swydd a'r amser a neilltuir ar gyfer gweithgareddau diogelwch cymunedol. Ymatebodd pob un o'r 20 awdurdod lleol i'n harolwg. Dengys Ffigur 11 faint o amser y mae pob cydgysylltydd yn ei dreulio bob wythnos yn cydgysylltu ac yn rheoli gwaith pob partneriaeth diogelwch cymunedol. O'r 20 cydgysylltydd, mae wyth yn treulio llai na hanner eu hamser yn cyflawni'r swydd cydgysylltydd diogelwch cymunedol. Hefyd, canfu ein harolwg o'r 20 cydgysylltydd mai dim ond 10 (50 y cant) sydd o'r farn bod digon o adnoddau ar gael ar gyfer gwaith diogelwch cymunedol y partneriaethau. Gwnaed sylwadau gan nifer o gydgysylltwyr hefyd ar y lleihad yn yr amser a neilltuwyd ganddynt yn ystod y tair blynedd diwethaf ar gyfer materion yn ymwneud â diogelwch yn y gymuned, sy'n golygu na allant neilltuo cymaint o amser ag sy'n haeddiannol ar gyfer swydd y cydgysylltydd. Ym marn ymatebwyr i'r arolwg mae'r lleihad yn y capasiti i reoli diogelwch yn y gymuned yn tanseilio swyddogaeth y cynghorau i arwain a chydgysylltu materion yn ymwneud â diogelwch yn y gymuned ac yn gwanhau gallu'r partneriaethau i gydweithio a chynllunio'n effeithiol i sicrhau gwelliant.

Ffigur 11 – Canran yr amser a dreulir gan gydgysylltwyr yn cyflawni swydd cydgysylltydd diogelwch cymunedol

| Canran yr amser bob wythnos a dreulir yn cyflawni swydd cydgysylltydd | Nifer y cydgysylltwyr |
|---:|---:|
| 0-24 | 0 |
| 25-49 | 8 |
| 50-74 | 1 |
| 75-100 | 11 |

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Arolwg cydgysylltywr diogelwch cymunedol, Tachwedd 2015.

3.25 Mae’r newidiadau yn y gyfundrefn gyllid, ynghyd ag amgylchedd polisi a gweithredu sy’n newid, yn effeithio’n andwyol ar bartneriaethau diogelwch cymunedol nes ei fod yn codi’r cwestiwn a ydynt yn gynaliadwy wrth symud ymlaen. Yn ôl cydgysylltwyr partneriaeth diogelwch cymunedol a ymatebodd i’n harolwg, mae’r lleihad sylweddol mewn cyllid ar gyfer y bartneriaeth diogelwch cymunedol yn y blynyddoedd diwethaf wedi lleihau’r effaith sydd ganddi o fewn y gymuned. Nododd un ymatebwr arall nad yw’r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn bodoli’n ffurfiol mwyach. Nododd ymatebwyr eraill fod yn rhaid i’r bartneriaeth diogelwch cymunedol bellach weithredu ar sail leol a rhanbarthol gyda llai o gapasiti, a pharhau i gyflawni ei dyletswyddau statudol. Gofynnwyd sut y mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y gallai’r bartneriaeth diogelwch cymunedol barhau i weithredu’n effeithiol gyda llai o ddarpariaeth? Nododd un arall fod terfynu/ailgyfeirio ffrydiau cyllid diogelwch cymunedol Llywodraeth Cymru a’r Swyddfa Gartref wedi cyfyngu ar gapasiti’r bartneriaeth yn ddifrifol.

3.26 O’r gwaith maes a wnaethom, canfuwyd bod y lleihad hwn mewn cyllid yn arwain at fwy o bwysau ar aelodau staff a morâl isel, a rhoddir mwy o amser erbyn hyn ar sicrhau ffynonellau cyllid amgen. Nododd dau gydgysylltydd ar bymtheg o’r 20 cydgysylltydd (85 y cant) fod eu partneriaeth diogelwch cymunedol ar hyn o bryd yn edrych am gyllid ychwanegol y tu allan i sefydliadau sy’n aelodau i gefnogi gwaith diogelwch yn y gymuned. Mae hyn yn llawer uwch nag aelodaeth ehangach y bartneriaeth diogelwch cymunedol lle nododd 45 y cant yn unig eu bod ar hyn o bryd yn chwilio am ffynonellau ychwanegol o gyllid.

3.27 Llywodraeth Cymru yw’r sefydliad a nodwyd fel yr un mwyaf cyffredin ar gyfer cael cymorth ariannol ychwanegol. Nododd 41.1 y cant o’r ymatebwyr mai Llywodraeth Cymru yw’r partner allweddol sy’n cefnogi eu gwaith diogelwch yn y gymuned. Ymddengys bod hyrwyddo Llywodraeth Cymru fel y corff i ddarparu rhagor o arian yn rhy optimistaidd o ystyried bod Llywodraeth Cymru eisoes yn ariannu gweithgarwch sylweddol, er gwaethaf y ffaith nad y Llywodraeth yw’r awdurdod cyfrifol neu arweiniol ar gyfer ardaloedd allweddol gwaith diogelwch yn y gymuned yng Nghymru. Mae’r pwyslais ar Lywodraeth Cymru yn darparu arian ychwanegol yn arbennig o amlwg gan na nodwyd gan unrhyw ymatebydd i’r arolwg unrhyw adran arall yn Llywodaeth y DU fel ffynonellau cyllid posib. Mae hyn er gwaethaf y ffaith fod gan y Swyddfa Gartref gyfrifoldeb am gyfeiriad strategol elfennau allweddol yn ymwneud â diogelwch yn y gymuned yn Nghymru ac yn Lloegr. Y tu allan i Lywodraeth Cymru, amlygodd 19.6 y cant o aelodau partneriaeth diogelwch cymunedol eu bod yn chwilio am gymorth ariannol gan y sector gwirfoddol ac oddi wrth elusennau, 17.6 y cant gan y Comisiwn Ewropeaidd ac 11.7 y cant gan y Loteri Genedlaethol.

# Rhan 4

## Oherwydd anawsterau yn diffinio diogelwch yn y gymuned a gwendidau o ran data, craffu a gwerthuso, mae’n heriol i gyrff cyhoeddus ddangos effaith eu gweithgarwch



4.1 Yn y rhan olaf hon o'r adroddiad, rydym yn asesu perfformiad a threfniadau perfformiad a rheoli risg y cyrff cyhoeddus ar gyfer diogelwch yn y gymuned ac yn craffu ar weithgarwch. Mae ein hadolygiad yn edrych ar yr wybodaeth a ddefnyddir i feirniadu perfformiad Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a phartneriaethau diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol. Rydym hefyd yn ystyried y trefniadau ar gyfer craffu a herio perfformiad a sut y caiff risg ei nodi a'i liniaru.


## Mae cofnodion yr heddlu a chanfyddiadau'r arolwg yn awgrymu bod troseddu yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diweddar, ond mae adolygiadau diweddar wedi codi materion o bryder yn ymwneud ag uniondeb y data, sy'n gwneud mesur diogelwch yn y gymuned yn anodd

4.2 Mae defnyddio gwybodaeth i wneud dewisiadau deallus yn seiliedig ar dystiolaeth o ran polisi a gweithredu yn hanfodol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn effeithio. Ond yn dilyn ein hadolygiad, canfuwyd bod hwn yn faes y mae'r amrywiol gyrff yn ei chael yn anodd. Fel y nodwyd uchod, mae diogelwch yn y gymuned yn cwmpasu llawer o wahanol agweddau ar fywyd, mae'n eang ac nid oes iddo unrhyw ddiffiniad cytunedig cyffredinol. Gan fod llawer o wahanol faterion a gwasanaethau yn cyfrannu at ddiogelwch yn y gymuned a chan nad oes unrhyw un asiantaeth yn gyfrifol am ddiogelwch yn y gymuned, gall fod yn anodd mesur gwelliant a rheoli perfformiad. O ganlyniad, ni cheir unrhyw ddangosyddion neu fesuryddion statudol ar gyfer diogelwch yn y gymuned, ac mae perfformiad yn bennaf seiliedig ar droseddau a gofnodir.

4.3 Cyhoeddir data ynglŷn â Throseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu[34] ar sail chwarterol ac maent ar gael bob tri mis. Rydym wedi cyfrifo troseddau pedair ardal yr Heddlu ar gyfer pob cyfnod 12 mis drwy gyfrifo pedwar chwarter priodol pob blwyddyn ariannol. Mae Ffigur 12 (isod) yn dangos bod Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu wedi lleihau 38.5 y cant, o 295,000 i 181,000, rhwng 2002-03 a 2014-15.

34 Mae cyfanswm y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn cynnwys troseddau detholedig a adroddwyd i'r heddlu ac a gofnodwyd gan yr heddlu. Cânt eu cyflenwi i'r Swyddfa Gartref gan y 43 o heddluoedd tiriogaethol yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Nid yw ffigurau o ddata a gyflwynwyd ar lefel yr heddlu o reidrwydd yn cyfateb i ffigurau cenedlaethol troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu a gyflwynwyd mewn man arall. Mae hyn oherwydd nad oes modd mapio rhai troseddau (megis y rhai hynny a gyflawnir mewn meysydd awyr) i ardaloedd cyngor ac felly cânt eu heithrio. Yn yr un modd, ni chaiff data gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig eu cynnwys ychwaith yn y data ar lefel yr heddlu. Mae'r Swyddfa Gartref yn pwysleisio bod y data yn rhai yr ychwanegir atynt ac y dylai defnyddwyr fod yn ofalus wrth gymharu ffigurau sy'n gorgyffwrdd. Er enghraifft, nid yw bob amser yn addas cymharu nifer y troseddau mewn dau gyfnod 12 mis sydd ond chwarter ar wahân, gan y byddai tri chwarter y data yr un fath.


Ffigur 12 – Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru o fis Medi 2002 i fis Medi 2015




Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Troseddau yng Nghymru a Lloegr 2002-03 i 2014-15.

4.4 Mae'r data diweddaraf ar gyfer y flwyddyn sy'n gorffen ym mis Medi 2015 gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amlygu bod cyfanswm yr holl droseddau a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys twyll, wedi cynyddu chwech y cant o'i gymharu â'r cyfnod 12 mis blaenorol. Roedd bron 184,000 o achosion o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru. Mae Ffigur 13 yn dangos, o fewn y cynnydd cyffredinol o chwech y cant o droseddau a gofnodwyd yng Nghymru, roedd y cynnydd uchaf o ran canrannau yn ymwneud ag ymyrryd â cherbydau modur, dynladdiad, trais heb anaf, troseddau rhywiol eraill, amrywiol droseddau yn erbyn cymdeithas a thrais rhywiol. Ar y llaw arall, roedd y gostyngiadau mwyaf o ran canrannau i'w gweld yng nghategorïau masnachu cyffuriau, dwyn o gerbydau, dwyn oddi wrth unigolion a meddu ar gyffuriau. Fodd bynnag, noda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol y gallai gwelliannau wrth gofnodi troseddau fod wedi effeithio ar y ffigurau hyn gan fod mwy o droseddau bellach yn cael eu cofnodi ers 2014-15.

Ffigur 13 – Canran y newid mewn categorïau unigol o Droseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghymru rhwng mis Medi 2013 a mis Medi 2015[35]




Ffynhonnell: www.gov.uk, Ystadegau Swyddogol, **Home Office Police recorded crime statistics**, 21 Gorffennaf 2016.

35 Mae dadansoddiad mwy hirdymor o droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn ôl categorïau unigol yn anodd oherwydd newidiadau i'r grwpiau cofnodi a gyflwynwyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14. Er enghraifft, cyflwynwyd codau newydd ar gyfer lladrad o eiddo personol, lladrad o eiddo busnes, dwyn o gerbydau, dwyn cerbyd modur, ymyrryd â cherbydau, a throseddau dwyn eraill. Cyn 2013-14, roedd y troseddau hyn wedi eu grwpio o fewn categorïau eraill. Felly, nid oes modd gwneud cymhariaeth ar sail debyg sy'n dangos newidiadau mewn troseddu sy'n rhychwantu'r cyfnod cyn y newidiadau hyn, ac o 2013-14 ymlaen.

4.5 Ceir pryderon o ran uniondeb y data ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Diffinnir cwmpas trosedd a gofnodwyd gan yr heddlu gan y Rhestr Troseddau Hysbysadwy (NOL), sy'n cynnwys ystod eang o droseddau yn amrywio o lofruddiaeth i fân ddifrod troseddol, lladrad a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus. Nid yw NOL yn cynnwys troseddau llai difrifol y mae'r llysoedd ynadon yn ymdrin â hwy. Er bod y gyfres troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn cwmpasu poblogaeth ehangach a set eang o droseddau, nid yw'n cynnwys troseddau nad ydynt yn dod i sylw'r heddlu neu droseddau na chaiff eu cofnodi ganddynt. Mae'r bwlch yn y cofnodion yn bwysig oherwydd bod pryderon wedi eu codi ynghylch pa mor gadarn yw'r data.

4.6 Er enghraifft, cynhaliodd y Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn San Steffan[36] ymchwiliad i ystadegau troseddol yn 2013-14. Adroddodd y Pwyllgor fod tystiolaeth gref bod yr heddlu yn tangofnodi troseddau, er bod data Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu a data arolwg troseddau ar gyfer Cymru a Lloegr yn nodi gostyngiadau mewn troseddau. Felly, mae'n bosibl bod cyfradd y gostyngiad mewn troseddau wedi ei orbwysleisio, a'i fod yn ganlyniad cydymffurfiad llac gan yr heddlu â'r safon genedlaethol y cytunwyd arni o ran cofnodi troseddau sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Un o'r prif feysydd pryder i'r Pwyllgor oedd cam-gofnodi troseddau rhywiol. Nododd y Pwyllgor broblemau hefyd ynghylch cydymffurfiad yr heddlu â'r safon genedlaethol y cytunwyd arni o ran cofnodi trosedd sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr. Yn gynnar yn 2014, penderfynodd Awdurdod Ystadegau'r DU (UKSA) ddileu'r data ar Droseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu o'u swyddogaeth fel Ystadegau Cenedlaethol.

4.7 Yn ogystal â hyn, cynhaliodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) arolygiad o bob un o'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr i farnu i ba raddau y gellir ymddiried mewn gwybodaeth am droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Yn seiliedig ar arolygu pob un o'r heddluoedd, daeth yr Arolygiaeth[37] i'r casgliad bod dioddefwyr troseddau yn cael eu siomi. Mae'r heddlu yn methu â chofnodi cyfran fawr o'r troseddau a adroddir wrthynt. Mae mwy na 800,000 o droseddau yr adroddwyd amdanynt i'r heddlu heb gael eu cofnodi bob blwyddyn. Mae hyn yn cynrychioli tangofnodi o 19 y cant. Mae'r broblem ar ei gwaethaf ar gyfer dioddefwyr trais yn erbyn unigolyn a throseddau rhywiol, lle mae'r cyfraddau tangofnodi yn 33 y cant ac yn 26 y cant, yn y drefn honno. Mae'r methiant hwn i gofnodi cyfran mor sylweddol o droseddau a adroddwyd yn gwbl annerbynniol.

4.8 Tynnodd yr Arolygiaeth sylw at bwysigrwydd cofnodi troseddau yn gywir ar gyfer dioddefwyr a chymunedau er mwyn sicrhau eu ffydd yn yr heddlu a hefyd mewn prif gwnstabliaid pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â sut i ddefnyddio adnoddau a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yn eu swyddogaeth o ddwyn eu heddluoedd i gyfrif. Canfu'r Arolygiaeth hefyd bod ansawdd y cydymffurfio ag arferion cofnodi ar draws yr heddluoedd yn amrywio. Nododd yr Arolygiaeth 13 o argymhellion yn ei hadroddiad a bellach mae'n cynnwys archwilio uniondeb data am droseddau yn rhan o'i hasesiad blynyddol o effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb pob un o'r heddluoedd.

36 Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Tŷ'r Cyffredin **Caught red-handed: Why we can't count on Police Recorded Crime Statistics**, 9 Ebrill 2014.
37 Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, **Crime-recording: making the victim count – The final report of an inspection of crime data integrity in police forces in England and Wales**, Tachwedd 2014.

4.9 Ffynhonnell arall o ddata sy'n ymwneud â throsedd a diogelwch cymunedol yw **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr**, arolwg wyneb yn wyneb blynyddol o 35,000 o oedolion a 3,000 o blant rhwng 10 a 15 mlwydd oed sy'n byw ar aelwydydd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r Arolwg yn holi'r ymatebwyr am eu profiadau o amrywiaeth o droseddau sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r arolwg yn cwmpasu'r pedair trosedd ganlynol: trais (ond nid yw'n cynnwys llofruddiaeth); lladrad; dwyn (personol, bwrgleriaeth, cerbydau, beiciau, eitemau arall o'r aelwyd); a difrod troseddol. Nid yw'r arolwg yn cynnwys troseddau heb ddioddefwr, fel meddu ar gyffuriau neu droseddau moduro. Fodd bynnag, ar gyfer y boblogaeth ac o ran y mathau o droseddau y mae'n eu cynnwys, mae Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr yn ffynhonnell werthfawr ar gyfer rhoi darlun cyson o droseddau dros amser.

4.10 Mae'r data diweddaraf o **Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr** yn dangos bod profiadau'r bobl a ymatebodd i'r arolwg i droseddau yn wahanol iawn i'r data am droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Er enghraifft, mae'r data ar droseddau a gofnodwyd gan yr heddlu yn nodi cynnydd o 16 y cant mewn trais ag anaf yn 2014-15 o'i gymharu â 2013-14, ond bu cynnydd o 11 y cant mewn trais ag anaf yn **Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr**. Fodd bynnag, ar gyfer troseddau heb anaf bu gostyngiad o 11 y cant yn ôl **Arolwg Troseddau Cymru a Lloegr** yn 2014-15 o'i gymharu â 2013-14, ond bu cynnydd o 37 y cant yn ôl y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Bu gostyngiad o 13 y cant mewn dwyn oddi wrth unigolyn yn ôl **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr**, ond dim ond gostyngiad o bedwar y cant yn y troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu. Yn gyffredinol, mae **Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr** yn dangos darlun mwy cadarnhaol o droseddau nag y mae'r heddlu yn ei gofnodi.


## Mae barn gymysg gan ddinasyddion ar ansawdd bywyd a pha mor ddiogel y maen nhw'n teimlo

4.11 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru[38] yn arolwg ar raddfa fawr sy'n cynnwys dros 14,000 o oedolion ledled Cymru gyfan ac yn ymdrin â phynciau megis lles a barn pobl ar y gwasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i helpu i wneud Cymru yn lle gwell i fyw. Fodd bynnag, mae cwestiynau'r arolwg yn newid yn flynyddol mewn nifer o feysydd allweddol, sy'n ei gwneud yn anodd i gymharu perfformiad dros gyfnod o amser. Yn ogystal â hyn, daw canfyddiadau'r Arolwg Cenedlaethol diwethaf o arolwg 2014-15, ac er na chafwyd Arolwg Cenedlaethol yn 2015-16, bwriedir ailgychwyn yn 2016-17.

4.12 Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn cynnwys ystod o bynciau sy'n ymdrin â'r amgylchedd lleol, ansawdd bywyd a theimlo'n ddiogel. Mae Ffigur 14 yn dangos barn ymatebwyr i'r arolwg ar ansawdd eu hardal awdurdod lleol yn 2013-14 ac mae'n dangos bod amrywiaeth fawr o ran bodlonrwydd dinasyddion ag ansawdd eu bywyd a chyflwr eu hamgylchedd lleol.

38 Llywodraeth Cymru, **Arolwg Cenedlaethol Cymru**

Ffigur 14 – Arolwg Cenedlaethol Cymru 2013-14 – Ansawdd yr ardal leol




Ffynhonnell: **Stats Cymru**, **Arolwg Cenedlaethol Cymru**

4.13 Nid yw'r cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 yn gymhariaeth uniongyrchol ag arolwg 2013-14. Fodd bynnag, roedd arolwg 2014-15 yn cynnwys nifer bach o gwestiynau a oedd yn ymdrin â'r hyn yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei alw yn 'gydlyniant cymunedol'. Mae arolwg 2014-15 yn nodi bod 79 y cant o ymatebwyr yn cytuno bod pobl yn yr ardal leol o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda. Mae ymatebion awdurdodau lleol unigol yn amrywio o 65 y cant yn Nhorfaen i 93 y cant yng Ngheredigion. Yn ogystal â hyn, roedd 79 y cant o ymatebwyr hefyd yn cytuno bod pobl yn y ardal leol yn trin ei gilydd â pharch ac yn ystyriol wrth i ymatebion amrywio o 67 y cant yn Rhondda Cynon Taf i 95 ym Mhowys.

4.14 Yn rhan o'n harolwg ar-lein, gofynnwyd i ddinasyddion am eu barn am berfformiad y cyrff cyhoeddus sy'n gyfrifol am ddiogelwch cymunedol. Roedd yr ymatebion yn amrywio ar gyfer y tri mesur yn y arolwg, sef diogelwch yn eu hardal, newidiadau o ran troseddu a pherfformiad asiantaethau. O ran troseddau yn eu hardal, dywedodd 36.6 y cant eu bod o'r farn bod lefelau troseddu wedi cynyddu yn y flwyddyn ddiwethaf, dywedodd 10 y cant bod lefelau troseddu wedi gostwng a dywedodd 53.4 y cant nad oedden nhw'n gwybod. Chwarter o'r ymatebwyr yn unig a ddywedodd eu bod yn teimlo'n fwy diogel yn eu hardal nag yr oedden nhw flwyddyn yn ôl, o'i gymharu ag oddeutu 60 y cant a ddywedodd eu bod yn teimlo'n llai diogel nag yr oedden nhw y llynedd. Dywedodd y 15.4 y cant arall nad oedden nhw'n gwybod.

4.15 O ran perfformiad asiantaethau i wella diogelwch cymunedol, roedd ymatebion yn fwy cyfartal, wrth i 23.5 y cant ddatgan bod cyrff yn perfformio yn dda iawn neu'n dda; 30.4 y cant yn datgan eu bod yn perfformio'n iawn, gyda rhywfaint o waith da a rhywfaint o waith nad oedd gystal; a 23.1 y cant yn datgan eu bod yn perfformio'n wael neu'n wael iawn. Dywedodd y 23 y cant arall nad oedden nhw'n gwybod. O ystyried nad oedd llawer o'r ymatebwyr i'r tri chwestiwn hyn yn gwybod pa mor dda y mae sefydliadau yn perfformio o ran ymdrin â throseddu a diogelwch cymunedol, mae yna gyfleoedd clir i asiantaethau cyhoeddus wella sut maen nhw'n cyfathrebu â thrigolion a chymunedau ac yn rhoi gwybod iddynt am lefelau a safonau perfformiad presennol.

## Mae barnu perfformiad ac effaith wrth gyflawni cynlluniau yn anodd oherwydd bod amrywio eang o ran ansawdd ac ystod y mesurau, y targedau a'r camau y caiff cyrff cyhoeddus eu defnyddio

4.16 Mae cael systemau a threfniadau da i werthuso perfformiad yn helpu Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ac Aelodau awdurdodau lleol i ddeall yn well sut y maent yn perfformio o ran eu nodau strategol a'u hamcanion. Yn yr ystyr ehangaf, mae'n galluogi sefydliadau a'u rhanddeiliaid i gael gwell dealltwriaeth o ran a ydynt ar y trywydd cywir ai peidio. Mewn cyfnod o galedi a gostyngiadau mewn adnoddau, mae'n hanfodol hefyd gael gwybodaeth o safon am berfformiad er mwyn gallu barnu cyflawniad gweithgarwch. Mae'n rhoi'r gallu i sefydliadau farnu a yw gostyngiadau mewn gwariant yn cael eu rheoli a'u lliniaru'n effeithiol heb effeithio'n ormodol ar berfformiad, neu dynnu sylw at ble mae angen canolbwyntio adnoddau i gael yr effaith fwyaf cadarnhaol.

### Mae darlun cymysg o ba mor dda y mae Llywodraeth Cymru wedi perfformio o ran cyflawni ei blaenoriaethau i wneud cymunedau yn fwy diogel i bawb oherwydd bod diffyg mesurau priodol i farnu effaith mewn rhai ardaloedd

4.17 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiadau blynyddol ar gynnydd o ran cyflawniad ei hymrwymiadau dan y **Rhaglen Lywodraethu**. Nod cyffredinol Llywodraeth Cymru yn y **Rhaglen Lywodraethu** yw gwneud ein cymunedau yn fwy diogel trwy leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu (gan gynnwys ofn troseddu), camddefnyddio sylweddau ac achosion ac effeithiau tanau, yn ogystal â chydlynu achosion brys yn effeithiol. Mae'n nodi cyfres o dargedau i farnu a yw'n cyflawni ei hamcanion a'i chanlyniadau. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyfer y dangosyddion canlyniad y mae'n eu defnyddio i farnu cyflawniad dros gyfnod y **Rhaglen Lywodraethu**. Dyma'r mesurau sy'n barnu diogelwch cymunedol yng Nghymru a sut y mae camau unigol Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at wella diogelwch cymunedol o fewn cwmpas ei phwerau.

4.18 Yn 2011-12 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gerdyn sgorio manwl 48 tudalen o hyd[39] i farnu cynnydd o ran cyflawni ei thargedau. Mae'r adroddiad cynnydd yn mesur perfformiad yn erbyn yr 20 cam penodol y cytunwyd arnynt, a pherfformiad yn erbyn yr 'heriau hirdymor' mawr sydd gan Gymru. Mae'r data a ddefnyddir yn gymysgedd o ystadegau swyddogol a gyhoeddir ar lefel Cymru gyfan neu'r DU, yn ogystal â gwybodaeth a gasglwyd o systemau rheoli adrannol.

39 Llywodraeth Cymru, **Diweddariad ar Rhaglen Lywodraethu 2012, Pennod 7: Cymunedau mwy Diogel i Bawb**

4.19 Ers 2012-13, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi crynodebau amrywiol sy'n rhoi diweddariad ar bob un o'r ugain o gamau sy'n benodol i'r ymrwymiadau diogelwch cymunedol yn y **Rhaglen Lywodraethu**. Mae'r adroddiad cynnydd hefyd yn cydnabod nad yw rhai o'r mesurau perfformiad a ddefnyddir yn galluogi perfformiad i gael ei bennu yn erbyn y canlyniad perfformiad. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar ganran y plant a'r bobl ifanc sydd yn y System Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, sydd ag anghenion camddefnyddio sylweddau sy'n gallu cael gafael ar wasanaethau asesu a thrin arbenigol priodol, ond nid yw'n adrodd ar effaith a buddion triniaeth camddefnyddio sylweddau. Dangosodd adroddiad cynnydd blynyddol diweddaraf Llywodraeth Cymru[40] fod 18 o'r 20 ymrwymiad wedi eu cyflawni erbyn diwedd 2014-15, a bod disgwyl cyflawni dau erbyn diwedd 2015-16.

4.20 Nododd ein hadolygiad rai gwendidau yn y trefniadau hyn. Yn gyntaf, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu gwaelodlinau na thargedau ar gyfer y rhan fwyaf o'r mesurau hyn. Felly, nid yw'n glir beth fydd effaith ddisgwyliedig ei rhaglen waith yn ystod oes y Cynulliad Cenedlaethol. Cred Llywodraeth Cymru nad yw'n briodol pennu targedau mewn rhai achosion – er enghraifft o ran nifer y bobl ifanc y cred Llywodraeth Cymru y dylent fod yn y ddalfa – oherwydd gallai olygu na fyddai gwasanaethau yn canolbwyntio ar barhau i gadw pobl ifanc allan o'r ddalfa unwaith y cyrhaeddwyd y targed.

4.21 Yn ôl ein hadolygiad, yn ystod cyfnod y **Rhaglen Lywodraethu** bu gwelliant ym mherfformiad 16 o'r mesurau, bu dirywiad ym mherfformiad 11 o'r mesurau ac nid yw'n glir sut y dylid barnu perfformiad mewn dau o'r mesurau. Er bod meysydd lle mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol, ac mae gwaith cadarnhaol Llywodraeth Cymru yn amlwg wrth hybu'r gwelliant hwn, mae cyfyngiadau mewn meysydd eraill yn ei gwneud yn anodd gwerthuso effaith lawn holl weithgarwch Llywodraeth Cymru yn gwella meysydd allweddol o ran diogelwch cymunedol yng Nghymru.

4.22 Er enghraifft, yn yr adroddiad cynnydd diweddaraf, ni ddarparwyd data 2014-15 ar gyfer 14 o'r mesurau ac mae'n seiliedig ar wybodaeth 2013-14, sy'n ei gwneud yn anodd olrhain perfformiad. Daw peth o'r data y mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio o gofnodion rheoli yn hytrach na ffynonellau cyhoeddedig, felly nid yw bob amser yn eglur a oes modd archwilio'r wybodaeth. Hefyd, ni ddefnyddir gwybodaeth o safon y gellid bod wedi ei defnyddio i ddangos perfformiad – er enghraifft Arolwg Cenedlaethol Cymru a nodir uchod. Mewn rhai meysydd mae'r mesurau perfformiad yn gasgliad o ddata ymdriniaeth neu ddefnydd, yn hytrach nag effaith a budd, ac nid yw'n glir sut y mae camau neu weithgareddau yn cyfrannu at neu'n galluogi arfarniad o welliant, er enghraifft, ehangu nifer yr eiddo a gaiff eu cynnwys mewn parthau dim galw diwahoddiad. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ffigurau ymarfer cod post, a gynhaliwyd i gael trosolwg o nifer y cartrefi sydd wedi eu cynnwys mewn parthau dim galw diwahoddiad, fel ag yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2015, sef 53,418, cynnydd o 15,418 ers mis Mawrth 2013. Fodd bynnag, nid yw cofnodi nifer y cartrefi sydd bellach wedi eu cynnwys mewn parthau dim galw diwahoddiad yn unig yn ddigon i gael gwybodaeth ynghylch a yw ymestyn y polisi wedi cyflawni gwelliant mewn gwirionedd i drigolion.

40 Llywodraeth Cymru, **Pennod 7: Cymunedau mwy Diogel i Bawb – Diweddariad ar yr Ymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu**

### Mae cynlluniau a rhaglenni blynyddol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn darparu cyfarwyddyd cyffredinol ar gyfer gwaith yr heddluoedd, ond mae diffyg eglurdeb mewn rhai targedau, mesurau a chanlyniadau yn golygu nad yw'n glir bob tro a ydynt yn cyflawni eu blaenoriaethau

4.23 Mae Cynlluniau Heddlu a Throseddu yn pennu cyfres o flaenoriaethau ar gyfer eu swyddfa a'u hardal heddlu. Mae'r blaenoriaethau yn y dogfennau hyn ar y cyfan yn ganlyniadau ar gyfer y boblogaeth gyfan, gyda phwyslais ar leihau troseddu a gwerth am arian gan yr heddluoedd. Mae blaenoriaethau eraill yn canolbwyntio at ddatblygu'r capasiti i ymdrin â materion troseddu a diogelwch cymunedol. Er enghraifft, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn datblygu'r gallu a'r capasiti i fynd i'r afael â seiberdroseddu ac ymdrin â bygythiadau allweddol, gan gynnwys camfanteisio yn rhywiol ar blant ar-lein.

4.24 Mae pob Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn nodi sut y bydd yn mesur cynnydd o ran ei flaenoriaethau. Mewn llawer o achosion, mae blaenoriaethau a mesurau perfformiad yn cael eu halinio. Er enghraifft, mae un Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi gosod blaenoriaeth i ddiogelu'r boblogaeth leol rhag niwed difrifol (Gwent) ac un o fesurau perfformiad y flaenoriaeth hon yw cynyddu cyfran y troseddwyr a gaiff eu dwyn o flaen eu gwell ar gyfer troseddau cam-drin domestig. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r mesurau perfformiad yn hawdd eu mesur nac yn benodol. Mae'r diffygion hyn yn y systemau monitro perfformiad yn golygu nad yw'n glir bob amser a yw'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yn cyflawni eu blaenoriaethau yn gyson, er bod hyn yn gwella wrth i ragor o wybodaeth fod ar gael ar-lein.

### Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau diogelwch cymunedol yn gosod blaenoriaethau lefel uchel clir, ond mae'r mesurau a osodwyd i fonitro a gwerthuso cynnydd yn aml yn aneglur ac yn amhriodol

4.25 Mae bron pob partneriaeth diogelwch cymunedol yn gosod blaenoriaethau diogelwch cymunedol lefel uchel yn eu Cynlluniau Integredig Sengl. Mae'r blaenoriaethau hynny ar y cyfan ar gyfer y boblogaeth gyfan ac mae'r partneriaethau wedyn yn llunio cynlluniau gweithredu i gyflawni'r blaenoriaethau cyffredinol. Serch hynny, ni wnaeth yr holl bartneriaethau gyflwyno cynlluniau gweithredu clir a oedd yn dangos sut y byddai'r blaenoriaethau cyffredinol yn cael eu cyflawni, gan gynnwys pa sefydliadau eraill a fyddai'n rhan o'r gwaith a dyddiadau cyflawni camau gweithredu.

4.26 Er i 18 o'r 20 o bartneriaethau diogelwch cymunedol ddatgan bod gan eu strategaethau fesurau canlyniad priodol, gwelwyd nad yw mesurau perfformiad bob tro yn alinio â'r blaenoriaethau a nodir yn y strategaethau. Er enghraifft, mae gan Ben-y-bont ar Ogwr dri maes blaenoriaeth: parhau i ostwng lefelau troseddu treisgar; gostwng lefelau camddefnyddio cyffuriau; a pharhau i ostwng lefelau bwrgleriaeth ddomestig. Fodd bynnag, nid yw'r mesurau perfformiad y mae'r

Awdurdod wedi'u gosod i farnu cyflawniad ac effaith wedi'u halinio â'r nodau strategol hyn, ac ni fydd yn galluogi'r awdurdod, partneiriaid na dinasyddion i farnu effeithiolrwydd ei waith. Mae'r mesurau a ddefnyddir yn canolbwyntio ar fesur cynnydd yng nghanran y bobl sy'n credu bod Heddlu De Cymru a Chyngor Bwrdiestref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymdrin â materion pwysig; cynnydd yn nifer y strydoedd a thir glân; a chynnydd yng nghanran y bobl sy'n teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned. Er bod y rhain yn fesurau pwysig i farnu gweithgarwch, nid ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â mesur gostyngiadau mewn bwrgleriaeth na chamddefnyddio sylweddau. Yn yr un modd, mae Comisiynydd Gogledd Cymru yn cydnabod yn ei adroddiad perfformiad bod gweithgarwch ac allbynnau sy'n ymwneud â phartneriaethau yn anodd i'w mesur, er bod gweithio ar y cyd yn bwysig. Fodd bynnag, yn ddiweddar mae trefniadau i asesu gweithio ar y cyd wedi'u diwygio a'u hatgyfnerthu.

4.27 Yn ôl ein hadolygiad o strategaethau, mae partneriaethau yn defnyddio amrywiaeth o ddata perfformiad i fesur cynnydd o ran cyflawni eu blaenoriaethau. Mae mwyafrif y mesurau wedi eu seilio ar ddata a gyhoeddwyd, er enghraifft, nifer yr achosion a adroddwyd o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae nifer o bartneriaethau wedi mireinio eu mesurau ymhellach i gynnwys cyfraddau yr achosion fesul pob 1,000 o'r boblogaeth, yn hytrach na nifer gwirioneddol yr achosion, sy'n ddull mwy soffisitigedig o fesur cynnydd. Mae eraill yn defnyddio data sy'n nodi canfyddiadau'r cyhoedd o elfennau o ddiogelwch cymunedol, gan gynnwys teimlo'n ddiogel gyda'r nos mewn ardal leol. Fodd bynnag, nid ddaw'r wybodaeth bob tro o ffynonellau data cadarn, ac mae gostyngiadau mewn cyllid mewn rhai achosion yn golygu na chynhelir arolygon canfyddiad bellach.

4.28 Mae Bwrdd Cyflawni Partneriaeth 3 Bwrdd Gwasanaeth Lleol Wrecsam, 'Mae Wrecsam yn lle diogel lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys' yn gyfrifol am faterion diogelwch cymunedol. Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi dau adolygiad blynyddol o gynnydd yn erbyn ei dargedau. Mae'r adolygiadau hyn yn cynnwys gwybodaeth allweddol ar gyfer pob un o'r canlyniadau a osodir gan bartneriaid, sy'n galluogi aelodau'r cyhoedd i asesu a yw'r targedau hyn yn cael eu cyflawni. Mae'r wybodaeth yn cynnwys gwaelodlin o 2012 ar gyfer pob targed, y cynnydd a wnaed ym mlwyddyn yr adroddiad a'r flwyddyn flaenorol, yn ogystal â tharged cyffredinol ar gyfer oes y cynllun ar gyfer 2017. Rhoddir dyfarniad Coch, Ambr, Gwyrdd (RAG) i helpu'r darllenydd i ddehongli'r wybodaeth. Ers mis Ebrill 2015 mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cael gwybodaeth chwarterol i'w galluogi i fonitro perfformiad mewn 16 o'r 21 o fesurau perfformiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys sylwadau byr ar bob un o'r mesurau perfformiad sy'n cymharu perfformiad â grŵp teulu tebyg o awdurdodau lleol, yn ogystal â syniad o'r tueddiadau yn y data. Ar y cyd, mae'r ystod o wybodaeth a'r ffordd y caiff ei chyflwyno yn caniatáu i aelodau'r Bwrdd herio a chraffu ar berfformiad.

4.29 Mewn rhai awdurdodau lleol, defnyddir cyfradd yr atgyfeiriadau i wasanaethau i fesur cynnydd o ran ymdrin â materion penodol, er enghraifft, camddefnyddio sylweddau. Fodd bynnag, mae mesurau fel hyn yn un ffordd yn unig o farnu cynnydd o ran mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn aml nid ydynt yn ddigon manwl na chyflawn i werthuso perfformiad. Pan fydd mwy o fanylder wedi ei gynnwys, er enghraifft yng Nghaerffili lle cesglir gwybodaeth am nifer y canlyniadau triniaeth lwyddiannus hefyd, amlygir gwell darlun o gynnydd. Hefyd, o'r wyth partneriaeth sy'n cynnwys cydlyniant cymunedol yn flaenoriaeth, mae tair wedi defnyddio lefel troseddau casineb yn fesur perfformiad, nid yw pedair yn gosod unrhyw fesurau, ac mae un bartneriaeth yn gosod tri mesur: dealltwriaeth o'r bygythiad a'r risg lleol, strategaeth atal gadarn, a chreu cymuned fwy integredig a chydlynol.

4.30 Mae rhai diffygion cyffredin i fesur cyflawniad blaenoriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru. Byddai rhagor o eglurdeb ganlyniad dymunol pob blaenoriaeth a'i heffaith lesol ar ddinasyddion yn helpu pobl i ddeall yr hyn y gallant ei ddisgwyl a sut y gallant gadw'n ddiogel. Er gwaethaf bwriadau clir i wella prosesau adrodd a'r gallu i gael gafael ar wybodaeth, mae data gwaelodlin prin ar berfformiad yr heddlu. O ganlyniad i hyn, mae'n anodd barnu beth yw nod y corff diogelwch cymunedol, y canlyniadau a gyflawnir a'r hyn a wneir yn dda o'i gymharu ag eraill.

4.31 Mae cynlluniau a strategaethau hefyd yn methu cysylltu cost a gwybodaeth ariannol â chamau a gweithgarwch ac mae gormod o strategaethau diogelwch cymunedol nad oes costau wedi eu cyfrifo ar eu cyfer. O ganlyniad i hyn, nid yw'r cynlluniau mor gadarn ag y dylent fod. Mewn rhai achosion, mae'r targedau a osodir yn llawer rhy syml. Er enghraifft, mae rhai partneriaethau diogelwch cymunedol yn ceisio lleihau achosion o gam-drin domestig, ond mae eraill, megis Torfaen a Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru o'r farn bod angen cynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig, oherwydd nid yw'n drosedd yr adroddwyd arni lawer yn y gorffennol. Gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer yr achosion yr adroddir arnynt. Fodd bynnag, mae'r ddau beth hyn hefyd yn targedu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro o'r troseddau hyn.

## Mae prosesau rheoli risg yn amrywio'n fawr ac nid ydynt o hyd yn gadarn

4.32 Mae rheoli risg yn rhan bwysig o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd parterniaid diogelwch cymunedol. Pan gaiff ei wneud yn dda, gall hyn ddarparu sicrwydd y bydd gostyngiad yn risg mathau penodol o ddigwyddiadau a'u heffaith ar berfformiad, neu y bydd risg y digwyddiadau hyn yn cael ei dileu. Yn ôl ein hadolygiad ni, mae rheoli risg yn datblygu ond nid yw wedi'i ymgorffori yn llwyr.

4.33 Ar y cyfan, mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ledled Cymru brosesau cadarn ar waith o reoli risgiau i'r heddlu. Yn Ne Cymru a Dyfed-Powys, mae'r Gofrestr Risg yn cael ei diweddaru'n barhaus a chaiff ei chyflwyno'n rheolaidd i Bwyllgorau Archwilio a Byrddau amrywiol at ddibenion craffu. Yn yr un modd, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Gwent a Gogledd Cymru wedi sefydlu fframweithiau risg ar gyfer blaenoriaethau diogelwch cymunedol sy'n ymdrin â nifer o weithgareddau partneriaeth ac ar y cyd, er bod rhai cyfleoedd i wella sut y cesglir yr wybodaeth am yr holl risgiau partneriaeth allweddol.

4.34 Yn Abertawe, caiff dogfen asesu anghenion strategol ei llunio yn flynyddol yn rhan o broses gylchol a nodir risgiau allweddol. Er enghraifft, mae cynnydd yn yr achosion o gamddefnyddio sylweddau a gysylltir ag effeithiau'r dirwasgiad yn debygol o effeithio ar lefelau troseddau meddiangar, megis dwyn o siopau er mwyn ariannu'r defnydd o gyffuriau. Mae defnyddio sylweddau yn effeithio ar ddiogelu o ran amddiffyn plant a dioddefwyr trais domestig pan fo defnyddwyr yn rhan o deulu, a bydd goblygiadau ehangach ar reoli ymddygiad gwrthgymdeithasol ac annhrefn. Caiff y risgiau hyn eu cyfleu a'u rhannu â phartneriaid, er bod diffyg eglurdeb o ran sut y caiff adnoddau eu dyrannu i'r risgiau hyn.

4.35 Mae effaith y craffu yn aneglur ac nid oes trefniadau rheoli risg effeithiol ar waith gan gyrff cyhoeddus bob tro. Er enghraifft, nid yw'r risgiau wedi cael eu hysgrifennu mewn iaith glir ac mae tuedd iddynt gael eu grwpio. Cyllid cynaliadwy yw prif risg y rhan fwyaf o bartneriaethau diogelwch cymunedol o ran cyflawni, ond mae diffyg eglurdeb o ran sut y caiff y risgiau hyn eu rheoli a'u datrys. Mae trefniadau rheoli risg partneriaethau diogelwch cymunedol hefyd yn datblygu'n rhy araf. Er bod y partneriaethau diogelwch cymunedol yn rhoi ystyriaeth i risgiau yn sgil dyletswyddau newydd a gwybodaeth newydd, mae'r rhain yn ymwneud yn fwy â bygythiadau yn hytrach na risgiau i gyflawni, capasiti a materion pwysig o ran canfyddiad y cyhoedd megis ofni troseddau.

4.36 Fodd bynnag, mae natur dameidiog y cyfrifoldebau hefyd yn ei gwneud yn anodd rheoli risgiau. Mae trefniadau rheoli risg yn canolbwyntio yn bennaf ar gyfrifoldebau asiantaethau unigol, felly nid ydynt yn adnabod nac yn rhoi sylwadau ar swyddogaeth eraill o ran ymdrin â risgiau. Yn wir, nid oes gan Gomisiynwyr a phartneriaethau diogelwch cymunedol ddealltwriaeth na chofrestr o'r holl bartneriaethau y maent yn ymdrin â nhw a'r risgiau posibl yn sgil hynny. Nid yw dull tameidiog o reoli risg yn darparu sicrwydd digonol bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg ar waith, ac nid yw'n rhoi'r gallu i graffu ar berfformiad yn ddigonol.

# Atodiadau

Atodiad 1 – Sail statudol i reoli diogelwch cymunedol yng Nghymru a Lloegr

Atodiad 2 – Cyfrifoldebau am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

Atodiad 3 – Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 4 – Astudiaethau achos arfer da



# Atodiad 1 – Sail statudol i reoli diogelwch cymunedol yng Nghymru a Lloegr

**Adroddiad Morgan 1991** - Roedd Adroddiad Morgan yn hollbwysig o ran llunio Diogelwch Cymunedol a datblygiad partneriaethau diogelwch cymunedol yn y dyfodol yng Nghymru a Lloegr. Cyflwynodd y syniad o bartneriaeth a chydnabod yr angen i ddod â rhanddeiliaid allweddol ynghyd ym maes diogelwch cymunedol ac atal troseddu. Argymhellodd y dylid cysylltu awdurdodau lleol â'r heddlu ac eraill mewn dull amlasiantaeth i fynd i'r afael â throsedd. Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, mabwysiadwyd partneriaethau diogelwch cymunedol gwirfoddol yn eang ledled Prydain.

**Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998** - Gosododd Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 ddyletswyddau ar awdurdodau lleol a gwasanaethau'r heddlu i gydweithio i ddatblygu archwiliadau trosedd ac anhrefn; rhoi strategaethau lleihau ar waith; a gweithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol i fynd i'r afael â'r problemau a nodwyd.

**Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006** - Roedd y Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau i rannu data wedi'u seilio ar dystiolaeth. Ehangwyd hyn i gynnwys y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Iechyd, yr Awdurdod Heddlu lleol a chynrychiolydd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd newydd i greu grŵp strategol ffurfiol i gynnal asesiadau strategol o lefelau a phatrymau troseddu a chamddefnyddio cyffuriau ac i lunio cynlluniau diogelwch cymunedol 3 blynedd treigl. Sefydlwyd safonau gofynnol ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd.

**Rheoliadau Trosedd ac Anhrefn (Gwybodaeth Ragnodedig) 2007** - Mae'r Offeryn Statudol yn gosod dyletswyddau penodol i awdurdodau cyfrifol ar gyfer datblygu Asesiad Strategol a'i roi ar waith.

**Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011** - Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ymdrin â phum maes polisi ar wahân: atebolrwydd a llywodraethu yr heddlu; trwyddedu alcohol; rheoleiddio protestiadau yn Parliament Square; camddefnyddio cyffuriau; a chyflwyno gwarantau arestio mewn cysylltiad ag erlyniadau preifat ar gyfer troseddau awdurdodaeth gyffredinol. Roedd y Ddeddf hefyd yn cyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddu etholedig gan ddisodli awdurdodau heddlu.

**Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig 2013** - Mae'r Strategaeth yn gwneud nifer o gynigion ynglŷn â gwaith partneriaeth. Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw'r cyrff arweiniol sy'n gyfrifol am droseddu a diogelwch a dylent gael eu cefnogi gan fyrddau partneriaeth troseddau trefnedig lleol newydd, gan gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau er mwyn sicrhau y defnyddir yr holl wybodaeth a phwerau sydd ar gael. Bydd union strwythur partneriaethau amlasiantaeth lleol yn amrywio ac efallai mai addasu grŵp presennol fyddai orau i'r diben hwn, megis y bartneriaeth diogelwch cymunedol.

**Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014** - Mae'r Ddeddf yn cyflwyno pwerau symlach i fynd i'r afael ag ymddygid gwrthgymdeithasol er mwyn darparu gwell amddiffyniad i ddioddefwyr a chymunedau. Mae'r sbardun cymunedol a'r ateb cymunedol newydd yn grymuso dioddefwyr a chymunedau gan roi mwy o ddweud iddynt o ran sut y mae asiantaethau yn ymateb i gwynion am ymddygiad gwrthgymdeithasol a chosbau heb fynd i'r llys ar gyfer troseddwyr.

# Atodiad 2 – Cyfrifoldebau am ddiogelwch cymunedol yng Nghymru

## Y Swyddfa Gartref

Yng Nghymru a Lloegr, mae’r Swyddfa Gartref yn gyfrifol am fewnfudo, diogelwch, a chyfraith a threfn. Mae’n gyfrifol felly am yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, Fisas y DU a Mewnfudo, a’r Gwasanaeth Diogelwch (MI5). Mae hefyd yn gyfrifol am bolisi llywodraethol ar faterion diogelwch megis cyffuriau a gwrthderfysgaeth, yn ogystal â pholisi strategol diogelwch cymunedol yng Nghymru a Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae’r Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig (y ‘Strategaeth’), a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013, yn nodi sut y bydd y Swyddfa Gartref yn atal pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a threfnedig yng Nghymru a Lloegr. Mae’r Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig yn gwneud nifer o gynigion o ran gwaith partneriaeth ac yn ei gwneud yn ofynnol i Heddluoedd a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu unigol fod yn gyrff arweiniol sy’n gyfrifol am droseddu a diogelwch. Fodd bynnag, dylai byrddau partneriaeth troseddau trefnedig lleol newydd, gan gynnwys awdurdodau lleol ac asiantaethau, gefnogi’r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau y defnyddir yr holl wybodaeth a’r pwerau sydd ar gael iddynt. Bydd union strwythyr y partneriaethau amlasiantaeth lleol wrth ymdrin â throseddau difrifol a threfnedig yn amrywio ledled y wlad. Mewn rhai ardaloedd, efallai mai’r ffordd orau fyddai addasu grŵp sydd eisoes yn bodoli at y diben hwn megis y bartneriaeth diogelwch cymunedol.

## Llywodraeth Cymru

Mae gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru y cymhwysedd i gymeradwyo biliau ar gyfer Deddfau y Cynulliad mewn amryw feysydd a amlinellir yn atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Er nad oes gan Weinidogion Cymru a Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb deddfwriaethol neu bolisi uniongyrchol ar gyfer troseddu a diogelwch, maent yn gyfrifol am lawer o asiantaethau a sefydliadau sy’n chwarae rhan bwysig mewn diogelwch cymunedol.

O ystyried y cyd-destun uchod, cydnabu’r Llywodraeth Cymru ddiwethaf fod ymdrin â throseddu ac ofn troseddau yn ffordd bwysig o helpu pobl i deimlo’n fwy diogel yn eu cymunedau. Yn sgil hyn, mae’n cydnabod bod ei gwaith gyda’r heddlu, y Swyddfa Gartref, partneriaethau diogelwch cymunedol a sefydliadau allweddol eraill i leihau troseddu ac ofn troseddau yn hynod bwysig. Trwy ei Rhaglen Lywodraethu 2011-2016 a’r nod strategol o wneud ein cymunedau yn ddiogel i bawb, mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer gwelliant, gan anelu at wneud ein cymunedau yn fwy diogel drwy leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, troseddu (gan gynnwys ofn troseddu), camddefnyddio sylweddau ac achosion ac effeithiau tanau yn ogystal â chydlynu achosion brys yn effeithiol.

## Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Swyddogaethau craidd y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu yw cynnal gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon yn eu hardal, a dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'n rhaid i'r Cynllun Heddlu a Throseddu gynnwys amcanion y Comisiynwyr o ran plismona, yr adnoddau a fydd ar gael i'r Prif Gwnstabl, a sut y bydd perfformiad yn cael ei fesur. Mae'n rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl roi ystyriaeth i'r cynllun heddlu a throseddu wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Er nad yw'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu wedi eu cynnwys yn benodol fel aelodau partneriaethau diogelwch cymunedol, mae ganddynt bwerau a dyletswyddau sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol, gan gynnwys dyletswydd gyfatebol i gydweithredu â phartneriaethau diogelwch cymunedol at ddibenion lleihau troseddu ac anhrefn; pŵer i dynnu cynrychiolwyr o un o'r partneriaethau diogelwch cymunedol neu bob un o'r partneriaethau yn eu hardal at ei gilydd i drafod materion blaenoriaeth; a phŵer i'w gwneud yn ofynnol i bartneriaethau diogelwch cymunedol gyflwyno adroddiadau am faterion o bwys a phŵer i gymeradwyo uno partneriaethau diogelwch cymunedol (trwy gyflwyno cais i'r partneriaethau diogelwch cymunedol dan sylw). Yn ogystal â hyn, mae gan Gomisiynwyr y Pŵer i gomisiynu gwaith diogelwch cymunedol gn amryw bartneriaid lleol gan gynnwys partneriaethau diogelwch cymunedol a darparwyr cymunedol, sector gwirfoddol neu fasnachol).

## Awdurdodau Lleol

Mae partneriaethau diogelwch cymunedol yn grwpiau o sefydliadau lleol sy'n cydweithio i leihau troseddu a gwella diogelwch. Caiff partneriaethau diogelwch cymunedol eu harwain gan awdurododau lleol ac mae aelodaeth yn cynnwys amrywiaeth eang o wasanaethau awdurdod lleol, Cyrff Heddlu, Awdurdod Tân ac Achub, y gwasanaeth Iechyd a'r gwasanaeth Prawf. Dyma'r 'awdurdodau cyfrifol'. Mae partneriaethau diogelwch cymunedol hefyd yn gweithio'n agos ag asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, a'r sector gwirfoddol a busnes.

Mae'r partneriaeth diogelwch cymunedol yn rheoli'r prosesau canlynol: rheoli strategol lleol, comisiynu asesiadau strategol lleol o ddiogelwch cymunedol, datblygu cynlluniau cyflawni lleol ar gyfer gostwng lefelau troseddu ac anhrefn, goruchwylio perfformiad o ran targedau gostwng lefelau troseddu a chyflawni gwasanaethau.

Yn ogystal â hyn, mae gwaith ehangach awdurdodau lleol hefyd yn cyfrannu'n bwysig at ddiogelwch cymunedol mewn cymunedau, yn arbennig meysydd fel:

- cynllunio at argyfwng – sicrhau bod cynlluniau ar waith i ymdrin ag argyfyngau fel llifogydd, eira mawr ac iâ, aflonyddwch sifil neu derfysgaeth;
- rheoleiddio, trwyddedu a safonau masnachu – fel trwyddedi alcohol ac adloniant i helpu i gynnal trefn gyhoeddus, ardystiad hylendid bwyd i fusnesau er mwyn atal gwenwyn bwyd;
- diogelu a sicrhau lles aelodau'r gymdeithas sy'n agored i niwed trwy eu gwaith ym maes addysg, gwasanaethau cymdeithasol a thai;
- timau gorfodi tenantiaeth yn ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a niwsans cymdogion;
- gwasanaeth cynllunio yn rhoi cyngor ar geisiadau cynllunio a'u cymeradwyo ar gyfer datblygiadau newydd sy'n ceisio datrys materion troseddu posibl trwy eu dyluniad;
- timau cefnogi pobl yn rhoi cyngor a chymorth i bobl sy'n agored i niwed a'u helpu i gadw eu cartref; a
- gwasanaethau casglu sbwriel a gwastraff yn cadw ardaloedd yn lân ac yn dda.

# Atodiad 3 – Methodoleg yr astudiaeth

## Adolygu llenyddiaeth, data ac ystadegau

Rydym ni wedi adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau a chyfryngau, gan gynnwys:

- polisïau, canllawiau a gwaith ymchwil y Swyddfa Gartref;
- dogfennau polisi a chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- cynlluniau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ar gyfer y cyfnod 2012-16;
- cynlluniau a strategaethau awdurdodau lleol sy'n ymwneud â diogelwch cymunedol yn y 22 awdurdod lleol;
- ffurflenni dangosyddion perfformiad a data cyllideb sydd ar gael ar-lein yn y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, StatsCymru a'r Hwb Meincnodi; a
- gwaith ymchwil a chanllawiau perthnasol eraill gan y llywodraeth, awdurdodau lleol, grwpiau o'r sector gwirfoddol a chyrff ymchwil.

## Gwaith maes yr awdurdod lleol

Ymwelwyd â saith awdurdod lleol yng Nghymru yn 2015-16. Roedd yr awdurdodau lleol a ddewiswyd yn cynrychioli cymysgedd o awdurdodau dinesig, trefol a gwledig a wasgarir yn ddaearyddol ledled Cymru. Yr awdurdodau oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Sir Ceredigion
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Cyngor Sir Dinbych
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Yn ystod yr ymweliadau, gwnaethom gyfweld ag amrediad o aeoldau partneriaethau diogelwch cymunedol, gan gynnwys swyddogion yr heddlu a thân, staff ac aeoldau etholedig byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys aelodau o bartneriaethau rhanbarthol.

## Arolygon

Cynhaliwyd amrywiaeth o arolygon ar-lein, gan arolygu:

- Cydgysylltwyr diogelwch cymunedol yr 20 o bartneriaethau diogelwch cymunedol yr awdurdodau lleol rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2015 a chafwyd ymatebion gan bob un ohonynt.
- Aelodau partneriaethau diogelwch cymunedol ym mis Hydref a mis Tachwedd 2015, a chafwyd 51 o ymatebion. Hyrwyddwyd yr arolwg trwy reolwyr/cydgysylltwyr partneriaethau diogelwch cymunedol a chawsom ymatebion gan 31 o wahanol sefydliadau ledled Cymru sy'n aelodau o bartneriaethau diogelwch cymunedol.
- Dinasyddion o fis Hydref 2014 i fis Tachwedd 2015, a chawsom 468 o ymatebion. Roedd yr arolwg ar gael ar-lein ac fe'i hyrwyddwyd trwy ein tîm cyfathrebu. Nid yw'r dull o reidrwydd yn sicrhau ymateb gan gynrychiolydd. Er enghraifft, daeth hanner yr ymatebion o Ogledd Cymru ac ni chafwyd unrhyw ymatebion gan rai ardaloedd awdurdod lleol. O ystyried y cyfyngiadau hyn, defnyddiwyd yr arolwg gennym i adrodd ar farn ar lefel Cymru gyfan yn unig.

# Atodiad 4 – Astudiaethau achos arfer da

## Arfer da – Sut ydym ni'n ei ddiffinio

Dyma'r paramedrau yr ydym ni'n eu defnyddio i farnu a ddylid cynnwys astudiaeth achos yn Arfer Da:

- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi profi ei heffeithiolrwydd, a gwerthusiad cynhwysfawr i'w chefnogi.
- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi dangos ei bod yn cyflawni canlyniadau llwyddiannus ac wedi ei chefnogi gan rywfaint o ffynonellau data goddrychol a gwrthrychol.
- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd wedi gweithio mewn un sefydliad ac sy'n edrych yn addawol yn ei chyfnod cynnar i ddod yn arfer da ag effaith gynaliadwy hirdymor.
- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sydd â'r potensial i gael ei hefelychu mewn sefydliadau eraill.
- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n cyflawni gwerth am arian. Diffiniad gwerth am arian yw'r defnydd gorau o adnoddau i gyflawni'r buddion dymunol.
- Rhaglen, gweithgaredd neu strategaeth sy'n cyflawni arbedion/gostyngiadau mewn gwariant heb unrhyw effaith neu ddim ond effaith fach ar berfformiad.

Yng nghorff yr adroddiad, rydym ni wedi nodi'r meysydd arfer da canlynol:


- Uned Lleihau Niwed Wrecsam – tudalen 15 (paragraff 1.23)
- 20 Gorau Sir Dinbych – tudalen 16 (paragraff 1.24)
- Pwynt Cymorth Abertawe – tudalen 16 (paragraff 1.25)
- Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru – tudalen 18 (paragraff 1.27)
- Grŵp Gwent Mwy Diogel – tudalen 18 (paragraff 1.28)
- Cynllun Abertawe Mwy Diogel Un Abertawe – tudalen 28 (paragraff 2.24)
- Ymgysylltiad diogelwch cymunedol Caerdydd – tudalen 32 (paragraff 2.36)
- Hwb Wrecsam – tudalen 33 (paragraff 2.37)
- Dull comisiynu Heddlu Dyfed Powys – tudalen 36 (paragraff 3.6)
- Gwaith comisiynu Heddlu Gwent – tudalen 37 (paragraff 3.7)
- Cynllun Wrecsam 3 – tudalen 56 (paragraff 4.28)

Hefyd, rydym wedi nodi'r arfer trosglwyddadwy canlynol.

## Astudiaeth Achos 1 – Canolfan Triniaeth Alcohol Caerdydd

Sefydlwyd Canolfan Triniaeth Alcohol Caerdydd (ATC) i ddarparu capasiti ychwanegol i ymdrin â'r nifer uwch o unigolion difrifol feddw sy'n cyrraedd Adran Argyfwng Ysbyty Prifysgol Cymru ar nosweithiau Gwener a Sadwrn yng Nghaerdydd. Yn ystod yr oriau brig, mae hyd at 70 y cant o bawb sy'n mynd i'r Adran Argyfwng yn Ysbyty Prifysgol Cymru yno oherwydd alcohol. Nod ACT oedd dargyfeirio cleifion i ffwrdd o'r Adran Argyfwng; lleihau'r pwysau ar wasanaethau ambiwlans trwy drin cleifion yng nghanol y ddinas; a lleihau amseroedd trosglwyddo o'r ambiwlans i'r Adran Argyfwng trwy leihau nifer y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yno.

Roedd y prosiect yn gydweithrediad rhwng cydgysylltwyr Hwyr y Nos Caerdydd (o'r awdurdod lleol), Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro, Adran Argyfwng Ysbyty Prifysgol Cymru a'r Esgobaeth Gatholig Rufeinig. Roedd partneriaid eraill a oedd eisoes yn rhan o economi hwyr y nos, gan gynnwys gweinidogion stryd, Ambiwlans Sant Ioan, trwyddedeion a swyddogion tacsi, hefyd yn rhan o'r prosiect.

Bu'r prosiect hefyd yn cydweithio â'r sector preifat. Prynodd datblygwyr eiddo yr adeilad a oedd yn lleoliad i'r ACT oddi wrth yr awdurdod lleol, ond cytunwyd i leoli'r prosiect o fewn eu datblygiad. Roedd y prosiect yn weithredol ar nosweithiau Gwener a Sadwrn, a dyddiadau penodol eraill pan oedd disgwyl lefelau uchel o unigolion difrifol feddw (digwyddiadau, Wythnos y Glas, ac ati).

Cynhaliwyd gwerthusiad o'r prosiect gan Brifysgol Caerdydd yn 2013[41]. Ymhlith ei ganfyddiadau, daeth y gwerthusiad i'r casgliad y byddai'r prosiect yn dod yn gost-niwtral, ar sail cymhariaeth rhwng gwariant ar gostau staff ac ati, a'r arbedion a gyfrifwyd yn sgil llai o bobl yn yr Adran Argyfwng, llai o deithiau ambiwlans a llai o amser aros i'r ambiwlans. Mae'r wybodaeth a gasglwyd gan gleifion a aeth i'r ACT yn darparu tystiolaeth o fannau a oedd yn peri pryder penodol – amseroedd a lleoliadau lle mae meddwi'n broblem fawr yng nghanol y ddinas.

Ariennir y prosiect erbyn hyn gan Fwrdd Cydweithredol Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro. Mae staff meddygol sy'n gweithio ar y prosiect hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd mewn digwyddiadau i hyrwyddo diogelwch yn economi hwyr y nos, er enghraifft yn Ffeiriau'r Glas yn y Brifysgol ledled y ddinas.

41 Dr Simon Moore, Dr Vas Sivarajasingam, Marjukka Heikkinen: Grŵp Ymchwil Trais a Chymdeithas Prifysgol Caerdydd, **Gwerthusiad o Gynllun Peilot Canolfan Triniaeth Alcohol Caerdydd**, Mai 2013.

## Astudiaeth Achos 2 – Canolfan Triniaeth Alcohol a Lles Wrecsam

Sefydlwyd Canolfan Triniaeth Alcohol a Lles Wrecsam yn ystod cyfnod y Nadolig yn 2014. Aeth i'r afael â nifer o'r problemau gwrthgymdeithasol ac iechyd yng nghanol y dref a achoswyd gan yfed gormod o alcohol.

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol wedi casglu tystiolaeth sylweddol sy'n cydgysylltu'n uniongyrchol â llai o bobl yn mynd i'r adran damweiniau ac argyfwng a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod y penwythnosau a'r cyfnodau pan oedd canol y dref yn weithredol. Yn dilyn ei llwyddiant, cyflwynodd y Bartneriaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol achos busnes i'r Bwrdd Cynllunio Ardal a chafwyd arian cyfalaf i ddarparu canolfan triniaeth alcohol a lles barhaol yn Wrecsam. Bwriedir agor y ganolfan newydd fis Tachwedd 2015 a bydd ar agor bob penwythnos ac yn ystod cyfnodau gwyliau poblogaidd. Bydd gwirfoddolwyr, yn bennaf o'r Groes Goch, myfyrwyr, staff meddygol a nyrsys yn gweithio yn y ganolfan. Mae'r Heddlu, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a gweinidogion stryd yn darparu cymorth yn y ganolfan ac o amgylch y ganolfan. Mae rhagor o gynlluniau i ddefnyddio'r ganolfan yn ystod y dydd fel man galw heibio i helpu gyda materion lles eraill.

Mewn cydweithrediad â'r fenter hon, mae'r Cyngor a'i bwrdd partneriaeth wedi datblygu perthynas waith dda â thrwyddedeion yng nghanol y dref, sy'n helpu i atal problemau sy'n ymwneud ag alcohol hyd yn oed yn fwy.

## Astudiaeth Achos 3 – Hyfforddiant Diogelu Gyrwyr Tacsi Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Dinbych

Yn sgil Adroddiad Arolygiad Cyngor Bwrdeistref Fetropolitan Rotherham Chwefror 2015, a gynhaliwyd gan Louise Casey CB, adolygodd uned drwyddedu Conwy ei pholisïau a'i gweithdrefnau trwyddedu ac ystyriodd y camau ychwanegol y gellid eu cymryd o ran Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) a thrwyddedu tacsis. Ymhlith pethau eraill, penderfynwyd:

- bod angen hyfforddiant codi ymwybyddiaeth o CSE ar yrwyr tacsi (mae angen cymorth/mewnbwn gan yr Heddlu a Gwasanaethau Cymdeithasol);
- bod cyfathrebu gwybodaeth yn well rhwng partneriaid/asiantaethau;
- y dylid newid amodau trwyddedu tacsis i'w gwneud yn ofynnol i yrwyr gael Tystysgrif BTEC Lefel 2 (neu gyfwerth) ar 'Gyflwyniad i Swyddogaeth Gyrrwr Tacsi Proffesiynol a Cherbyd Hurio Preifat (QCF)', sy'n cynnwys hyfforddiant ar faterion CSE.

Dechreuodd swyddogion gyfathrebu ac ymgysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, Heddlu Gogledd Cymru, Barnardo's a'r fasnach dacsi leol. Penderfynwyd cyflwyno adroddiad i Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awgrymu bod yn rhaid i'r holl yrwyr trwyddedig presennol fynd i sesiwn orfodol codi ymwybyddiaeth o CSE, a phan fydd angen adnewyddu eu trwydded yrru, rhaid iddynt hefyd fod wedi cael Tystysgrif BTEC lefel 2 (neu gyfwerth) ar 'Gyflwyniad i Swyddogaeth Gyrrwr Tacsi Proffesiynol a Cherbyd Hurio Preifat (QCF)', sy'n galluogi gyrwyr tacsi a cherbydau hurio preifat i ddangos tystiolaeth o gymhwysedd technegol a gwybodaeth sylfaenol am eu gweithgareddau gwaith.

Cytunwyd ar yr argymhellion yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 21 Medi 2015. Felly, trwy gyfathrebu â'r partneriaid uchod, trefnwyd a chynhaliwyd sesiynau codi ymwybyddiaeth o CSE i yrwyr tacsi Conwy ar 25 Tachwedd 2015. Gwerthfawrogodd y gyrwyr tacsi y sesiynau yn fawr iawn, wrth i dros 300 ohonynt gael y negeseuon pwysig, a'r gobaith yw y bydd hyn yn arwain at lefelau uwch o ddiogelwch cyhoeddus ac ymwybyddiaeth o CSE a'i atal.

Nodwyd darparwyr lleol ar gyfer y dystysgrif BTEC lefel 2 a rhoddwyd gwybod i'r fasnach dacsi am y gofynion BTEC gorfodol newydd. Byddai gyrwyr nad ydynt yn mynd i'r sesiynau ymwybyddiaeth o CSE, neu sy'n methu â chael y BTEC, ac sy'n dymuno cadw eu trwydded, yn cael eu cyfeirio i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol i bennu a ydynt yn dal i fod yn addas i gael trwydded yrru cerbyd hurio preifat.

Adolygwyd a chadarnhawyd hefyd y polisi Euogfarn Droseddol ar gyfer dosbarthu trwyddedau Cerbydau Hackney a/neu Gerbydau Hurio Preifat i yrwyr, yn dilyn cytundeb yn y cyfarfod pan gytunwyd ar yr adroddiad i'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol ar 16 Mawrth 2015.

Y gobaith yw y bydd gwell ymwybyddiaeth o CSE a gwell cyfnewid gwybodaeth yn sgil y gwaith uchod, a gafodd ei arwain a'i hwyluso gan uned drwyddedu Conwy.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru